Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD IAU, 26 MEHEFIN 2025 am 2:00 y. p. | THURSDAY, 26 JUNE 2025 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),***
Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Paul Ellis, Kenneth Hughes

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, *2 x sedd wag*

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1** **YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 8 Mai 2025.
- 20 Mai 2025 (ethol Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd)

**4** **LOG GWEITHRDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**5** **ENWEBU AELOD LLEYG I BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMU** (Tudalennau 15 - 24)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

**6** **ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2024/25** (Tudalennau 25 - 64)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

**7** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024/25** (Tudalennau 65 - 88)

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**8** **ADODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2024/25** (Tudalennau 89 - 108)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**9** **SIARTER ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 109 - 124)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**10** **STRATEGAETH A CHYNLLUN BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2025/26** (Tudalennau 125 - 142)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**11** **ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2025** (Tudalennau 143 - 168)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**12** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 169 - 178)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 8 Mai, 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Kenneth Hughes, Keith Roberts, Margaret M. Roberts, Ieuan Williams.<br><br>Aelodau Lleyg: William Parry. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 4)<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (AS)<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 4)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglenni Corfforaethol (GP) (ar gyfer eitemau 7 ac 8)<br>Prif Archwilydd (NW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Aled M. Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai), Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Swyddog Rheoli Tai (BJ), Uwch Reolwr Cynradd (Addysg) (OTD), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO) (CSYM), Uwch Archwilydd (AL) (IoACC). |

---

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Kenneth Hughes i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

### 1. DATGANIAD BUDDIANNAU

Bu i Mr Dilwyn Evans ddatgan budd personol mewn perthynas â'r cyfeiriad yn y cofnodion o dan eitem 2 ar yr agenda yn ogystal ag yn eitem 3, sy'n ymwneud â chydweithrediad y Cyngor â cholegau lleol a rhanbarthol oherwydd ei rôl fel aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Grŵp Llandrillo Menai.

Bu i Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg, ddatgan budd personol hefyd ynglŷn â'r cyfeiriad yn y cofnodion o dan eitem 2 ar yr agenda ac yn eitem 3 yn ymwneud â chydweithrediad y Cyngor â cholegau lleol a rhanbarthol fel aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Grŵp Llandrillo Menai a Chadeirydd ei Bwyllgor Archwilio a Risg.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 3. LOG GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys log gweithredu'r pwyllgor, i'w ystyried. Mae'r adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ar statws a chynnydd y camau gweithredu a'r penderfyniadau yr oedd wedi cytuno arnynt.

Cyflwynwyd y diweddariadau ychwanegol canlynol ar lafar yn y cyfarfod –

- Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ar fanteision cydweithrediad y Cyngor â cholegau lleol a rhanbarthol, yn enwedig ei rôl wrth fynd i'r afael ag anghenion recriwtio a sgiliau yn ogystal â llenwi swyddi gwag (eitem 21 ar y log gweithredu). Dywedodd wrth y pwyllgor fod gan y Cyngor femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai a'i fod wedi bod yn gweithio'n helaeth gyda'r Grŵp dros y deunaw mis diwethaf.

  Y mis nesaf, bydd y Cyngor yn lansio menter "Cam i'r Gwaith" mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai. Bydd y fenter hon yn rhoi cyfle i bum person ifanc heb unrhyw brofiad gwaith blaenorol weithio yn y Cyngor i ddechrau am un diwrnod yr wythnos gan roi profiad iddynt o rolau ymarferol na fyddent efallai wedi'u hystyried fel arall.

  Drwy Grŵp Llandrillo Menai mae'r Cyngor yn cynnig rhaglen brentisiaeth dreigl gyda naw prentis sy'n gweithio ar hyn o bryd yn y Gwasanaethau Tai sydd â pherthynas agos â'r grŵp. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cydweithio â Phrifysgol Bangor ar raglen MA Gwaith Cymdeithasol sydd â deuddeg o fyfyrwyr ar hyn o bryd ac sy'n gyfrwng allweddol ar gyfer recriwtio gweithwyr cymdeithasol. Mae'r Cyngor hefyd wedi ail-lansio ei gynllun graddedigion, ac yn ddiweddar hysbysebwyd tair swydd sydd ar gael yn 2025. Ar ben hynny, mae wedi cymryd rhan weithredol mewn sesiynau cynllunio gweithlu dan arweiniad y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

  Cyfeiriodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid hefyd at Raglen Denu Talent y Cyngor sy'n cynnig profiad gwaith â thâl yn ystod misoedd yr haf. Roedd y rhaglen yn arbennig o lwyddiannus y llynedd pan arweiniodd tri o'r pum lleoliad o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol at apwyntiadau parhaol o fewn gwasanaethau gofal. Er bod cynlluniau i symud ffocws y rhaglen i faes gwasanaeth arall, mae'r heriau recriwtio parhaus ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn golygu bod ei phwyslais parhaus ar y maes hwnnw yn parhau i fod yn werthfawr.

  Nododd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid y gall colegau ond gynnal cyrsiau a rhaglenni os ydynt yn denu nifer ddigonol o fyfyrwyr, sy'n rhywbeth na all y Cyngor fel awdurdod llai, bob amser ei warantu. Mewn ymateb i gwestiynau am fylchau recriwtio sy'n dal i fodoli, cydnabu fod yr adran gwasanaethau cyfreithiol yn wynebu heriau ar hyn o bryd. O ystyried ei maint, nid yw'r adran yn gallu cefnogi datblygiad hirdymor ac mae atebion posibl yn cael eu hystyried.

- Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar yr incwm/arbedion a gynhyrchir yn sgil gosod paneli solar ar adeiladau'r cyngor drwy gyllid Salix (eitem 22 ar y log gweithredu). Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr adran Gwasanaethau Eiddo yn dangos bod 45 o brosiectau ynni solar wedi'u cwblhau ers 2020 am gyfanswm cost o £1.6m wedi'i ariannu gan fenthyciadau di-log gan Salix. Dechreuodd y prosiectau hyn ar adegau gwahanol dros y pum mlynedd diwethaf ac amcangyfrifir bod y trydan a gynhyrchir yn dod i 3.49GW sydd, yn ôl gwerthoedd presennol, yn cyfateb i

£700,000. O ran prif adeilad swyddfa'r Cyngor, tynnodd Swyddog Adran 151 sylw at y ffaith bod y system baneli solar a osodwyd ym mis Hydref 2020 am gost o £78,000 hyd yn hyn wedi cynhyrchu 266,000 KW o drydan, gwerth £56,000. Os yw'r gyfradd hon o gynhyrchu trydan yn parhau, disgwylir i'r system glirio’r costau erbyn 2027. O ystyried mai oes y paneli solar fydd 25 mlynedd, byddai hyn yn arwain at 18 mlynedd o ostyngiad mewn costau ynni i'r Cyngor. Mae gwaith dadansoddi’n parhau a gellir darparu adroddiad ychwanegol ar gais. Nodwyd na fydd benthyciadau Salix bellach yn cael eu cynnig yn ddi-log yn y dyfodol ac yn hytrach byddant ar gael ar sail cyfradd llog o 2.5%. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau benthyciadau di-log ychwanegol gwerth £400,000 a fydd yn cael eu dyrannu i gynlluniau arbed ynni.

Nododd y Pennaeth Archwilio a Risg mewn perthynas ag eitem 10 ar y log gweithredu fod dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac adroddiad effaith Quod Ynys Môn wedi'i gwblhau ond nad yw wedi'i gyhoeddi eto. Cadarnhaodd fod eitem 23 wedi'i chwblhau a nododd nad yw'r eitemau sy'n weddill ar y log i'w cwblhau tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Penderfynwyd nodi'r camau gweithredu y manylir arnynt yn y tabl log gweithredu a chadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod y camau gweithredu wedi'u gweithredu’n foddhaol.**

## 4. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a ddarparodd y wybodaeth ddiweddaraf fel ag yr oedd ar 31 Mawrth, 2025 ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad blaenorol ar 31 Ionawr 2025, i'w ystyried gan y pwyllgor. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith presennol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i ganolig yn y dyfodol. Darparwyd copïau ar wahân o’r adroddiadau sicrwydd terfynol i aelodau mewn perthynas â Chyrchfan – Tîm Morwrol: Prosesau Incwm (Adolygiad Cyntaf) (Sicrwydd Rhesymol), Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (Sicrwydd Rhesymol), Rhaglenni Grant Addysg Gynnar a Gofal Plant (Sicrwydd Rhesymol), Rheoli Asedau Ffisegol y Cyngor (YM14) (Sicrwydd Rhesymol), Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Adolygiad Cyntaf) (Sicrwydd Cyfyngedig) ac Adennill Dyledion y Dreth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion (Ail Adolygiad) (Sicrwydd Cyfyngedig).

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r pedwar adroddiad archwilio a gwblhawyd yn ystod y cyfnod a oedd yn cynnig sicrwydd rhesymol. Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd fod y dull archwilio mewnol yn canolbwyntio ar godi materion a risgiau yn hytrach na gwneud argymhellion, gyda'r rheolwyr yn cytuno ar gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â phryderon a nodwyd. O ran y ddau adolygiad archwilio sicrwydd cyfyngedig, er bod cynnydd wedi'i wneud yn yr adolygiad dilynol cyntaf o'r Grant Cyfleusterau Anabl, dywedodd fod sawl gwendid yn parhau sy'n gofyn am gamau pellach i sicrhau proses gadarn ac atebol. Bydd adolygiad dilynol ffurfiol pellach yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2025 i sicrhau bod y materion sy'n weddill wedi'u datrys ac i asesu effeithiolrwydd gwelliannau. O ran ail adolygiad dilynol Adennill y Dreth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion, tynnodd sylw at y ffaith bod y gwasanaeth wedi gwneud cynnydd pellach ers yr adolygiad gwreiddiol yn 2023 gan gynnwys gwelliannau system, mwy o oruchwyliaeth ac asesiad rheolaidd o'r Dreth Gyngor a dyledion Ardrethi Annomestig. Fodd bynnag, mae dyledion hŷn sylweddol heb eu datrys a bydd yn anodd rhoi sylw iddynt heb adnoddau ychwanegol. Bydd adolygiad llawn o'r broses adfer ddiwygiedig yn cael ei gynnwys yn y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26.

Ystyriodd y pwyllgor y ddau adroddiad adolygiad sicrwydd cyfyngedig a chodwyd y materion canlynol –



DRAFT

- Mynegwyd pryderon am effeithiolrwydd y broses Ardrethi Annomestig, yn enwedig yr amserlen estynedig ar gyfer cyflawni gwaith addasu tai y cytunwyd arno.  Cyfeiriwyd at achos penodol lle tynnwyd sylw at y ffaith ei bod wedi cymryd bron i ddwy flynedd i gadarnhau'r angen i wneud addasiadau a chymeradwyo'r grant, ac yna mwy na blwyddyn i gwblhau'r gwaith y cytunwyd arno. Mae'r oedi estynedig wedi effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd y cleient yr effeithiwyd arno. Ceisiwyd sicrwydd bod camau yn cael eu cymryd i wella amserlenni cyflawni.

  Esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr adolygiad archwilio yn nodi'r angen i alinio dangosyddion perfformiad allweddol Grant Cyfleusterau i'r Anabl cyfredol y Cyngor ag amserlenni disgwyliedig Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn diffinio tri cham allweddol yn y broses addasu - cyswllt cychwynnol, cadarnhad o addasiad yn ôl yr angen, a gwaith gosod sy'n rhoi golwg llawn ar y broses. Dim ond yr amser cyfartalog a gymerir yn y cam gosod terfynol y mae DPA cyfredol y Cyngor yn ei gasglu. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Tai, ochr yn ochr â'r heriau i sicrhau bod contractwr ar gael, fod y Tîm Addasiadau Tai wedi gostwng o bump i un aelod o staff dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd mesurau effeithlonrwydd. Er bod cefnogaeth ychwanegol wedi helpu i hyrwyddo'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl, mae angen gwelliannau pellach. Dywedodd ei fod yn hyderus y byddai'r gwelliannau hyn yn cael eu cyflawni gyda barn sicrwydd cyfyngedig yn gymhelliant ar gyfer cynnydd parhaus.

- P'un a yw'r materion/risgiau a nodwyd yn yr adolygiad dilynol o archwiliad Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn deillio o ddiffygion systemig neu ddiffyg cydymffurfio â phrosesau a sefydlwyd. Cyfeiriwyd at fesurau diogelwch cyfreithiol ar goll sy'n ymwneud â chofnodi grantiau i berchen-feddianwyr ar y gofrestr pridiannau tir lleol neu'n effeithio ar y Gofrestrfa Dir a allai arwain at golledion ariannol.

  Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg, yn benodol ynglŷn â'r mesurau diogelwch cyfreithiol, fod yr adolygiad wedi canfod bod y prosesau priodol yn eu lle ond nad ydynt yn cael eu dilyn, gan gyfrannu at y risg.

- P'un a oes gan y broses addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl drefn gyffredinol i reoli prosiectau er mwyn cyflymu'r gwaith o gyflawni'r prosiectau o fewn yr amserlenni penodol a sicrhau gwariant cyfalaf effeithlon.

  Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod un swyddog yn gyfrifol am asesu a yw pob cais am grant yn rhesymol ac yn briodol, tra bod asiantaeth Gofal a Thrwsio Môn yn goruchwylio'r gwaith o reoli prosiectau gosod addasiadau unigol.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wrth ymateb i'r ail adolygiad dilynol sicrwydd cyfyngedig - Adennill Dyledion y Dreth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion fod y rhan fwyaf o'r gwaith ers yr adolygiad gwreiddiol yn 2023 wedi canolbwyntio ar wella prosesau i sicrhau yr ymdrinnir â dyledion yn brydlon ac i atal dyledion rhag cronni yn y tymor hir. Fodd bynnag, heb fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ddyledion hŷn, mae'n parhau i fod yn anodd pennu llwyddiant y gwelliannau hyn. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo adnodd ychwanegol i asesu opsiynau adennill dyledion. Amlinellodd Swyddog Adran 151 y gwahanol brosesau ar gyfer adennill dyledion amrywiol a dyledion y Dreth Gyngor ac eglurodd, er bod y cyngor yn casglu ardrethi annomestig, caiff y rhain eu cyfuno'n ganolog sy'n golygu bod unrhyw golledion yn sgil diffyg talu yn dod o'r gronfa yn hytrach na gan y cyngor. Yn ogystal â hyn, gan fod Llywodraeth Cymru wedi dileu pwerau i garcharu dyledwyr y Dreth Gyngor, bydd y cyngor yn ystyried yr holl ddulliau gorfodi sydd ar gael cyn dileu dyledion. Dywedodd Swyddog Adran 151 wrth y pwyllgor, er bod cynnydd wedi'i wneud, bydd canlyniadau go iawn yn cymryd amser. Mewn ymateb i

ymholiad am yr amserlen, nododd fod perfformiad casglu treth gyngor yr awdurdod yn cymharu'n dda â pherfformiad cynghorau lleol eraill. Mae ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fater eang, wedi'i waethygu gan ffactorau fel yr argyfwng costau byw. Cadarnhaodd y bydd effaith yr adnodd ychwanegol yn cael ei werthuso mewn chwe mis a chaiff adroddiad ei gyflwyno mewn deuddeg mis.

- Cwestiynodd y pwyllgor a ddylai cynghorau yng Nghymru fod yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru i ailystyried dileu pwerau carcharu dyledwyr o ystyried effaith sylweddol y dreth gyngor sy’n ddyledus ar gyllidebau'r cyngor.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod cynghorau Cymru wedi codi pryderon pan newidiwyd y polisi ac er bod Llywodraeth Cymru wedi addo adolygiad ynghyd â phwerau ychwanegol i gynghorau, nid yw hyn wedi’i wireddu eto. Fodd bynnag, mae ymgynghoriad pellach ar y gweill. Sicrhaodd Swyddog Adran 151 y pwyllgor mai dileu dyled yw’r dewis olaf a bod y cyngor yn mynd ar drywydd dulliau eraill i adennill dyledion. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn llwyddo i gasglu dros 99% o'r Dreth Gyngor bob blwyddyn. Mewn ymateb i ymholiadau am ddarpariaeth drwg ddyledion a ph’un ai y dylai’r gwaith o adennill dyledion dargedu'r tri maes gwasanaeth lle mae’r dyledion wedi cronni fwyaf, amlinellodd Swyddog Adran 151 ddull y Cyngor o reoli drwg ddyledion gan fanylu ar natur dyledion o fewn y gwasanaethau hyn ynghyd â'r heriau wrth eu hadennill.

  Wrth adolygu'r adroddiadau sicrwydd sy'n weddill a gyflwynwyd, cododd y pwyllgor bryderon ynglŷn ag adolygiad archwilio Gofal Plant a Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn benodol ynglŷn â methiant y Cyngor i alluogi pob lleoliad nas cynhelir i hawlio cyllid Addysg Gynnar a chyllid Dechrau'n Deg. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y pwyllgor y byddai'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ag Archwilio Mewnol yn cael ei weithredu'n brydlon ac arferion yn cael eu hadolygu o dan gyfarwyddyd Rheolwr y Sector Addysg Gynradd i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni'r holl ofynion angenrheidiol. Bydd y pwyllgor yn derbyn diweddariad maes o law.

**Penderfynwyd nodi canlyniad gwaith Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'r blaenoriaethau yn y dyfodol.**

## 5. MATERION, RISGIAU A CHYFLEOEDD ARCHWILIO MEWNOL SY’N WEDDILL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws y materion, y risg a'r cyfleoedd sy’n weddill gan Archwilio Mewnol, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd yr adroddiad gan gynnig trosolwg o'i brif bwyntiau. Ar 31 Mawrth 2025, roedd pum deg dau o gamau gweithredu a oedd yn weddill yn cael eu holrhain, gydag wyth yn cael eu hasesu fel risgiau "sylweddol" (ambr) a phedwar deg pedwar fel risgiau "cymedrol" (melyn). Darparwyd dadansoddiad manwl o statws presennol y materion, risgiau a chyfleoedd cysylltiedig sylweddol sy’n weddill yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad.

**Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn bod y cynnydd a wneir gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r materion/risgiau/cyfleoedd Archwilio Mewnol sy’n weddill yn foddhaol.**

DRAFT

## 6. ADOLYGU CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A CHYDYMFFURFIO Â SAFONAU NEWYDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys y Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y pwyllgor.

Ers yr adolygiad diwethaf ym mis Mehefin 2024, dywedodd Pennaeth Archwilio a Risg fod Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol wedi cyhoeddi Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd yn lle’r rhai blaenorol - Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Ar gyfer sector cyhoeddus y DU, mae Nodyn Gweithredu wedi'i ryddhau i ddarparu canllawiau ynghylch eu gweithredu. Yn ogystal â hyn, mae CIPFA wedi cyflwyno Cod Ymarfer newydd ar gyfer llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU sydd wedi'i gynllunio i gyd-fynd â'r safonau byd-eang newydd. Trwy ddilyn y Cod, gall y Cyngor sicrhau bod y drefn o lywodraethu archwilio mewnol yn bodloni disgwyliadau GIAS yn sector cyhoeddus y DU. Gan y bydd yn ofynnol i'r Cyngor esbonio sut mae’n cydymffurfio â'r Cod yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol, cynhaliwyd cymhariaeth o Gylch Gorchwyl y pwyllgor i sicrhau bod gofynion y Cod yn cael eu cydnabod yn adrannau perthnasol Cylch Gorchwyl y pwyllgor. Mae'r adroddiad yn crynhoi darpariaethau'r Cod, sefyllfa bresennol y Cyngor ac unrhyw ddiwygiadau dilynol. Os caiff ei gymeradwyo gan y pwyllgor, bydd y Swyddog Monitro yn gallu diwygio'r Cyfansoddiad o dan bwerau dirprwyedig.

**Penderfynwyd cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y pwyllgor fel y'u cyflwynwyd, gan gadarnhau bod y pwyllgor yn fodlon eu bod yn bodloni gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth y DU.**

## 7. ARCHWILIO ALLANOL: CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL CYNGOR SIR YNYS MÔN 2024

Cyflwynwyd Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2024 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn er gwybodaeth i'r pwyllgor. Roedd yr adroddiad cryno yn rhoi trosolwg o'r gwaith archwilio a gwblhawyd yn y Cyngor dros y flwyddyn.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru a dynnodd sylw at y prif bwyntiau.

O ran adolygiad Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor a gynhaliwyd yn 2024, cadarnhaodd y pwyllgor ei safbwynt o'r cyfarfod diwethaf, pan drafodwyd yr adroddiad adolygu llawn. Pwysleisiodd y pwyllgor y gall cynllunio ariannol tymor hir effeithiol fod yn anodd i'r cyngor hwn a chynghorau eraill heb sicrwydd ynghylch ymrwymiadau cyllido estynedig yn hytrach na setliadau o flwyddyn i flwyddyn. Ar ben hynny, gall digwyddiadau annisgwyl a ffactorau byd-eang fel newidiadau gwleidyddol a digwyddiadau economaidd annisgwyl amharu hyd yn oed ar gynlluniau sydd wedi’u paratoi’n ofalus.

Nododd Mr Alan Hughes fod Archwilio Cymru yn cydnabod yr heriau a achosir gan drefniadau cyllido tymor byr, gan dynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn wynebu cyfyngiadau tebyg oherwydd y gyllideb flynyddol gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, gall y Cyngor gryfhau ei strategaeth yn y dyfodol drwy wneud y gorau o'r wybodaeth sydd ar gael ac asesu tueddiadau a rhagolygon sy'n dod i'r amlwg a thrwy gymryd dull y gellir addasu gan sicrhau ei fod mewn sefyllfa ddiogel yn ariannol.

**Penderfynwyd nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024.**

DRAFT

## 8. ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU DIWEDDARIADAU CHWARTER 3 A CHWARTER 4 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru, a ddiweddarodd y pwyllgor ynghylch cynnydd ei raglen waith yn lleol ac yn genedlaethol ar 31 Rhagfyr 2024 (Chwarter 3) a 31 Mawrth 2025 (Chwarter 4) er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o waith rheoleiddio parhaus gan Estyn a AGC.

Cyflwynodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perffomriad Archwilio Cymru yr adroddiad a oedd yn canobwyntnio ar sefyllfa Chwarter 4 a diweddarodd y pwyllgor ynghylch gwaith archwilio mewnol mewn perthynas â Datganiad Cyfrifon 2024/25 ac ardystio ffurflenni grantiau. Hefyd briffiodd y pwyllgor ar statws gwaith archwilio perfformiad 2024/25 yn ogystal ag astudiaethau cenedlaethol arfaethedig ac sydd ar y gweill.

**Penderfynwyd nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan adroddiadau diweddaru Rhaglen Waith ac Amserlen Chwarter 3 a Chwarter 4 2024/25 Archwilio Cymru.**

## 9. ADOLYGU'R BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith a Rhaglen Ddatblygu ar gyfer 2025/26, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Gofynnodd y Pennaeth Archwilio a Risg i'r aelodau gysylltu â hi os oedd ganddynt unrhyw anghenion datblygu a/neu hyfforddi penodol.

Yn dilyn y sesiwn friffio a gynhaliwyd cyn cyfarfod y pwyllgor ym mis Chwefror ar y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial, gofynnodd y Cadeirydd a yw'r Cyngor yn ymwybodol o sut mae Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd o fewn y sefydliad. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Cyngor ystyried cyflwyno canllawiau polisi i sicrhau bod Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei defnyddio'n briodol ac yn effeithiol. Ar ôl trafodaeth, cytunwyd bod y mater yn cael ei ddwyn i sylw'r Tîm Arweinyddiaeth.

**Penderfynwyd derbyn y Blaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer 2025/26 fel un sy'n bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**

**Camau ychwanegol – gofyn i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 godi'r mater o ganllawiau polisi ar ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial o fewn y Cyngor gyda'r Tîm Arweinyddiaeth.**

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Kenneth P Hughes, Aled M Jones, Euryn Morris, Keith Roberts ac Ieuan Williams<br><br>Aelod Lleyg - Mr Dilwyn Evans |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH), |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd T Ll Hughes MBE a Margaret M Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Non Dafydd - Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |

---

**1 DATGANIADAU O FUDDIANT:**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Cafodd Mr Dilwyn Evans ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd â theulu Mrs Sharon Warnes, Aelod Lleyg a fu farw'n ddiweddar. Talodd deyrnged i Mrs Warnes am ei chyfraniad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**3 ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD**

Cafodd y Cynghorydd Euryn Morris ei ethol yn Ddirprwy Gadeirydd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 26 Mehefin 2025 |
| **Pwnc:** | Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

## 2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | 27/06/24 | 9 | Dylid cynnwys monitro nifer y bobl mewn anweithgarwch economaidd fel rhan o set ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Mae'r Cyngor wedi cwblhau dadansoddiad sosio-economaidd o boblogaeth yr ynys, mae hyn yn cynnwys anweithgarwch economaidd, cyflwynwyd adroddiad ar gyfer rhanbarth gogledd Môn i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2024.<br><br>Mae adroddiad ar gyfer yr ynys gyfan hefyd ar y gweill a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. | Ar y gweill. |
| | 05/12/24 | 3 | | | DIWEDDARIAD: Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024 (Eitem 3), cytunodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen i roi dolen i'r pwyllgor i gael mynediad at adroddiad dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac effaith Quod Môn pan gaiff ei gyhoeddi. | |
| | 08/05/25 | 3 | | | DIWEDDARIAD: Yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025, rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad gan y Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Gorfforaethol bod dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac adroddiad effaith Quod Ynys Môn wedi'i gwblhau ond nad yw wedi'i gyhoeddi eto. | |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | 19/09/24 | 5 | Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor i gynnwys gwybodaeth amlwg am bryderon a chwynion defnyddwyr gwasanaethau Gwasanaethau Cymdeithasol. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | | Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Gorffennaf 2025. |
| 18 | 19/09/24 | 6 | Mae'r adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol i'w adolygu er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder pendant. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Bydd yn cael ei adolygu wrth ddrafftio'r adroddiad nesaf. | Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Medi 2025. |
| 19 | 05/12/24 | 5 | Darperir diweddariad ar gynnydd y mesurau a nodwyd i ddarparu penderfyniadau i'r Pwyllgor maes o law. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | Bydd pryderon a godwyd gan wasanaeth ynghylch y CRM yn gofyn am addasiadau pellach, ond ar hyn o bryd mae'r gallu i'w gweithredu yn gyfyngedig. Gall y sefyllfa heb ei llenwi hefyd gyfyngu diweddariad ystyrlon. Felly, bydd diweddariad cynnydd yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad cwynion blynyddol nesaf, ym mis Gorffennaf 2025, gan ganiatáu i'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth cyn y llythyr CCC blynyddol nesaf. | Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Gorffennaf 2025. |
| 20 | 05/12/24 | 11 | Ar gyfer adroddiadau monitro archwilio allanol a rheoleiddwyr yn y dyfodol, bydd amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yn cyd-fynd â diweddariadau ar gynnydd yr ymatebion i argymhellion. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | Mae'r adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | 11/02/25 | 4 | Gofyn i'r Cyngor ystyried archwilio'r manteision y mae gweithio ar y cyd â cholegau lleol a rhanbarthol wedi'u darparu o ran galluogi'r Cyngor i ddiwallu ei anghenion recriwtio a sgiliau a llenwi swyddi gwag. | Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid | Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ar fanteision cydweithrediad y Cyngor â cholegau lleol a rhanbarthol, yn enwedig ei rôl wrth fynd i'r afael ag anghenion recriwtio a sgiliau yn ogystal â llenwi swyddi gwag, yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025. | Wedi ei gwblhau. |
| 22 | 11/02/25 | 6 | I'r Pwyllgor gael gwybodaeth am yr incwm / arbedion y rhagwelir y bydd gosod paneli solar ar adeiladau'r Cyngor gan ddefnyddio cyllid Salix yn ei gynhyrchu. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar yr incwm/arbedion a gynhyrchir gan osod paneli solar ar adeiladau'r cyngor drwy gyllid Salix yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mai 2025. | Wedi ei gwblhau. |
| 24 | 08/05/25 | 9 | Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i godi'r mater o ganllawiau polisi ar ddefnydd Deallusrwydd Artiffisial o fewn y Cyngor gyda'r Tîm Arweinyddiaeth. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Mae polisi wedi'i ddrafftio, a'i ddiweddaru'n ddiweddar yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Swyddog Diogelu Data. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried ac yn mabwysiadu pryd y gallent ddyrannu slot. | Ar y gweill. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD:** | **26/06/2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Enwebu Aelod Lleyg i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cefnogi trefniadau llywodraethiant Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** |
| **ADRODDIAD GAN:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |

## 1. ARGYMHELLIAD

1.1 Enwebu Aelod Lleyg i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.

## 2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

2.1 Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru ar 30/06/2022.

2.2 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys cynrychiolwyr o chwe phrif gyngor y rhanbarth ac erbyn hyn mae'n arfer ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio strategol, trafnidiaeth a datblygiad economaidd.

2.3 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn sefydlu trefniadau llywodraethu corfforaethol. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â sgriwtini ond mae chwe cyngor sir y rhanbarth wedi enwebu aelodau i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 3 GWYBODAETH SY'N BERTHNASOL I BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

3.1 Roedd Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 yn darparu ar gyfer creu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3.2 Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn darparu bod rhaid i bob prif gyngor yng Nghymru fod â Phwyllgor Archwilio. Yn ddiweddarach, cafodd y pwyllgorau hyn eu hailenwi'n Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3.3 Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 yn darparu bod rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fod â'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun. Mae'n rhaid i draean o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg.

3.4 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi penderfynu creu ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun, ac mae'r Cylch Gorchwyl ar ei gyfer i'w weld yn **Atodiad 1.** Er bod y Cylch Gorchwyl wedi cael ei fabwysiadu, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei adolygu a'i ddiweddaru maes o law.

3.5 Bydd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig naw aelod: sef chwe chynghorydd sir, un o bob cyngor cyfansoddol, a thri aelod lleyg. Y cworwm fydd saith, a bydd yn bodoli pan fydd cynghorydd o bob cyngor cyfansoddol ac un aelod lleyg yn bresennol. Mae'n rhaid dewis y Cadeirydd o blith y tri aelod lleyg.

3.6 Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn ond trefnwyd iddo gyfarfod unwaith bob chwarter a disgwylir i gyfarfodydd bara tua dwy awr. Byddant yn gyfarfodydd o bell. Gan fod y ddarpariaeth ar gyfer mynychu o bell yn hawl statudol, hyd yn oed os cyflwynir opsiwn i fynychu "mewn person" yn y dyfodol bydd hawl bob amser gan aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fynychu o bell.

3.7 Bydd swyddog a benodir neu a gaiff ei secondio gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithredu fel ymgynghorydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.8 Darperir hyfforddiant, datblygu a chefnogaeth i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant rôl benodol yn ogystal â chefnogaeth TG.

3.9 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi penderfynu penodi aelodau o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio presennol y cynghorau cyfansoddol. Gofynnwyd i bob cyngor cyfansoddol enwebu cynghorydd o'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel ei brif aelod, ynghyd ag ail gynghorydd i wasanaethu fel dirprwy er mwyn sicrhau y gellir cael cworwm os nad yw'r prif enwebai ar gael.

3.10 Yn ogystal, gofynnwyd i bob un o'r cynghorau cyfansoddol p'un a ydynt yn dymuno enwebu aelod lleyg i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae cyflwyniad byr i'r rôl a disgrifiad rôl ynghlwm yn **Atodiad 2.** Petai mwy na thri enwebai wedi bod, roedd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi penderfynu penodi yn ôl teilyngdod, yn unol â phroses ymgeisio. Fodd bynnag, dim ond tri o'r cynghorau cyfansoddol oedd wedi enwebu aelodau lleyg. Roedd hyn yn cynnwys Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn a benododd y diweddar Mrs Sharon Warnes. O ganlyniad i'r swydd wag annisgwyl sydd bellach wedi codi, mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor wedi ei wahodd i ystyried enwebu aelod lleyg arall i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Bydd gwahoddiadau yn cael eu hymetsyn i gynghorau cyfansoddol eraill petai dim enwebiad yn cael ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn.

3.11 Bydd aelodau lleyg a benodir i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol yn unol ag unrhyw benderfyniad perthnasol a gyhoeddir, o

dro i dro, gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth (a oedd yn cael ei adnabod tan yn ddiweddar fel Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol).

## Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'n ofynnol i CBC y Gogledd sefydlu is-bwyllgor a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â pharagraff 16(1) Rheoliadau Sefydlu'r CBC. (*Nodir bod hwn yn cael ei alw'n 'bwyllgor llywodraethu ac archwilio' mewn deddfwriaeth llywodraeth leol, ond gan fod CBC y Gogledd ei hun yn bwyllgor, mae'n briodol cyfeirio ato fel is-bwyllgor mewn perthynas â CBCau*.)

### Swyddogaethau

Mae cylch gorchwyl yr is-bwyllgor wedi'i nodi yn Rheoliadau Sefydlu'r CBC sy'n nodi bod rhaid i'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio:

a) Weithredu o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

b) Bod y pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol a ganlyn o dan Adran 81 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'i diwygiwyd:

c) adolygu a chraffu ar faterion ariannol y CBC,

d) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y CBC.

e) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a threfniadau llywodraethu corfforaethol y CBC,

f) gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

g) adolygu ac asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol,

h) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol,".

i) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CBC; ac

j) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratoir gan y CBC.

k) Ymgymryd â swyddogaethau pellach y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dan Bennod 1, Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu prif gynghorau)

l) Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau a ganlyn:-

> 1(i) hyrwyddo archwilio mewnol, sefydlu amserlen i gynnal adolygiad o reolaeth, datblygu diwylliant gwrth-dwyll ac adolygu gweithrediadau ariannol;
>
> 2(ii) ystyried arsylwadau a phryderon ar wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan swyddogion y Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwilydd Dosbarth a monitro'r ymateb a'r camau gweithredu ar yr argymhellion a'r canfyddiadau.

**Aelodaeth**

Ni all aelodau o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC fod yn aelod o'r CBC, yn aelod o weithrediaeth cyngor cyfansoddol na'n aelod cyfetholedig (mae aelod cyfetholedig yn yr achos hwn yn golygu person sydd wedi'i gyfethol ar y CBC, neu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r CBC, heblaw'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

Rhaid i o leiaf un rhan o dair o aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg ac o leiaf ddwy ran o dair o'r cynghorau cyfansoddol. Bydd y penodiad(au) yn cael eu gwneud gan CBC y Gogledd.

Rhaid i Gadeirydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg.

Ni all aelodau o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC fod yn aelod o'r CBC, yn aelod o weithrediaeth cyngor cyfansoddol na'n aelod cyfetholedig (mae aelod cyfetholedig yn yr achos hwn yn golygu person sydd wedi'i gyfethol ar y CBC, neu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r CBC, heblaw'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

Dylai'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael ei sefydlu gan y CBC sy'n cynnwys aelodau lleyg i'w tynnu o bwyllgorau llywodraethu ac archwilio cynghorau cyfansoddol (neu eu hysbysebu'n allanol os nad yw hyn yn bosibl) ac aelodau o bob cyngor cyfansoddol.

Efallai na fydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn arfer ei swyddogaethau os yw'r aelodaeth yn mynd yn groes i'r gofynion hyn.

**Canllawiau Gweinidogion Cymru**

Rhaid i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 85(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**Cworwm**

Y cworwm ar gyfer yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio yw 7 aelod gydag o leiaf un aelod yn bresennol o bob Cyngor Cyfansoddol ac o leiaf un Aelod Lleyg.

## Rheolau Sefydlog

2.22 Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

2.22.1 Rhaid i'r CBC sefydlu is-bwyllgor (a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)

2.22.2 Nodir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhan 4 o'r Adran 5 hon a gall y CBC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd o fewn gofynion statudol.

2.22.3 Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 9 Aelod, gyda 6 ohonynt yn aelodau etholedig a dynnir o Bwyllgorau Llywodraethu ac

Archwilio pob un o'r 6 Chyngor Cyfansoddol ac a enwebir ganddynt a bydd 3 ohonynt yn Aelodau Lleyg.

Cyfarfodydd

2.23 Mae'n ofynnol i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod unwaith bob blwyddyn galendr o leiaf.

**Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gogledd Cymru**

**Gwybodaeth gefndir i Aelodau (lleyg) Annibynnol**

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC y Gogledd) yn gorff rhanbarthol cyhoeddus newydd a sefydlwyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 ymhellach i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae aelodaeth CBC y Gogledd yn cynnwys 6 Aelod o'r Cyngor, un ar gyfer pob awdurdod lleol yng ngogledd-orllewin Cymru, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae gan CBC y Gogledd gyfrifoldeb am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac am wneud beth bynnag y bernir ei fod yn angenrheidiol i wella neu hyrwyddo lles economaidd yr ardal.

Mae CBC y Gogledd yn chwilio am dri aelod annibynnol i ymuno â'n His-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd am gyfnod o bedair blynedd.

Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol CBC y Gogledd. Diben yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd adolygu a chraffu ar faterion ariannol CBC y Gogledd a rhoi ffocws annibynnol ar y trefniadau archwilio, sicrwydd, perfformio ac adrodd sy'n sail i safonau llywodraethu ac ariannol da.

Bydd gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 9 aelod, gan gynnwys 6 Chynghorydd a 3 aelod (lleyg) annibynnol. Cynhelir y cyfarfodydd yn chwarterol mewn unrhyw flwyddyn galendr, ac ar-lein ar hyn o bryd.

Amgaeir yr hyn a ganlyn:

- Cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor - bydd yn gweithredu gan roi sylw dyladwy i ganllaw arfer da Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

- Disgrifiad rôl a manyleb person – rydym yn chwilio am weithwyr proffesiynol annibynnol eu meddyliau, sy'n barod i gefnogi'r Is-Bwyllgor drwy eu gwybodaeth a'u profiad personol mewn meysydd sy'n berthnasol i'w rôl.

Er nad oes angen gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol, disgwylir y byddai gan ymgeiswyr posibl ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddus ac archwilio. Bydd hyfforddiant anwytho yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd. Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gadeirio gan Berson Lleyg, felly mae parodrwydd a gallu i gyflawni'r rôl hon yn ddymunol.

## Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

## Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## Disgrifiad Rôl a Manyleb Person Aelod (Lleyg) Annibynnol

**Atebolrwydd:**

- I'r CBC
- I Gadeirydd yr Is-Bwyllgor

**Cyfrifoldebau Cyffredinol ar gyfer Aelodau Lleyg:**

- Cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a bod yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn ddiduedd
- Rhoi sylw i ofynion Cadeirydd yr Is-bwyllgor a chyngor proffesiynol uwch swyddogion CBC y Gogledd
- Gweithio yn unol â Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor
- Cyfrannu at ddatblygu'r flaen-raglen waith ar gyfer yr Is-bwyllgor
- Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl
- Dangos annibyniaeth, cywirdeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau yn unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
- Cynnal egwyddorion ymddygiad Nolan a gweithredu yn unol â Chyfansoddiad CBC y Gogledd a'i God Ymddygiad
- Adrodd yn ôl yr angen i'r CBC
- Ymateb i unrhyw argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Pwrpas a gweithgareddau'r rôl**

Adolygu, craffu, llunio adroddiadau ac argymhellion ar faterion ariannol CBC y Gogledd:

- Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod
- Gweithio gydag archwilwyr mewnol ac allanol
- Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan CBC y Gogledd

Adolygu, asesu, llunio adroddiadau ac argymhellion ar drefniadau rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol CBC y Gogledd a'i effeithiolrwydd:

- Cyfrannu at berfformiad effeithiol y CBC
- Adolygu adroddiad drafft hunanasesiad blynyddol y CBC a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r CBC yn bwriadu eu cymryd
- Gwneud argymhellion mewn ymateb i adroddiad drafft Asesiad Panel y CBC

Adolygu, asesu, llunio adroddiadau ac argymhellion ar broses rheoli cwynion CBC y Gogledd:

- Adolygu ac asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol.
- Llunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.

Adolygu ac asesu Llywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth y CBC:

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, a threfniadau llywodraethu corfforaethol y CBC
- Llunio adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny
- Adolygu ac asesu'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol, a bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd y CBC, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw weithgareddau sydd eu hangen i'w wella.

**Sgiliau Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Darparu her a chefnogaeth yn eich rôl o fod yn ffynhonnell annibynnol o gefnogaeth i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth, cwestiynu, holi a cheisio eglurhad i ddod i farn annibynnol a diduedd.
- Sgiliau rhyngbersonol cryf a'r gallu i weithio, dylanwadu a chynghori rhanddeiliaid amrywiol
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i gyfrannu at drafodaethau
- Hyder i herio a dal uwch staff yn atebol
- Annibyniaeth, gwrthrychedd a disgresiwn gyda barn gadarn
- Y gallu i gadw cyfrinachedd llym

**Cymwysterau a Phrofiad**

Yn ddelfrydol, bydd gennych brofiad o un neu fwy o'r hyn a ganlyn:

- Cefndir ariannol neu fath archwilio a/neu brofiad priodol o reoli ariannol
- Gwerthfawrogiad cryf o egwyddorion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, a'u defnydd ymarferol
- Dealltwriaeth gadarn o rolau archwilio mewnol ac allanol
- Gwybodaeth am ofynion adrodd allanol o dan safonau cyfrifeg y DU
- Rheoli cyllideb a phrofiad cynllunio busnes
- Dealltwriaeth o strwythurau, strategaethau ac amcanion sefydliadol
- Profiad o weithio mewn neu gyda sefydliadau mawr, cymhleth sydd â dealltwriaeth o'r amgylchedd gwleidyddol y mae llywodraeth leol yn gweithredu ynddo

**Ymrwymiad Amser**

- Mynychu a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhelir yn rhithiol.
- Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod bob chwarter o fewn unrhyw flwyddyn galendr.
- Cefnogi'r cadeirydd lleyg yn ei rôl a chyfrannu yn rheolaidd wrth i faterion godi.
- Mynychu hyfforddiant/digwyddiadau drwy gytundeb.

**Telerau**

- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi am gyfnod o bedair blynedd. Gall Aelodau Lleyg dreulio hyd at uchafswm o wyth mlynedd ar y pwyllgor.
- Bydd disgwyl i chi fynychu tua phedwar cyfarfod Is-bwyllgor y flwyddyn.
- Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod yn ystod y dydd, gan ddechrau am 10am neu 2pm fel arfer. Mae'r cyfarfodydd yn para 2 i 3 awr (ond gallant fod yn hwy o bryd i'w gilydd) a byddai angen i chi hefyd ddarparu rhywfaint o amser paratoi. Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol ar-lein ac fe'u gweddarlledir i'r cyhoedd eu gweld.

- Rôl wirfoddol yw'r swydd, ond mae gennych hawl i dâl am amser yn paratoi ac yn mynychu'r Is-bwyllgor. Cyfradd fesul awr Cadeirydd lleyg yr Is-bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yw £33.50; cyfradd fesul awr aelodau lleyg cyffredinol yw £29.75.

**Cyfyngiadau**

Ni ddylech:

- feddu ar swydd neu gyflogaeth, penodiad cyflogedig cyfredol neu arfaethedig, neu fod wedi cael eich ethol i CBC y Gogledd neu un o'i is-bwyllgorau
- bod wedi cael eich gwahardd rhag bod yn Aelod o Gyngor Cyfansoddol neu BC Eryri
- bod ag unrhyw euogfarnau troseddol neu fod yn fethdalwr heb ei ryddhau
- bod ag unrhyw fusnes sylweddol yn ymwneud â CBC y Gogledd neu unrhyw un o'r chwe chyngor cyfansoddol

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Y Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **20 Mai 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2024/25** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeiryddion y:**<br>1. **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>2. **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y ddau bwyllgor sgriwtini yn ystod 2024/25 a darparu trosolwg o'r rhaglen waith sgriwtini ar gyfer 2025/26** |
| **AELODAU PORTFFOLIO:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **CYFARWYDDWR / PENNAETH GWASANAETH:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru**<br>**07971167198** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Mae'n berthnasol i bob Aelod Sgriwtini** |

## 1. Argymhellion:

Gofynnir i'r Cyngor Llawn:
**A1** Gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini a Throsolwg ar gyfer 2024/25
**A2** Nodi'r cynnydd parhaus a wnaed o ran gweithredu ein taith Sgriwtini ac effaith hynny ar ymarfer
**A3** Penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2025 a Mai 2026.

## 2. Cefndir a Chyd-destun

**2.1** Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini yn cwmpasu gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini a'r tri phanel sgriwtini rhwng Mai 2024 a Mai 2025.

**2.2** Arweiniodd cadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini y gwaith o ddatblygu'r blaen raglenni gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Mae blaen raglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini'n cael eu cyflwyno i gyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a'u cyflwyno i'w cymeradwyo ym mhob cyfarfod o'r pwyllgorau sgriwtini.

**2.3** Er bod effaith a gwerth gweithgareddau sgriwtini yn parhau i gyfrannu'n ystyrlon at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor trwy gefnogi a herio, comisiynodd yr Awdurdod Lleol adolygiad allanol o'n trefniadau sgriwtini a chwblhawyd yr adolygiad o fewn cyd-

destun ein fframwaith llywodraethu corfforaethol lleol. Mae'r argymhellion wedi dylanwadu ar ein rhaglen ar gyfer datblygu sgriwtini yn y dyfodol. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Tîm Arweinyddiaeth.

## 3. Rôl y Pencampwr Sgriwtini

**3.1** Mae rôl y Pencampwr Sgriwtini yn un pwysig o ran hyrwyddo'r swyddogaeth drosolwg a sgriwtini o fewn y Cyngor ac ymysg partneriaid yr Awdurdod hefyd. Nid yw'n rôl orfodol ac nid yw'r Pencampwr yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol. Ystyrir bod y rôl yn allweddol o ran dangos bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau fod Sgriwtini yn caniatáu i Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith gyfrannu i'r graddau mwyaf posib at berfformiad cyffredinol ac iechyd corfforaethol y sefydliad.

**3.2** Ar 14 Mai 2015, penderfynodd y Cyngor Llawn y dylai cadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini gyflawni rôl y Pencampwr bob yn ail flwyddyn. Felly, dylid penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgriwtini dynodedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2024/25 |

# Adroddiad Blynyddol

# Trosolwg a Sgriwtini 2024-25

SCRUTINY

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 2 | Cyd-destun |
| 3 | Datblygu a Chefnogi Aelodau |
| 4 | Themâu Lleol Allweddol ar gyfer Sgriwtini |
| 5 | Asesu Effaith Sgriwtini |
| 6 | Edrych Ymlaen at 2025/26 |
| 7 | Cysylltu â Sgriwtini |

| ATODIADAU | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Beth yw trosolwg a sgriwtini? |
| Atodiad 2 | Cylch gorchwyl ac aelodaeth ein Pwyllgorau Sgriwtini |
| Atodiad 3 | Gweledigaeth ar gyfer Cyflawni Sgriwtini Effeithiol o fewn y Cyngor |
| Atodiad 4 | Protocol Pwyllgor Gwaith - Sgriwtini |

# 1. RHAGAIR

## Y Cynghorydd Douglas Massie Fowlie

- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2024/25**
- **Pencampwr Sgriwtini → 2024/25**



Pleser yw cyflwyno trosolwg o waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystod y 12 mis diwethaf. Trafodir cwmpas gwaith y Pwyllgor yn yr adroddiad hwn a theg yw nodi fod y llwyth gwaith yn parhau i fod yn sylweddol ac yn amrywiol. Cynhaliwyd cyfanswm o 10 cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddinesig:

- **Gosod cyllideb flynyddol 2025/26** - un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cyfrannu at broses gosod cyllideb flynyddol y Cyngor. Mae hyn yn elfen holl bwysig o'n trefniadau llywodraethu corfforaethol, ac mae'n cael effaith bellgyrhaeddol ar bob maes gwasanaeth o fewn y Cyngor, yn ogystal ag ar y cyhoedd. Ystyriodd y Pwyllgor y cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb a'r gyllideb ddrafft derfynol ar gyfer 2025/26 ac roedd cyfraniad y Panel Sgriwtini Cyllid yn sylweddol eto eleni - gyda'r Panel yn craffu'n fanwl ar gynigion y gyllideb refeniw a chyfalaf ar ran y Pwyllgor Sgriwtini.

- **Cynllun y Cyngor: 2023-2028** - Bu i Aelodau graffu ar nifer o gynlluniau strategol allweddol ac o'u gweithredu byddant yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wireddu 6 amcan strategol allweddol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Craffodd y Pwyllgor ar y cynlluniau canlynol:

  - Cynllun Cyflawni Blynyddol: 2024/25
  - Hunanasesiad Corfforaethol Drafft 2024
  - Cynllun Strategol Môn Actif
  - Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2024
  - Cynllun Strategol Caffael a'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol Newydd
  - Cynllun Strategol Rheoli Perygl Llifogydd

  Argymhellodd y Pwyllgor y dylid mabwysiadu'r cynlluniau strategol hyn, gan ddarparu cyfeiriad eglur ar gyfer blaenoriaethau strategol y Cyngor yn ystod cyfnod o bum mlynedd.

- **Monitro Perfformiad Chwarterol** - bu'r Cyngor yn monitro perfformiad bob chwarter trwy gydol 2024/25, gan ddefnyddio'r cerdyn sgorio corfforaethol sy'n adrodd ar nifer o ddangosyddion ar holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r cerdyn sgorio'n parhau i ddatblygu fel dull effeithiol i Aelodau Sgriwtini graffu ar berfformiad a data. Sefydlodd y Pwyllgor Sgriwtini Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini yn ystod 2024 er mwyn archwilio perfformiad un o'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA), sef DPA 29 (nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)), gyda'r bwriad o wella perfformiad. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ganfyddiadau'r Panel ym mis Mehefin 2024 fel catalydd ar gyfer gwella perfformiad o fewn y maes gwasanaeth hwn.

- Roedd ein gwaith fel Pwyllgor hefyd yn cynnwys monitro a chraffu ar yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2023/24. Dyma elfen greiddiol arall o waith y Pwyllgor Sgriwtini.

- **Uchelgais Gogledd Cymru** - Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiadau monitro chwarterol a chodwyd cwestiynau perthnasol ynglŷn â chynnydd prosiectau sydd ar y gweill - tasg hanfodol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd i Ogledd Cymru, ac Ynys Môn yn benodol. Er enghraifft, y mesurau lliniaru er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw oedi, a sut fydd y risg bod prosiectau unigol yn gorwario yn cael ei reoli'n effeithiol.

- **Gwasanaethau Tai -** Craffodd y Pwyllgor ar Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2025-55 sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer datblygu a chynnal a chadw stoc dai cyngor yr Awdurdod. Canolbwyntiodd yr Aelodau ar y themâu canlynol yn benodol - aliniad â blaenoriaethau strategol ehangach y Cyngor (Cynllun y Cyngor: 2023-2028); fforddiadwyedd y rhaglen ehangu er mwyn cynyddu stoc dai'r Awdurdod Lleol; pa mor debygol yw'r flaenoriaeth o gynnal a gweithio tuag at Safon Ansawdd Tai Cymru II 2023 o gael ei chyflawni; y risgiau'n gysylltiedig â'r angen am gapasiti mewnol ac allanol digonol i gyflawni'r cynlluniau. Argymhellodd y Pwyllgor y cynllun busnes ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor.

- **Gwasanaethau Cymdeithasol -** yn yr Hydref, craffodd Aelodau ar Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Rhan 9): 2023/24. Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed trwy gydweithio rhwng iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn cynorthwyo i gefnogi cymunedau gwydn, yn ogystal â sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chymorth. Mae hyn yn alinio â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, sef 'Gofal Cymdeithasol a Llesiant - darparu'r cymorth cywir yn uniongyrchol ar yr adeg gywir'.

- Yn olaf, ym mis Hydref adolygodd y Pwyllgor Lythyr Gwirio a Chynllun Gweithredu Gwella Gwasanaethau Oedolion: Arolygiaeth Gofal Cymru. Ailymwelodd Aelodau â'r ffrwd waith hon ym mis Ebrill 2025 er mwyn adolygu cynnydd. Bydd yr adroddiad yn cynorthwyo i lunio gwelliannau pellach mewn gwasanaethau yn y Gwasanaethau Oedolion, yn unol â blaenoriaethau lleol.

  I gloi, rydw i'n cydnabod gwaith y Paneli Sgriwtini Cyllid a Gwasanaethau Cymdeithasol a hoffwn ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor a swyddogion a fu'n cynorthwyo yn ystod 2024/25. Hoffwn fynegi fy niolch i Swyddogion y Tîm Sgriwtini am eu cymorth parhaus. Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Cynghorydd Dyfed Wyn Jones a'r Cynghorydd Sonia Williams am eu cefnogaeth fel Is-gadeiryddion yn ystod y 12 mis diwethaf.

Y Cynghorydd Douglas Massie Fowlie
**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)**

## Y Cynghorydd Dylan Rees



- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2024/25**

Pleser yw cyflwyno trosolwg o waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ystod y 12 mis diwethaf.

Yn ystod y cyfnod hwn mae’r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion ystyriol ac effeithiol i’r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â nifer o faterion critigol a meysydd gwasanaeth, yn ogystal ag ar weithgareddau partneriaethau strategol yr Awdurdod.

- **Yr Iaith Gymraeg** - ym mis Mehefin edrychodd y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ar un o chwe amcan strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028, sef yr Iaith Gymraeg. Mae’r iaith Gymraeg yn rhan annatod o’n hunaniaeth, ein diwylliant a’n treftadaeth ac mae’n gyfrifoldeb arnom i sicrhau fod yr iaith yn parhau i ddatblygu a ffynnu. Craffodd yr Aelodau ar y meysydd a ganlyn yn benodol:
    I. Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg: 2023/24
    II. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2023/24 - Mesur Cynnydd
    III. Polisi Iaith Gymraeg Diwygiedig

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** - Croesawodd y Pwyllgor Sgriwtini Gadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024. Croesawyd cynrychiolwyr o Archwilio Cymru hefyd er mwyn trafod adroddiad diweddar ar Ofal Brys ac Argyfwng - llif allan o ysbytai yn rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd y cyfarfod yn llwyfan ar gyfer trafodaeth gynhyrchiol ac adeiladol gyda’r Bwrdd Iechyd, a chanolbwyntiwyd ar feysydd cydweithio allweddol, gan gynnwys:

    ✓ Rhaglen Wella’r Bwrdd Iechyd - trosolwg lefel uchel
    ✓ Gwytnwch Gwasanaethau Clinigol Cymunedol ar Ynys Môn
    ✓ Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau cychwynnol a chwestiynau atodol perthnasol gan arwain at graffu’n effeithiol ar un o bartneriaid strategol allweddol yr Awdurdod Lleol. Arweiniodd hyn at ganlyniad gwirioneddol: mae’r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini bob blwyddyn. Gwneir trefniadau hefyd i gynnal sesiwn friffio neu fforwm, gan ddod â chynrychiolwyr o’r Bwrdd Iechyd ac Aelodau Etholedig at ei gilydd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Aelodau rannu profiadau a phryderon eu hetholwyr ynglŷn â darparu gofal iechyd.

- **Y Gwasanaethau Brys -** Ym mis Gorffennaf 2024, croesawodd y Pwyllgor Sgriwtini gynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Roedd y cyfarfod yn annog trafodaethau a chraffu cynhyrchiol a chanolbwyntiwyd ar y meysydd allweddol canlynol:
    ✓Y ddarpariaeth gwasanaeth presennol ar Ynys Môn;
    ✓Gwytnwch, heriau a fforddiadwyedd y model cyflawni gwasanaeth cyfredol ar

Ynys Môn;
✓Cydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau perthnasol i'r ddau wasanaeth argyfwng ynglŷn ag amseroedd ymateb mewn ardaloedd gwledig o Fôn, gan amlygu y gallai bywydau fod mewn perygl gan nad yw'r Gwasanaeth Tân a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gallu ymateb yn ddigon cyflym. Roedd y cyfarfod yn nodi ymrwymiad parhaus i gryfhau'r bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a'r Gwasanaethau Brys, ac mae'n fwriad gwahodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini bob blwyddyn.

- **Partneriaethau Strategol** - Gwahoddodd y Pwyllgor Sgriwtini'r partneriaid allweddol canlynol hefyd i annerch y Pwyllgor yn ystod y 12 mis diwethaf:
  I. Cyngor Ar Bopeth Ynys Môn
  II. Môn CF
  III. Menter Môn
  IV. Medrwn Môn

Mae craffu ar waith y partneriaid sy'n cael eu hariannu gennym yn hanfodol er mwyn sicrhau aliniad â Chynllun y Cyngor 2023-2028 a'r dirwedd partneriaethau rhanbarthol. Archwiliwyd y meysydd allweddol canlynol gan yr Aelodau:
✓Pwrpas, rôl a blaenoriaethau'r sefydliad
✓Cyllidebau (arian craidd ac arian grant) a strwythur staffio
✓Partneriaid - eu cydweithredwyr
✓Natur cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn
✓Allbynnau a chanlyniadau a grëwyd ar gyfer pobl a chymunedau ledled yr Ynys
✓Cyfleoedd, heriau a risgiau yn y dyfodol.

- **Cynllun y Cyngor: 2023-2028** - Craffodd yr Aelodau ar nifer o gynlluniau strategol a byddant, o'u gweithredu, yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wireddu 6 amcan strategol allweddol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. I'r perwyl hwn, craffodd y Pwyllgor Sgriwtini ar y cynlluniau a'r adroddiadau canlynol -
  I. Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion
  II. Adroddiad Diogelu Corfforaethol
  III. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb
  IV. Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd** - Mae'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Bwrdd, sydd yn bartneriaeth rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys craffu ar gyflawni'r Cynllun Llesiant, trefniadau llywodraethu a'r Adroddiad Blynyddol. Yn ystod blwyddyn ddinesig 2024/25, ystyriodd yr Aelodau adroddiad blynyddol 2023/24 y Bwrdd yn ofalus a gwelwyd enghreifftiau o waith sgriwtini o ansawdd gydag Aelodau'n gofyn beth yw lle'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn y strwythurau partneriaeth rhanbarthol a sut mae manteisio i'r eithaf ar gydweithio er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion.

- **Sgriwtini Addysg** - Ychwanegodd yr Aelodau werth trwy graffu ar feysydd allweddol gwasanaethau addysg ar Ynys Môn ac edrychodd y Panel Sgriwtini Addysg yn fanwl ar rai meysydd blaenoriaeth -

  I. Ysgolion mewn Categori, Dilyniant Estyn neu'n Derbyn Cefnogaeth Ychwanegol
  II. Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn 2023/24

III. Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Ynys Môn a Gwynedd

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn am safonau mewn ysgolion ar Ynys Môn, gan ddarparu sicrwydd fod mesurau gwella ar waith ar gyfer ysgolion y mae pryderon yn eu cylch, yn ogystal â chefnogaeth briodol.

Mae'r crynodeb uchod yn amlygu cyfraniad y Panel Sgriwtini at benderfyniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r broses sgriwtini'n hanfodol ar gyfer llywodraethiant corfforaethol y Cyngor, gan ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, herio'n adeiladol a sicrhau mewnbwn y cyhoedd. Mae'r Protocol Siarad Cyhoeddus yn gosod proses ffurfiol i'r cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i aelodau'r Panel Sgriwtni Partneriaeth ac Adfywio a'r Panel Sgriwtini Addysg am eu cydymdrechion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae eu hymroddiad, eu cyfraniadau gwerthfawr a'u hymrwymiad wedi bod yn hanfodol wrth hyrwyddo gwaith y Pwyllgor, gan wneud llawer i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun y Cyngor a chynnal safonau uchel ein gwasanaethau cyhoeddus.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i fy Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gwilym Owen Jones, am y gefnogaeth amhrisiadwy a gefais ganddo.


**Y Cynghorydd Dylan Rees**
**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)**

# 2. CYD-DESTUN

**2.1** Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cyflwyno llwyddiannau yn ystod blwyddyn ddinesig 2024/25 ac mae'n dangos sut y llwyddodd Sgriwtini ar Ynys Môn i ddylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau. Mae Sgriwtini ar Ynys Môn yn cael ei gyflawni trwy ddau Bwyllgor Sgriwtini, sy'n cynnwys Cynghorwyr etholedig lleol ac aelodau cyfetholedig, a 3 Phanel Sgriwtini. Trwy ddarparu rhaglen lawn o gyfarfodydd ffurfiol, mae llais Sgriwtini'n parhau i fod yn gryf o fewn yr Awdurdod Lleol. Er hynny, rydym yn dymuno cyflawni mwy a sicrhau ein bod yn clywed safbwyntiau a phrofiadau ein cymunedau lleol ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella. Mae ymgysylltu â dinasyddion a chyfranogiad dinasyddion yn un o'r thema datblygu y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod 2025/26.

**2.2** Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Eu prif bwrpas yw dal y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliannau, bod yn gyfaill beirniadol, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau. Mae crynodeb o'r cyd-destun polisi cenedlaethol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

Mae ein strwythur lleol yn cynnwys dau bwyllgor sgriwtini a thri phanel:




Mae cylch gorchwyl ac aelodaeth ein pwyllgorau sgriwtini yn cael eu crynhoi yn **ATODIAD 2**.

**2.3** Cyfarfu'r ddau Bwyllgor Sgriwtini yn rheolaidd yn ystod 2024/25 a chwblhawyd y gwaith sgriwtini a flaenoriaethwyd. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu'n llwyddiannus, gan sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth, yn unol â Chynllun y Cyngor 2023-2028. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi craffu ar rai o'r partneriaethau strategol allweddol a chydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion statudol.

## 3. DATBLYGU A CHEFNOGI AELODAU

Yn ystod 2024/25, mae'r meysydd datblygu a chefnogi wedi canolbwyntio ar y mewnbynnau canlynol:

i. ar gyfer unigolion sy'n newydd i'w rôl (Aelodau Cyfetholedig a swyddogion cefnogi Sgriwtini gan Aelodau)
ii. parhau i ganolbwyntio ar dechnoleg (uwchsgilio Aelodau)
iii. hyfforddiant datblygu ar gyfer cadeiryddion ac is-gadeiryddion sgriwtini, gan ganolbwyntio ar sgiliau arweinyddiaeth allweddol, arddangos effaith a strategaethau cwestiynu effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant pwrpasol ar gyfer cadeirydd ac is-gadeirydd y Panel Cyllid.

- Mae ein rhaglen hyfforddi a datblygu Aelodau'n parhau ac mae'n darparu cyfleoedd i hunanarfarnu effaith gwaith sgriwtini ar ein trefniadau llywodraethu corfforaethol.

- Byddwn yn adolygu ein rhaglen hyfforddi a datblygu Aelodau yn barhaus er mwyn ymateb yn llawn i negeseuon allweddol yr adolygiad o'n trefniadau sgriwtini a gynhaliwyd yn ddiweddar. Bydd hyn yn sicrhau fod yr amodau'n cael eu creu ar gyfer gwelliant parhaus a chraffu cadarn gan Aelodau Etholedig. Bydd ein cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod felly'n canolbwyntio ar gefnogi ein cynllun gwella sgriwtini.

- Sgriwtini ar sail ehangach - mae dull ehangach o graffu gan Aelodau wedi'i ddatblygu ymhellach a'i atgyfnerthu yn ystod 2024/25 trwy:

  i. flaen gynllunio effeithiol er mwyn sicrhau fod pynciau a drafodwyd mewn sesiynau briffio Aelodau, panelau sgriwtini a chyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini yn alinio â'i gilydd.
  ii. sicrhau eglurder ynglŷn â rôl Aelodau ar fyrddau rhaglen corfforaethol a sicrhau fod adroddiadau cadarn, amserol a lefel uchel yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau sgriwtini, gan uchafu llithriadau yn ôl y gofyn.
  iii. datblygu ehangder y pynciau a drafodir yn y sesiynau briffio Aelodau misol er mwyn cefnogi Sgriwtini a sicrhau fod gwybodaeth ar gael i Aelodau ynglŷn â phynciau strategol a thrawsnewid allweddol.

# 4. THEMÂU LLEOL ALLWEDDOL AR GYFER SGRIWTINI

### 4.1 Themâu Allweddol

Mae nifer o themâu allweddol yn sylfaen i'n ffrydiau gwaith sgriwtini lleol (maent yn cael eu crynhoi isod), er mwyn darparu fframwaith cadarn i:

- Egluro rôl a chyfraniad Sgrwtini at drefniadau llywodraethu'r Cyngor.
- Nodi'r gweithredoedd sy'n ofynnol yn y tymor byr a chanolig er mwyn gwella Sgriwtini ymhellach yng nghyd-destun gofynion deddfwriaethol presennol.

**THEMÂU LLEOL ALLWEDDOL AR GYFER SGRIWTINI**

Atgyfnerthu dull Sgriwtini "Cyngor cyfan".

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Sgriwtini

Gwella ymgysylltu â'r cyhoedd yn ein gwaith Sgriwtini

Gwella effaith Sgriwtini

Datblygu capasiti a galluoedd ar gyfer Sgriwtini effeithiol

# 5. ASESU EFFAITH SGRIWTINI

### 5.1 MESUR ALLBYNNAU

Cyflawnodd Sgriwtini nifer sylweddol o **allbynnau** yn ystod y flwyddyn ddinesig ddiwethaf a byddant, i raddau, yn ein cynorthwyo i asesu effaith lleol Sgriwtini:

**5.1.1 Cyfarfodydd Pwyllgor** - cynhaliwyd cyfanswm o 21 cyfarfod sgriwtini yn ystod 2024/25:

| Pwyllgor | Nifer Cyfarfodydd a Gynhaliwyd |
|---|---|
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | **10** |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | **11** |

Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau fod cadeiryddion y pwyllgorau sgriwtini'n darparu adborth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â materion a ystyriwyd gan y ddau bwyllgor.

**5.1.2 Cyfarfodydd Paneli Sgriwtini** - cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r 3 phanel sgriwtini yn ystod y 12 mis diwethaf:

| Panel | Nifer Cyfarfodydd a Gynhaliwyd |
|---|---|
| Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | **4** |
| Panel Sgriwtini Cyllid | **6** |
| Panel Sgriwtini Addysg | **10** |

Mae'r paneli hyn wedi'u hymgorffori mewn ymarfer trwy:

- Roi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i gefnogi pob panel gan sicrhau ffocws / cylch gorchwyl a rhaglen waith eglur ar gyfer pob panel
- Cyflwyno proses adrodd / uchafu, gan sicrhau fod adroddiadau ar waith y paneli sgriwtini'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r ddau Riant Bwyllgor ac mae Cadeiryddion y Paneli'n cynnig argymhellion os yw'n briodol.
- Sicrhau cyflymder addas ar gyfer gwaith y paneli sydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol, yn ogystal â chwblhau gwaith craffu manwl ar bynciau holl bwysig y Cyngor.

**5.1.3 Argymhellion Sgriwtini -** Pwrpas Sgriwtini yw dal i gyfrif a gyrru gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

O edrych ar waith Sgriwtini gan Aelodau Lleol yn ystod 2024/25, boed mewn cyfarfodydd pwyllgor cyhoeddus ffurfiol, paneli sgriwtini llai neu grwpiau tasg a gorffen, cyflwynodd Sgriwtini y nifer canlynol o argymhellion….

**4** Argymhellion wedi'u gwneud mewn Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini

**30** Argymhelliad wedi'u gwneud i'r Pwyllgor Gwaith

**58** Gweithred ychwanegol a gynigwyd mewn Cyfarfodydd Sgriwtini

Mae Sgriwtini felly'n darparu argymhellion ystyrlon sy'n ychwanegu gwerth at ein proses gwneud penderfyniadau ac maent wedi arwain at newidiadau cadarnhaol.

**5.1.4 Argymhelliad Sgriwtini - Esiampl Achos**

Ym mis Tachwedd 2024, mynychodd Uwch gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio er mwyn ystyried gwaith partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol. Yn dilyn trafodaethau a chwestiynau craffu cadarn cytunwyd ar argymhelliad allweddol oedd yn dangos bod sgriwtini yn ychwanegu gwerth a gyrru newid cadarnhaol:

**Argymhelliad:**

**"Bod trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal sesiwn friffio/fforwm gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd ac Aelodau Etholedig er mwyn caniatáu i Aelodau fynegi profiadau a phryderon eu hetholwyr mewn perthynas â darparu gofal iechyd."**




GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**5.1.5 Blaen raglenni gwaith** - mae trefniadau sydd wedi'u hen sefydlu ar waith ar gyfer llunio blaen raglenni gwaith fel sylfaen i waith y ddau bwyllgor sgriwtini. Mae'r rhaglenni hyn yn adnodd gwerthfawr er mwyn cynorthwyo Aelodau pwyllgorau sgriwtini i flaenoriaethu eu gwaith a chânt eu trafod yn rheolaidd gyda'r Tîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Mae'r ddau bwyllgor a'r tri phanel yn adolygu cynnwys eu blaen raglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol a'u bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau blaen gynllunio lleol yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar:

- **i.** Agweddau strategol
- **ii.** Ymgysylltu â dinasyddion / rhanddeiliaid eraill a'r canlyniadau
- **iii.** Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-2028
- **iv.** Risgiau
- **v.** Gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio
- **vi.** Materion sydd ar flaen raglen waith Pwyllgor Gwaith

**5.1.6 Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini -** Mae'r fforwm hwn wedi'i hen sefydlu ac mae'n parhau i gyfarfod yn rheolaidd. Ystyrir bod y Fforwm yn ddull pwysig o gynnal trosolwg o raglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini a thrafod blaenoriaethau gyda Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini. Y Fforwm sydd bennaf gyfrifol hefyd am ddatblygu'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini o fewn y Cyngor a'i welliant parhaus. Mae rôl y Fforwm wedi datblygu hefyd i gynnwys sgyrsiau rhwng y Pwyllgor Gwaith (yr Arweinydd), Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Tîm Arweinyddiaeth (Prif Weithredwr) er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng y rhaglenni gwaith a holl feysydd gwaith yr Awdurdod.

**5.1.7 "Cau'r Cylch Sgriwtini" -** trwy fod â threfniadau cadarn ar waith i:

**i.** Adrodd ar gynnydd neu uchafu materion o:

- Baneli Sgriwtini i riant bwyllgorau
- Pwyllgorau Sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith

**ii.** Galluogi ac annog Aelodau Sgriwtini i ddadansoddi eu hunain a myfyrio er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ymhellach, neu feysydd i ganolbwyntio arnynt.

**5.1.8 Sgriwtini a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** - datblygu rôl Sgriwtini trwy:

- Sicrhau fod Aelodau'n canolbwyntio ar y 5 ffordd o weithio wrth lunio cwestiynau,[1] a chyflwyno templed adroddiad sgriwtini diwygiedig sydd â llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ganolog iddo


[1] Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

Codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth mewn sesiynau briffio a sesiynau datblygu Aelodau.

- Adolygu cynnydd a wnaed wrth ddatblygu rôl sgriwtini yn erbyn arfer orau
- Sefydlu fframwaith i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau allweddol eraill.

### 5.1.9 Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Dinasyddion a Rhanddeiliaid eraill â Sgriwtini

- Mae sgriwtini'n fodd i glywed safbwyntiau trigolion, cymunedau lleol, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid arwyddocaol eraill fel rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod Lleol, gan ychwanegu gwerth at ddemocratiaeth.



Ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd trwy:

- Fod â Phrotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini fel elfen allweddol o'n trefniadau llywodraethu corfforaethol
- Cyhoeddi blaen raglen waith y ddau Bwyllgor ar wefan y Cyngor er mwyn i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r gwaith sydd ar y gweill gennym a chyfleoedd i dderbyn cyfraniadau ehangach
- Gwahodd partneriaid allweddol i gyfrannu mewn cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn ehangu ein dealltwriaeth, llywio trafodaethau o fewn y Cyngor ac ychwanegu gwerth at ein gwaith partneriaeth lleol
- Mae gennym aelodau cyfetholedig ar ein Pwyllgorau Sgriwtini sy'n cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig a rhiant lywodraethwyr
- Strategaethau cwestiynu sy'n cynnwys cwestiynau o ddiddordeb i'r cyhoedd
- Ymweliadau safle â gwasanaethau lleol er mwyn arsylwi gwasanaethau rheng flaen (Paneli Sgriwtini)
- Sicrhau tryloywder trwy weddarlledu cyfarfodydd Pwyllgor i'r cyhoedd eu gwylio
- Hyrwyddo ein cyfarfodydd Pwyllgor ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog ymgysylltu
- Pwynt cyswllt penodol ar gyfer Sgriwtini trwy system CRM y Cyngor[2] gan ddarparu pwynt cyswllt hygyrch i'r cyhoedd sy'n ymwneud yn benodol â'r broses ddemocrataidd

[2] System Reoli Cysylltiadau Cwsmer (CRM)

- Mae craffu ar Bartneriaethau'n darparu fforwm ar gyfer herio'n adeiladol a chyfle i ddysgu a hunan-fyfyrio trwy:




**Enghreifftiau o'n gwaith gyda rhanddeiliaid yn ystod 2024/25:**

**TACLO TLODI**
- CAB Ynys Môn
- Môn CF
- Medrwn Môn

**IECHYD**
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Archwilio Cymru


**Y GWASANAETHAU BRYS**
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Gwella ein Hymgysylltu** - Mae Sgriwtini'n ymwneud â gyrru gwelliannau yng ngwasanaethau'r Cyngor ac rydym yn dymuno ymgysylltu mwy â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Felly, rydym yn adolygu ein trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid mewn perthynas â Sgriwtini, yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ein nod yw cryfhau ymgysylltu'r Cyngor â'r cyhoedd a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r trefniadau sydd eisoes ar waith er mwyn cyfranogi yn y broses ddemocrataidd.

## 5.2 MESUR CANLYNIADAU

Mae'n anodd casglu ac asesu effaith Sgriwtini gan nad yw **canlyniadau** gweithgareddau trosolwg a sgriwtini yn rhai diriaethol bob amser ac yn aml nid yw'n bosib eu mesur yn systemataidd ac yn fanwl. Nid yw'n hawdd chwaith mesur effeithiolrwydd gallu'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini i ddylanwadu ar y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau trwy gyfrwng trafodaethau. Er hynny, mae rhai enghreifftiau lle mae cyfraniad sgriwtini wedi ychwanegu gwerth a / neu ddylanwadu ar y ffodd y mae'r Cyngor wedi gweithredu cynigion.




## 5.1 EFFAITH SGRIWTINI

Yn y pendraw, prif nod Sgriwtini yw gwella gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae deall y gwerth a ychwanegir yn sgil gwaith Sgriwtini a'i effaith gyffredinol yn deillio o allbynnau a chanlyniadau ein hystod eang o weithgareddau yn ystod y flwyddyn ddinesig. Mae Sgriwtini ar Ynys Môn felly'n cael effaith trwy:

- Godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o Wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys yr hyn sy'n gweithio'n dda ar y naill law, a ddim cystal ar y llaw arall
- Taflu goleuni ar wasanaethau'r Cyngor sydd o ddiddordeb a gwerth sylweddol i'r cyhoedd
- Darparu llwyfan ar gyfer cydweithio rhwng y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd
- Herio rhagdybiaethau polisi trwy ganiatáu i fwy o leisiau gael eu clywed fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau
- Darparu sicrwydd i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau allweddol, partneriaethau a darparu gwasanaethau
- Cynnig argymhellion i'r rheiny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau o fewn y Cyngor
- Amlygu cyfleodd posib i wella polisïau a gwasanaethau a ddarperir

### 5.2.2 ADBORTH GAN RANDDEILIAID MEWNOL

Fel rhan o'n gwaith i fesur canlyniadau ac effaith arferion Sgriwtini o fewn y Cyngor, rydym wedi cynnal rhywfaint o arolygon gydag Aelodau ac Uwch Swyddogion, trwy gyfrwng trafodaethau mewn grwpiau bychan a chan ddefnyddio cyfres o gwestiynau craidd fel fframwaith. Mae canfyddiadau'r ymarfer hwn wedi cyfrannu at ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2025/26:

**Cwestiynau hunanasesu craidd**

- Beth oedd uchafbwyntiau Sgriwtini yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
- Yn eich barn chi, pa effaith gafodd Sgriwtini yn ystod 2024/25 o ran cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau effeithiol?
- Pa agweddau y gellir eu gwella neu eu darparu'n fwy effeithiol yn y dyfodol?
- Beth yw eich anghenion datblygu er mwyn eich cynorthwyo yn y rôl?
- Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad a / neu effaith gwaith Aelodau Sgriwtini mewn perthynas â phrosesau gwneud penderfyniadau?

## CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION SGRIWTINI

Sylwadau ein Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini…

**Mae canfyddiadau ein Hadolygiad Sgriwtini wedi caniatáu i ni adeiladu ar barodrwydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith i ymgysylltu â Sgriwtini. Erbyn hyn mae'n fwy amlwg fod Aelodau Portffolio, yn hytrach na Swyddogion, yn cael eu dwyn i gyfrif**

**Gall lefelau profiad amrywiol aelodau sgriwtini effeithio ar ansawdd y trafodaethau mewn cyfarfodydd**

**Mae'r cynllun eistedd 'pwyllgor dethol' newydd a gyflwynwyd yn y pwyllgorau sgriwtini wedi gweithio'n arbennig o dda**

**Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai yr Awdurdod Lleol. Roedd hyn yn dangos Sgriwtini gwirioneddol ac effeithiol**

**Mae nodi gweithredoedd ychwanegol sy'n codi o gyfarfodydd Pwyllgor ac adrodd ar gynnydd yn dystiolaeth o sut rydym yn ychwanegu gwerth at y broses sgriwtini. Mae hyn yn arfer dda.**

**Dylai Aelodau Sgriwtini deimlo'n fwy hyderus wrth herio, gofyn cwestiynau atodol a gofyn am wybodaeth ychwanegol er mwyn sicrhau dealltwriaeth ddyfnach**

**AELODAU SGRIWTINI:**

Sylwadau ein Haelodau Sgriwtini…

Mae'r cyfle i ystyried ystod eang o feysydd gwasanaeth wedi caniatáu i mi wneud fy ngwaith sgriwtini'n fwy effeithiol

Mae sgriwtini'n darparu arweiniad gwerthfawr i'r Pwyllgor Gwaith, gan eu helpu i ddeall safbwyntiau'r cyhoedd a llywio eu penderfyniadau.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi oedd gwaith craffu manwl y Panel Sgriwtini Addysg. Roedd hyn yn darparu golwg fanwl ar y ddarpariaeth addysg yn y dosbarth

Dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r paneli sgriwtini am eu cyfraniad gwerthfawr i sgriwtini

Uchafbwynt i mi oedd ymweld ag ysgolion, gan ganolbwyntio ar y camau cadarnhaol a gymerir i wella a datblygu'r ddarpariaeth iaith Gymraeg

Mae angen i ni ofyn cwestiynau atodol mewn cyfarfodydd pwyllgor er mwyn mynd at wraidd y mater

Mae'r Panel Sgriwtini Addysg wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd, gan sefydlu pwrpas a chyfeiriad clir. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i wneud hyn a'n bod yn craffu a darparu tystiolaeth o'n gwaith fel Panel Sgriwtini.

Nawr fod gennym gyfle i gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb bydd yn gwella llawer iawn ar ein gallu i sicrhau sgriwtini effeithiol

Mae'n bwysig ailymweld â gweithredoedd a drafodwyd mewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau atebolrwydd a gwella perfformiad ym mhob maes gwasanaeth

## AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH

Sylwadau Aelodau'r Pwyllgor Gwaith…

**Mae Sgriwtini'n elfen bwysig iawn o waith y Cyngor ac mae pob cyfarfod yn cyfrannu at y broses honno**

**Mae gwaith diwyd ein Pwyllgorau Sgriwtini yn rhoi'r hyder i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniadau cadarn sydd wedi'u cefnogi gan her feirniadol**

**Mae newidiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i amlygu atebolrwydd yr Aelodau Portffolio yn ystod cyfarfodydd Sgriwtini wedi cryfhau ein Pwyllgorau Sgriwtini**

**Roedd cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio lle'r oedd Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol yn enghraifft ardderchog o waith Sgriwtini. Yn benodol, cwestiwn am geisiadau cynllunio oedd yn amlygu rhwystredigaeth Cynghorwyr a chydnabyddiaeth y Cadeirydd o bwysigrwydd y mater.**

**Mae'n hanfodol fod Aelodau Sgriwtini yn herio adroddiadau yn gadarnhaol ac ystyrlon er mwyn sicrhau fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau cadarn a thryloyw**

## Y TÎM ARWEINYDDIAETH

**Mae rhai o'r agweddau y gellir eu gwella neu eu darparu'n fwy effeithiol yn y dyfodol yn cynnwys:**
**1.) Mynychu cyfarfodydd sgriwtini mewn person yn hytrach nag ar-lein**
**2.) Gofyn mwy o gwestiynau atodol**

**Bydd dealltwriaeth well gan Swyddogion o gyfarfodydd paratoi yn arwain at graffu mwy effeithiol mewn cyfarfodydd cyhoeddus**

**Rhai o'r uchafbwyntiau i mi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd:**

- **Mewnbwn Sgriwtini i'r broses gosod y gyllideb**
- **Craffu ar gyrff allanol**
- **Trefniadau cadarn ar waith yn gyson ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus**

## 6. EDRYCH YMLAEN AT 2025/26

Mae'r Awdurdod Lleol wedi comisiynu adolygiad allanol o'i strwythur sgriwtini presennol a'i drefniadau. Roedd yr adolygiad hwn yn ystyried:

i. arferion gorau o fewn y sector a meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill, gan ddarparu cyfres o argymhellion cadarn wrth symud ymlaen
ii. mesur canlyniadau ac effaith craffu gan Aelodau fel rhan annatod o ymarfer.

Canlyniadau'r adolygiad hwn yw'r sail ar gyfer y bennod nesaf yn ein taith ddatblygu.

**THEMAU ALLWEDDOL DATBLYGU SGRIWTINI: 2025/26**

| Thema | Sut / Crynodeb o Weithredoedd | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Rhaglen Waith sydd â gwell Ffocws, yn fwy Cytbwys ac yn cael ei harwain gan Aelodau** | **Prawf Arwyddocâd:** Adolygu ein trefniadau ar gyfer rhaglen waith sydd â ffocws, cydbwysedd ac yn cael ei harwain gan Aelodau trwy gyflwyno proses prawf arwyddocâd newydd | **Ymgysylltu rhagweithiol gan gynghorwyr sgriwtini er mwyn blaenoriaethu eitemau ar y flaen raglen waith sgriwtini**<br><br>**Rhaglenni Pwyllgor Cryno** |
| **Strwythur Symlach ar gyfer Sgriwtini a Threfniadau Llywodraethu** | **i. Cydbwysedd rhwng cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol:** Parhau â'r paneli Sgriwtini presennol a chreu capasiti i wneud mwy o waith tasg a gorffen / gwaith maes sgriwtini wedi'i dargedu a'i flaenoriaethu.<br>**ii. Cylch Gorchwyl a Threfniadau Adrodd:** Sicrhau cylch gorchwyl a threfniadau adrodd diwygiedig ar gyfer Paneli er mwyn darparu adborth sydd yn addas i bwrpas i Riant Bwyllgorau<br>**iii. Eitemau nad oes angen eu trafod:** Blaenoriaethu eitemau i'w hystyried gan Sgriwtini trwy ddefnyddio proses Prawf Arwyddocâd gadarn | **Strwythur wedi'i ddylunio'n dda lle mae'r ffurf yn unol â'r swyddogaeth** |
| **Cyfranogiad ac Ymgysylltiad y Cyhoedd â Sgriwtini** | **i. Protocol Siarad Cyhoeddus:** Adolygu a hyrwyddo'r protocol siarad cyhoeddus o bryd i'w gilydd | **Cyfranogi ystyrlon gan drigolion sy'n ychwanegu gwerth at Sgriwtini** |

| | | |
|---|---|---|
| | **ii. Neilltuo sedd** mewn cyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno cyfrannu<br>**iii. Ehangu Ymgysylltu a Chyfranogi** - archwilio camau pellach er mwyn caniatáu mwy o ymgysylltu a chyfranogi mewn Sgriwtini | |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | • Parhau i gynorthwyo cadeiryddion i ddatblygu rôl sgriwtini, yn ogystal â bodloni gofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Gwreiddio strategaeth gwestiynu gadarn yn llawn gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau fod cwestiynau sgriwtini allweddol yn cael eu cynnwys ym mhob adroddiad sgriwtini a'u bod yn cael eu gofyn mewn cyfarfodydd Panel a Phwyllgor<br>Adolygu ein trefniadau'n barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | **Canlyniadau Gwell** |
| **Gweithio mewn Partneriaeth** | • Parhau i gyd-gynhyrchu rhaglen gadarn er mwyn craffu ar Bartneriaid Strategol Allweddol<br>• Sicrhau aliniad â Chofrestr Partneriaethau Corfforaethol y Cyngor | **Hyrwyddo dull cydweithredol o wneud penderfyniadau a sicrhau fod safbwyntiau amrywiol yn cael eu hystyried**<br>**Arfarnu llwyddiant partneriaethau gan sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion a fwriadwyd, yn unol â Chynllun y Cyngor a'r weledigaeth** |
| **Parhau i Hunanasesu ein Trefniadau Sgriwtini Lleol** | • Sicrhau fframwaith hunanarfarnu cadarn ar gyfer Aelodau Sgriwtini fel elfen allweddol o'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini, gan gydweithio gydag Aelodau'r | **Darparu hunanasesiad cynhwysfawr a thrylwyr o'n trefniadau sgriwtini lleol**<br>**Edrych tuag allan** |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arweinyddiaeth<br>• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd trwy Sefydliadau Proffesiynol ledled y DU er mwyn meincnodi ein perfformiad yn erbyn y sefydliadau sy'n perfformio orau | **Mesur cynnydd a nodi meysydd twf neu feysydd i'w gwella** |

## 7. CYSYLLTU Â SGRIWTINI

**7.1** I gael gwybod mwy am sgriwtini ar Ynys Môn neu i gyflwyno eich safbwyntiau, cysylltwch â:

Tîm Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini | **Ffôn:** 07971167198<br>**E-bost:** AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |
| Elin Allsopp | Swyddog Sgriwtini | **Ffôn:** 07812700543<br>**E-bost:**ElinAllsopp2@ynysmon.llyw.cymru |

# Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini: 2024/25

# ATODIADAU

# ATODIAD 1

## BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI?

### Cyd-destun polisi cenedlaethol

### Cyd-destun Cenedlaethol:

Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Yn ogystal â sefydlu gweithrediaeth i wneud penderfyniadau, mae'n ofynnol, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau sgriwtini. Eu rôl bennaf yw dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Llywodraethu a Chraffu Cyhoeddus (CfGS)[3] yn arddel pedair egwyddor allweddol er mwyn cefnogi gwaith sgriwtini effeithiol gan Aelodau:

i. Darparu her "cyfaill beirniadol" cadarnhaol;
ii. Amlygu lleisiau a phryderon y cyhoedd;
iii. Cael ei arwain gan bobl annibynnol sy'n derbyn cyfrifoldeb am eu rôl;
iv. Gyrru gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

[3] Good Scrutiny Guide, Y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu 2019

# ATODIAD 2

**CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH EIN PWYLLGORAU SGRIWTINI**

- Mae'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael ei chyflawni drwy gyfrwng strwythur sy'n cynnwys dau riant bwyllgor sgriwtini – y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

### Cylch Gorchwyl:

- Ffocws gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yw darparu sicrwydd ynglŷn â chyflawni a darparu'r holl wasanaethau; sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol ac amcanion gwasanaeth (fel y cânt eu hamlinellu yn y Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Flynyddol, y Fframwaith Cyllideb a Pholisi, y Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu eu cynlluniau a'u polisïau olynol); a chefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.
- Mae aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cynnal cyfarfodydd paratoi cyn pob pwyllgor er mwyn paratoi a rhoi ffocws i'r drafodaeth yng nghyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor. Ystyrir bod hyn yn arfer dda a bwriedir sicrhau fod y trefniadau hyn ar waith yn 2024/25.

### Aelodaeth

- Y Cynghorydd Douglas Massie Fowlie yw cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chaiff ei gefnogi gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Sonia Williams. Mae deuddeg Aelod Etholedig yn aelodau o'r pwyllgor, ynghyd â darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

## Aelodaeth o’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

### Aelodau Etholedig

| | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol / Grŵp | | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. Douglas Fowlie (Cadeirydd) | Crigyll | Annibynwyr Môn |  | Cyng. Sonia Williams (Is-gadeirydd) | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Ieuan Williams | Lligwy | Y Grŵp Annibynnol |  | Cyng. Arfon Wyn | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |
|  | Cyng. John Ifan Jones | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |  | Cyng. Aled Morris Jones | Twrcelyn | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng. Jackie Lewis | Talybolion | Plaid Cymru |  | Cyng. Keith Roberts | Ynys Cybi | Llafur Cymru |



Cyng. Llio A Owen | Talybolion | Plaid Cymru



Cyng. Robert Llewelyn Jones | Parc a'r Mynydd | Annibynwyr Môn



Cyng. Alwen Pennant Watkin | Bodowyr | Plaid Cymru



Cyng. Geraint ap Bebb | Cefni | Plaid Cymru

## Aelodau Cyfetholedig



Mr John Tierney

Yn cynrychioli: Yr Eglwys Gatholig Rufeinig



Mrs Wenda Owen

Yn cynrychioli: Yr Eglwys yng Nghymru



Mrs Gillian Thompson

Yn cynrychioli: Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd

Sedd Wag: Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY

# Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

## Cylch Gorchwyl:

- Prif ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yw sicrhau fod buddiannau Dinasyddion Ynys Môn yn cael eu hyrwyddo ac y gwneir y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, er mwyn dangos y gwerth ychwanegol sy'n deillio o weithio gyda phartneriaid. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â threfniadau lleol.
- Y Pwyllgor hefyd yw'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn enwebedig sy'n delio â materion trosedd ac anhrefn, yn unol â gofynion o dan Adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Hwn yw'r Pwyllgor dynodedig hefyd ar gyfer craffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.
- Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'r arfer o gynnal cyfarfodydd briffio gydag Aelodau cyn pob cyfarfod ffurfiol o'r pwyllgor sgriwtini. Ystyrir bod hyn yn arfer dda a bwriedir sicrhau fod y trefniadau hyn ar waith yn 2024/25.

## Aelodaeth:

- Y Cynghorydd Dylan Rees yw Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a chaiff ei gefnogi gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gwilym Owen Jones. Mae deuddeg aelod yn aelodau o'r pwyllgor hwn hefyd ac mae darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

## Aelodaeth o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

### Aelodau Etholedig

| | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Non Dafydd | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Euryn Morris | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Sonia Williams | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Ken Taylor | Bro'r Llynnoedd | Plaid Cymru |

| | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Gwilym O Jones (Is-gadeirydd) | Bro'r Llynnoedd | Y Grŵp Annibynnol |
|  | Cyng. Margaret Roberts | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Jeff Evans | Tref Cybi | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng. Derek Owen | Twrcelyn | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng. Pip O'Neill | Tref Cybi | Llafur Cymru |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng.<br>Paul Ellis | Canolbarth<br>Môn | Annibynwyr<br>Môn |  | Cyng.<br>John Ifan<br>Jones | Bro<br>Aberffraw | Plaid Cymru |

## Aelodau Cyfetholedig



Mr John Tierney

Yn cynrychioli: Yr Eglwys Gatholig Rufeinig



Mrs Wenda Owen

Yn cynrychioli: Yr Eglwys yng Nghymru



Mrs Gillian Thompson

Yn cynrychioli: Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd

Sedd Wag: Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY

Gall ein pwyllgorau sgriwtini gyflawni eu gwaith mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyried pwnc mewn cyfarfod ffurfiol
- Ystyried pwnc yn fwy manwl trwy sefydlu panel canlyniad sgriwtini NEU
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes polisi penodol.

Unwaith eto yn ystod 2024/25, roedd y pwyllgorau sgriwtini yn ymwybodol o'r angen i geisio canolbwyntio eu gwaith ar ganlyniadau a gweithredu o fewn fframwaith Archwilio Cymru o nodweddion a chanlyniadau sgriwtini a throsolwg effeithiol mewn llywodraeth leol[4]

- Canlyniadau Gwell
- Penderfyniadau Gwell
- Craffu'n Well

**Galw penderfyniadau i mewn:** Gall pwyllgorau sgriwtini "alw i mewn" penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, Aelod Portffolio neu swyddog sydd wedi cael pwerau dirprwyedig gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad penodol. Nid yw'r pwyllgorau sgriwtini ond yn galw penderfyniad i mewn pan mae rheswm da dros wneud hynny (drwy Brawf Arwyddocâd), ac ni chafodd yr un penderfyniad ei alw i mewn yn ystod 2024/25.

[4] Craffu Da? Cwestiwn Da!, Swyddfa Archwilio Cymru, 2014

# ATODIAD 3

## GWELEDIGAETH AR GYFER CYFLAWNI SGRIWTINI EFFEITHIOL O FEWN Y CYNGOR

### Ein Gweledigaeth

- Nod Sgriwtini ar Ynys Môn yw sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau ac ychwanegu at effeithiolrwydd yr Awdurdod Lleol drwy gynorthwyo i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tryloyw, cynhwysol, atebol a chost effeithiol.



### Ein Hegwyddorion

- Mae sgriwtini'n creu awyrgylch o gydymddiriedaeth, cydweithio a rhannu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cymunedau lleol ar Ynys Môn
- Mae Aelodau Sgriwtini yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi a herio mewn ffordd anwleidyddol
- Mae gweithgarwch Sgriwtini'n ehangu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno rhaglenni trawsnewid trwy gyflwyno barn ynglŷn â sut mae cymunedau lleol yn debygol o ymateb i gynigion.
- Mae Aelodau Sgriwtini yn helpu i sicrhau fod dull strategol, tymor hir yn cael ei ddilyn pan fydd strategaethau gwasanaeth sylweddol yn cael eu hystyried, a hynny drwy gynnig her adeiladol wrth brofi rhagdybiaethau, edrych ar risgiau a herio sut mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.



### Ein Gwerthoedd

Mae Sgriwtini ar Ynys Môn…

- Yn edrych ymlaen ac yn edrych tuag allan, ac mae'n rhagweithiol (yn hytrach nag yn fewnol ac ymatebol)
- Â rôl yn nhrefniadau llywodraethu a gwella'r Cyngor sydd wedi'i diffinio'n glir ac yn cael ei gwerthfawrogi.
- Yn anwleidyddol ac mae'n cynnwys amrediad eang o dystiolaeth a safbwyntiau, gan gynnwys safbwyntiau partneriaid strategol, rheoleiddwyr a'r cyhoedd.
- Yn cael ei arwain gan Aelodau Etholedig sydd derbyn y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol.
- Yn derbyn cefnogaeth effeithiol gan Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer Sgriwtini o ansawdd uchel ac ar gael yn amserol a chyson.

- Yn ystyried pryderon a fynegir yn y wardiau wrth reoli ei flaen raglen waith, ond heb fod yn blwyfol.
- Yn cael ei gynllunio'n dda, ei gadeirio'n effeithiol ac mae'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddo.
- Yn cael ei gydnabod gan y Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arweinyddiaeth fel dull pwysig o eiddo'r Cyngor ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a chynnwys dinasyddion yn well mewn perthynas â llywodraethiant.
- Yn datblygu ymddiriedaeth a pherthynas gadarnhaol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.



**ATODIAD 4**

# PROTOCOL SGRIWTINI

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae sgriwtini yn elfen allweddol wrth ddal i gyfrif, mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol, gwaith y rheiny sy’n gwneud penderfyniadau’r Cyngor (y Pwyllgor Gwaith a swyddogion) a sefydliadau partner er mwyn cynorthwyo’r Cyngor i wireddu ei weledigaeth a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028[5] a gwneud penderfyniadau gwell. Mae sgriwtini yn cynorthwyo gwasanaethau i gynnal safonau gwasanaeth uchel a’u llywio tuag at wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

1.2 Mae’r Protocol hwn yn berthnasol i holl Aelodau Sgriwtini, holl Aelodau’r Pwyllgor Gwaith a Swyddogion y Cyngor sy’n cefnogi ac yn ymwneud â’r swyddogaeth Sgriwtini.

## 2. Nodau

2.1 Nod y Protocol hwn yw:

i. egluro’r berthynas rhwng y Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau Sgriwtini
ii. sicrhau bod busnes yn mynd rhagddo’n esmwyth
iii. cynnal cysylltiadau effeithiol rhwng Aelodau Sgriwtini a’r Pwyllgor Gwaith a swyddogion y Cyngor
iv. Hyrwyddo rôl effeithiol ar gyfer Sgriwtini a meithrin perthynas weithio dda rhwng Pwyllgorau Sgriwtini a’r Pwyllgor Gwaith a swyddogion y Cyngor, gan sicrhau fod Sgriwtini’n gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at redeg y Cyngor yn effeithiol, yn ogystal ag ychwanegu gwerth.

## 3. Dal y Pwyllgor Gwaith i Gyfrif

3.1 Rôl Sgriwtini yw dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif trwy:

- Ystyried penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unigol ac ar y cyd, ac eitemau ar y Flaen Raglen Waith trwy gyfrwng cyfarfodydd sgriwtini ffurfiol
- Adolygu perfformiad gwasanaethau a pherfformiad yn erbyn polisïau a thargedau
- Bod yn barod i ofyn cwestiynau craff a threiddgar sy’n cynnig her adeiladol ac sy’n berthnasol i’r materion sy’n cael eu craffu
- Bod yn gadarnhaol a pharchus yn eu trafodaethau ag Aelodau’r Pwyllgor Gwaith
- Cynrychioli llais y cyhoedd
- Gwrando ar yr ymatebion a gyflwynwyd a chynorthwyo’r Pwyllgor Gwaith i nodi meysydd i’w hystyried a’u gwella ymhellach
- Mae Aelodau Sgriwtini yn anwleidyddol yn y modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi a herio

---

[4]Cynllun y Cyngor: 2023-2028

3.2 Mewn ymateb i hynny, bydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn:

- Barod i fod yn agored, yn onest ac i fynd ati i ymateb i her gadarnhaol
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd Sgriwtini
- Cefnogi prosesau sgriwtini a gwahodd a cheisio barn gan Aelodau Sgriwtini ar benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud, lle bo hynny'n briodol
- Cyfrannu'n gadarnhaol mewn cyfarfodydd sgriwtini
- Mynychu cyfarfodydd pan fyddant yn derbyn gwahoddiad, er mwyn ateb cwestiynau a chyflwyno gwybodaeth.

## 4. Atebolrwydd y Pwyllgor Gwaith

4.1 Gan adeiladu ar barodrwydd y Pwyllgor Gwaith i ymgysylltu â Sgriwtini, gwella atebolrwydd a thryloywder ymhellach trwy fynd ati i amlygu'n well eu bod yn dal Aelodau Portffolio, yn hytrach na swyddogion, i gyfrif trwy:

- Sicrhau trefniadau eistedd "Pwyllgor Dethol" yn yr ystafell bwyllgor trwy gadw Aelodau Portffolio ac Aelodau Sgriwtini ar wahân, yn ogystal â Swyddogion y Cyngor
- Dylai Aelodau Portffolio gael eu briffio gan y Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth arweiniol perthnasol cyn bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini
- Dylai cyflwyniadau agoriadol gan Aelodau Portffolio fod yn gryno er mwyn caniatáu cymaint â phosib o amser i Aelodau Sgriwtini ofyn cwestiynau
- Mewn cyfarfodydd, dylid gofyn cwestiynau i'r Aelod Portffolio ymateb iddynt yn y lle cyntaf, gyda Phrif Swyddogion yn cynorthwyo i ymateb i gwestiynau ategol yn ôl y gofyn
- Dylai adroddiadau Pwyllgor Sgriwtini gael eu cyhoeddi yn enw'r Aelod Portffolio perthnasol
- Bydd y trefniadau'n amrywio pan fydd cyrff allanol yn mynychu, yn ddibynnol ar rôl y Cyngor.

## 5. Blaen Raglen Waith Sgriwtini

5.1 Ar ddechrau pob blwyddyn ddinesig, bydd y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn awgrymu pynciau, gan ddefnyddio'r Prawf Arwyddocâd Sgriwtini, er mwyn nodi nifer fechan o flaenoriaethau (yn gysylltiedig â Chynllun y Cyngor 2023-2028) i'w cynnwys yn y Flaen Raglen Waith Sgriwtini.

5.2 Bydd y flaen raglen waith Sgriwtini yn cael ei monitro a'i hadolygu o dro i dro trwy gydol y flwyddyn ddinesig gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini.

5.3 Bydd fersiwn ddiweddaraf y flaen raglen waith Sgriwtini'n cael ei chynnwys ar raglen bob cyfarfod Pwyllgor fel eitem er gwybodaeth yn unig.

## 6. Ymddygiad, Gwerthoedd a Diwylliant

6.1 Ynghyd â'r Cod Ymddygiad i Aelodau[6] a Chynllun y Cyngor[7], bydd Aelodau Sgriwtini ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno i weithredu'n unol â'r gwerthoedd a'r ymddygiadau canlynol:

[6] Paragraff 5.1: Cod Ymddygiad i Aelodau - Cyfansoddiad y Cyngor
[7] Gwerthoedd ac Egwyddorion Cyffredinol Cynllun y Cyngor 2023-2028

- Cyfathrebu'n effeithiol drwy ofyn cwestiynau penodol ar y pwnc sy'n cael ei graffu
- Ymrwymo i baratoi cyn cyfarfodydd er mwyn gofyn cwestiynau treiddgar
- Meithrin awyrgylch o ymddiriedaeth, gonestrwydd, uniondeb a bod yn agored
- Bod yn gadarnhaol a pharchus wrth ymwneud â'i gilydd
- Rheoli unrhyw feysydd y ceir anghytuno yn eu cylch mewn ffordd adeiladol a phroffesiynol
- Cydweithio a gweithio mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
- Bod yn anwleidyddol a chynnwys amrediad eang o dystiolaeth a safbwyntiau.

6.2 Yn unol â'r Cod Ymddygiad i Swyddogion, bydd Swyddogion yn cytuno i weithredu'n unol â'r gwerthoedd a'r ymddygiadau canlynol:

- Cydymffurfio â pholisïau'n ymwneud â materion cydraddoldeb
- Ni ddylent ganiatáu i'w diddordebau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus
- Trin pawb â pharch
- Bod yn gadarnhaol a chroesawu dysgu a datblygu

6.3 Bydd Swyddogion ac Aelodau'n cytuno i weithio gyda'i gilydd yn unol â'r Protocol ar gyfer y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion trwy arddel y gwerthoedd a'r ymddygiadau canlynol:

- Meithrin hyder ac ymddiriedaeth yn y naill a'r llall
- Cydnabod, a pharchu, rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall
- Parchu amser rhydd y naill a'r llall (h.y. amser nad yw'n amser y Cyngor).

## 7. Ymateb ac Argymhellion

7.1 Bydd argymhellion Sgriwtini yn glir a rhesymegol a bydd y canlyniadau'n canolbwyntio ar gefnogi ymateb a monitro a chynorthwyo i dystiolaethu effaith sgriwtini ar fusnes y Cyngor:

- Dylai argymhellion fod yn rhai SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol).
- Bydd y Pwyllgor Gwaith yn rhoi ystyriaeth briodol i argymhellion a safbwyntiau sgriwtini
- Yn y Pwyllgor Sgriwtini, bydd Aelodau'n gwneud cynigion ar faterion sydd wedi'u rhaglennu i gael eu hystyried mewn cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Gwaith. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini yn cyflwyno argymhellion y Pwyllgor a bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried yr argymhellion hynny wrth wneud eu penderfyniadau ffurfiol
- Bydd ymatebion yn cynnwys esboniad dros beidio â derbyn unrhyw argymhellion
- Bydd y Cadeirydd Sgriwtini perthnasol yn bresennol yn y Pwyllgor Gwaith er mwyn cyflwyno adborth o'i Bwyllgor ar faterion perthnasol
- Bydd pwyllgorau Sgriwtini yn cofnodi argymhellion ac ymatebion er mwyn eu monitro'n barhaus.

## 8. Galw i Mewn

8.1 Gall sgriwtini arfer yr hawl i alw i mewn, i'w hailystyried, penderfyniadau (o fewn ei gyfrifoldebau) y mae'r Pwyllgor Gwaith (neu aelod o'r Pwyllgor Gwaith) wedi eu gwneud

ond nad ydynt wedi cael eu gweithredu eto, fel y nodir yn y Cyfansoddiad. Mae hyn yn caniatáu i aelodau Sgriwtini ystyried a yw'r penderfyniad yn addas. Gallant argymell bod Penderfyniad y Pwyllgor gwaith yn sefyll. Gallant argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn ailystyried eu penderfyniad neu gallant gyfeirio penderfyniad y Pwyllgor Gwaith at y Cyngor llawn.

8.2 Hyd yn oed oes yw'r Cyngor yn gwrthwynebu penderfyniad y Pwyllgor Gwaith, nid oes ganddo unrhyw bŵer i roi feto ar benderfyniad y Pwyllgor Gwaith, na'i newid, oni bai ei fod yn groes i'r Gyllideb a osodwyd gan y Cyngor, neu bolisi/strategaeth allweddol a luniwyd gan y Cyngor llawn (mater a gadwyd yn ôl).

8.3 Os oedd mater a gyfeiriwyd at y Cyngor llawn yn un yr oedd gan y Pwyllgor Gwaith awdurdod drosto, yna, er na all y Cyngor newid neu roi feto ar y penderfyniad, gall gyfeirio'r mater yn ôl at y Pwyllgor Gwaith gydag argymhellion. Os nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu penderfyniad a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yna nid oes angen camau pellach a bydd y penderfyniad yn dod i rym yn unol â'r Cyfansoddiad.

8.4 Ni fydd y trefniadau galw i mewn a nodir yn y Cyfansoddiad yn berthnasol os yw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn un brys. Bydd penderfyniad yn un brys os byddai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn yn niweidio buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd yn ddifrifol. Os argymhellir y dylai'r Pwyllgor Gwaith atal yr hawl i alw i mewn, yna mae'n rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno ar hynny ymlaen llaw.

8.5 Bydd gweithredu'r darpariaethau'n gysylltiedig â galw i mewn a materion brys yn cael ei fonitro'n flynyddol, a bydd y Pennaeth Democratiaeth yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor fydd yn cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer eu hadolygu os bydd angen.

## 9. Cynnal y Protocol

9.1 Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Pennaeth Democratiaeth yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â'r Protocol Pwyllgor Gwaith/Sgriwtini a ddylai gael ei ddefnyddio gan Aelodau i gefnogi'r nod ehangach o gefnogi a hyrwyddo diwylliant o graffu. Bydd llwyddiant y protocol yn cael ei benderfynu gan:

- Gydnabyddiaeth o werth sgriwtini
- Cofnod clir o her adeiladol
- Proses agored ac atebol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

9.2 Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Sgriwtini i'r Cyngor llawn bob blwyddyn gyda'r bwriad o ddangos effaith Sgriwtini ac effeithiolrwydd y Protocol.

**Troednodyn**

Trefniadau eistedd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini - bydd y gwahaniaeth rhwng aelodau pwyllgor (a swyddogion sydd fel arfer yn cynorthwyo aelodau'r pwyllgor), cynghorwyr eraill a swyddogion eraill yn cael ei ddangos yn glir er mwyn cynorthwyo'r cyhoedd.

**FERSIWN DERFYNOL**
**05/02/2025**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 26 Mehefin 2025 / 25 Medi 2025 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024-25 – Adroddiad y Cadeirydd |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor adrodd i'r cyngor llawn ('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu') yn flynyddol ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a fframweithiau rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol. (3.4.8.3.1)<br><br>Mae'n ofynnol hefyd i'r Pwyllgor adrodd ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran cyflawni ei ddiben a'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno, gan gynnwys casgliad ar gydymffurfiaeth â Datganiad Sefyllfa Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) [1]. (3.4.8.3.2)<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion hyn ac mae'n allbwn allweddol i'r Pwyllgor. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pwrpasol ac effeithiol yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref a rhoi sicrwydd annibynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol ac uniondeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu. Mae hefyd yn allweddol i gefnogi archwilio mewnol ac allanol effeithiol.

1.2. Mae canllawiau CIPFA sy'n ategu ei Ddatganiad Sefyllfa yn nodi y dylai'r Pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sy'n rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei ddiben ac yn gallu dangos ei effaith. Dylai'r adroddiad fod ar gael i'r cyhoedd, gan gefnogi atebolrwydd yr awdurdod i randdeiliaid ehangach, gan gynnwys y cyhoedd.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2024-25 cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar 25 Medi 2025.

[1] Mae Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022) yn nodi barn CIPFA am rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024-25

Mehefin 2025






## Adroddiad y Cadeirydd

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys


Cyflwyniad 1
Cyfansoddiad a threfniadau 2
Trefniadau Atebolrwydd 3
Llywodraethiant 4
Rheoli Trysorlys 4
Gwerth am arian 5
Fframwaith sicrwydd 5
Rheoli Risg 7
Atal Twyll a Llygredd 7
Archwilio Mewnol 7
Archwilio Mewnol: 9
Adroddiadau ariannol 9
Delio â chwynion 10
Adroddiad hunanasesu 10
Asesiad perfformiad panel 11
Archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol 11
Atodiad A – Amlder cyfarfodydd a phresenoldeb 12
Atodiad B – Hyfforddiant Aelodau Cyfredol 2022-25 a Gwybodaeth a Rannwyd 13
Atodiad C – Crynodeb o Ganlyniadau Cyfarfodydd 15




# Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethiant da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn (3.4.8.1.1).
2. Ei bwrpas yw rhoi sicrwydd annibynnol llawn i'r Cyngor *("y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant")* ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol a chyfannedd y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu (3.4.8.1.2).
3. Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, mae canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)[1] yn datgan y dylai pwyllgorau archwilio adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith 'i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant', rhoi sicrwydd ei fod yn cyflawni ei bwrpas, ei fod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau a'i fod yn gallu dangos ei effaith.
4. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad hwn drwy asesu gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2024-25 yn erbyn ei gylch gorchwyl, sydd wedi'i ymgorffori yng Nghyfansoddiad[2] y Cyngor, fersiwn 2.93 a ddiweddarwyd ar 24 Chwefror 2025.

[1] Mae Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022) a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi barn CIPFA o rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.
[2] Mae rhannau perthnasol y Cyfansoddiad mewn cromfachau.

# Cyfansoddiad a threfniadau

5. Yn ystod y flwyddyn, roedd y Pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a phedwar aelod lleyg, yn unol â'i gylch gorchwyl.

6. Yn ystod y flwyddyn gadawodd y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones y Pwyllgor er mwyn ymuno â'r Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2024, a gadawodd y Cynghorydd Liz Wood ym mis Chwefror 2025. Ymunodd y Cynghorydd Aled Morris Jones a'r Cynghorydd Kenneth Hughes â'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2024 er mwyn llenwi'r seddi gwag. Gyda thristwch, bu farw Mrs Sharon Warnes, Aelod Lleyg, cyn y cyfarfod ym mis Mai 2025. Ymddiswyddodd Mr Mike Wilson, Aelod Lleyg, ddiwedd mis Mai 2025 (3.4.8.2.2).

7. Mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, hyd y gellir, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor (3.4.8.2.2) ac roedd yn bresennol ym mhob un o'r saith cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod 2024-25. (Atodiad A).

8. Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod lleyg ac felly nid oedd yn gynghorydd etholedig nac yn aelod o grŵp oedd yn rhan o Bwyllgor Gwaith y Cyngor (3.4.8.2.3).

9. Trwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor ei fusnes yn anwleidyddol a chadwyd at reolau cydbwysedd gwleidyddol (3.4.8.2.1).

10. Bu i bob aelod ddatgan buddiannau pan oedd hynny'n briodol (3.4.8.2.2).

11. Yn ystod y flwyddyn, pan alwyd ar swyddogion i fynychu cyfarfod pwyllgor ar gais aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fe wnaeth pawb hynny (3.4.8.2.4).

12. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn (3.4.8.2.5). Cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol (cyfarfodydd hybrid) ar saith achlysur, yn cynnwys un cyfarfod arbennig er mwyn ystyried y Datganiad Cyfrifon drafft 2023-24, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023-24 ac adroddiad yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar gyfer 2023-24 (adroddiad ISA 260). Roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2024-25 yn dda, gyda phresenoldeb o 65% ar gyfartaledd (Atodiad A).

13. Lle bo angen, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 wedi darparu cyngor a chafodd fynediad uniongyrchol a dilyffethair i'r Pwyllgor (3.4.8.2.7).

14. Ni fu'n rhaid i'r archwilwyr allanol na mewnol ofyn i'r Cadeirydd ystyried unrhyw fater y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor ym marn yr archwilwyr (3.4.8.2.9).

15. Derbyniodd aelodau presennol hyfforddiant parhaus a sesiynau briffio ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil (Atodiad B) (3.4.8.2.10).

16. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys holl swyddogaethau craidd y Pwyllgor. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2024, cafodd cylch gorchwyl diwygiedig ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor, yn dilyn newidiadau a wnaed yn sgil hunanasesiad y Pwyllgor a hwyluswyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a'r argymhellion gwella a ddeilliodd o'r ymarfer (gweler hefyd paragraff 19 isod).

17. Gan mai newidiadau bychan oeddent, roedd yn bosib i Swyddog Monitro'r Cyngor eu rhoi ar waith ac nid oedd angen eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn eu cymeradwyo (3.4.8.3.2).

## Trefniadau Atebolrwydd

18. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adrodd i'r Cyngor llawn ('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant') ac mae ei rôl yn gwbl ar wahân i rôl y pwyllgorau sgriwtini. Mae rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gofyn am sicrwydd bod systemau rheoli mewnol y Cyngor yn gweithio, a bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau. (3.4.8.1.3).

19. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn ('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant') ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol y Cyngor, ei drefniadau adrodd ariannol, a'i swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol (3.4.8.3.1). Y mae hefyd yn bodloni'r gofyniad i adrodd ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran cyflawni'i bwrpas a'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.

20. Comisiynwyd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i hwyluso hunanasesiad ansoddol o'r Pwyllgor yn 2023-24. Roedd hyn yn bodloni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022 sy'n argymell bod pwyllgorau archwilio yn gwerthuso eu heffaith ac yn nodi meysydd i'w gwella.

21. Roedd yr adolygiad yn cynnwys adborth ar berfformiad y Pwyllgor gyda'r rheini sy'n ymwneud â'r Pwyllgor neu'n dibynnu ar ei waith, yn cynnwys uwch reolwyr, er mwyn mesur a yw'r Pwyllgor yn ychwanegu gwerth i'r sefydliad.

22. Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r 10 argymhelliad a wnaethpwyd o ganlyniad i adolygiad CIPFA. Edrychodd y Pwyllgor ar gynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn ei gyfarfod ym mis Mehefin a Rhagfyr 2024. (3.4.8.3.2).

23. Bu i'r Pwyllgor ystyried ei fusnes yn gyhoeddus, ac eithrio, lle bo'n briodol, pan gyfarfu'n breifat i ystyried eitemau o dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[3].

24. Yn ystod 2024-25, ystyriwyd dwy eitem gan y Pwyllgor yn breifat:

    - Adroddiad Archwilio Mewnol ar Brosesau Incwm y swyddogaeth Forwrol (Gorffennaf 2024)
    - Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol 2023/24 (Rhagfyr 2024)

25. Cyflwynwyd y Profion Budd y Cyhoedd priodol ac fe'u derbyniwyd gan y Pwyllgor.

26. Cyhoeddwyd agendâu ac adroddiadau yn unol ag amserlenni statudol ac roeddent ar gael i'w harchwilio (3.4.8.3.3).

27. Mae'r Pwyllgor yn cadw log gweithredoedd er mwyn monitro'r gweithredoedd / penderfyniadau a gytunwyd o safbwynt cynnydd a'u cwblhau. Mae'r log yn cael ei ddiweddaru a'i ystyried gan y Pwyllgor ym mhob cyfarfod.

28. Gall y Pwyllgor gyfeirio materion allweddol at bwyllgorau eraill y Cyngor neu'r Tîm Arweinyddiaeth os yw'n barnu bod hynny'n briodol. Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

---

Eitemau o dan Atodlen 12A, Paragraff 14: Gwybodaeth yn gysylltiedig â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod yn dal y wybodaeth honno) a Pharagraff 18: Gwybodaeth yn gysylltiedig ag unrhyw gamau a gymerwyd, neu y byddir yn eu cymryd, mewn cysylltiad ag atal, ymchwilio neu erlyn trosedd.

# Llywodraethiant

29. Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu ac asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) drafft, a drafodwyd ganddo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024 (3.4.8.4.2). Roedd y drafodaeth yn ymdrin â sawl ffactor gan gynnwys amserlen y Cyngor ar gyfer cydymffurfio â'r Ddeddf Gaffael 2023 newydd, hyfforddiant ar y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chyfyngiadau adnoddau sy'n effeithio ar reoli asedau ac adolygiadau effeithlonrwydd. Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft a fyddai'n ffurfio rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2023-24.

30. Derbyniodd y Pwyllgor y fersiwn derfynol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ym mis Rhagfyr 2024 a phenderfynodd ei gymeradwyo ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 a chyfeirio'r Datganiad at y Cyngor llawn i'w gymeradwyo ac at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi. (3.4.8.4.1).

31. O dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mae'n ofynnol iddo adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio sylweddol (3.4.8.4.4) ac adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth (3.4.8.8.1).

32. Cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol i'r Pwyllgor ar Oruchwylio Partneriaethau yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024. Er bod yr adroddiad yn amlygu rhai meysydd i'w gwella, roedd yn darparu sicrwydd rhesymol ynglŷn â llywodraethu a rheoli risgiau mewn perthynas â phartneriaethau a threfniadau cydweithio sylweddol y Cyngor. Penderfynodd y Cyngor nodi'r adroddiad fel rhan o ddiweddariad archwilio mewnol y Pennaeth Archwilio a Risg.

33. Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024, gofynnwyd i'r Pwyllgor enwebu tri aelod, un Cynghorydd ac un aelod lleyg, yn ogystal ag ail gynghorydd i weithredu fel eilydd, i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.

34. Penderfynodd y Pwyllgor enwebu'r Cynghorydd Geraint Bebb fel prif enwebai i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) a'r Cynghorydd Keith Roberts fel eilydd. Enwebwyd Mrs Sharon Warnes hefyd i wasanaethau fel Aelod Lleyg ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.

# Rheoli Trysorlys

35. Mae'r Cyngor llawn wedi enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys yn destun craffu effeithiol (3.4.8.5.1). Felly, mae'r Pwyllgor yn ymgymryd â rôl craffu yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, cyn i'r Cyngor llawn eu cymeradwyo (3.4.8.5.2).

36. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024, adolygodd y Pwyllgor yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2023-24 a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, gan amlygu perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor.

37. Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor bwyntiau a oedd yn cynnwys gostyngiad ym malansau ysgolion a'r goblygiadau i ysgolion yn y dyfodol. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith gyda gweithred ychwanegol, sef y dylid adolygu'r adroddiad i sicrhau cysondeb o ran amser y ferf ac eglurder. (3.4.8.5.1/2/3/4).

38. Trafododd y Pwyllgor yr adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau a sefyllfa rheoli'r trysorlys yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar ymarferoldeb ariannol setlo benthyciad hirdymor a defnyddio benthyciadau Salix i osod paneli solar ar adeiladau'r Cyngor. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am yr arbedion y disgwylir i'r prosiectau hyn eu

cynhyrchu a phenderfynodd nodi a derbyn yr adolygiad canol blwyddyn. (3.4.8.5.1/2/3/4).

39. Yn ystod yr un cyfarfod, bu i'r Pwyllgor ystyried a nodi'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2025-26. Roedd y ddogfen yn ymgorffori'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Datganiad Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw Blynyddol a'r Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys (3.8.4.5.1/4).

## Gwerth am arian

40. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau cadarn i wneud yn siŵr bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau, a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwerth ardderchog am arian (3.4.8.6.1).

41. Adolygodd y Pwyllgor ddull cyffredinol y Cyngor o ddarparu gwerth am arian wrth adolygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft y Cyngor (3.4.8.6.2) yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024.

42. Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 Archwilio Cymru, a sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwerth am arian (3.4.8.6.3) yn ei gyfarfod ym mis Mai 2025. Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor fod Archwilio Cymru wedi cwblhau gwaith yn ystod 2023-24 i fodloni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i ystyried a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau a ddefnyddir ganddo. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, roedd Archwilio Cymru wedi cwblhau prosiectau penodol, gan ddibynnu ar waith archwilio arall a gwaith rheoleiddwyr megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg).

43. Wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian, cyfeiriodd Archwilio Cymru at ei waith ar ddatganiadau ariannol 2023-24, sy'n nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor.

44. Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fod Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod, ac â gwybodaeth yr Archwilydd am yr Awdurdod.

45. O ran cynaliadwyedd ariannol y Cyngor, gan ganolbwyntio'n benodol ar weithredoedd, cynlluniau a threfniadau i bontio'r bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol yn y tymor canolig, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod gan y Cyngor drefniadau da ar gyfer ymateb i heriau ariannol yn y tymor byr a chanolig ond nid yw cynllunio a goruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy wedi cael ei ffurfioli.

46. Penderfynodd y Pwyllgor nodi Crynodeb Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2024 a'r asesiad o ph'un a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian.

## Fframwaith sicrwydd

47. Mae cael trosolwg o fframwaith sicrwydd y Cyngor yn galluogi'r Pwyllgor i gymeradwyo'r strategaeth archwilio mewnol ar sail risg. Mae hefyd yn helpu i sicrhau eglurder ynghylch pa sicrwydd a roddir, a bod cyfrifoldeb am ddarparu sicrwydd yn cael ei ddyrannu'n glir, a hynny heb ddyblygu gwaith. (3.4.8.7.1/2).

48. Yn ogystal â sicrwydd ynglŷn ag archwilio mewnol ac allanol, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau gan ddarparwyr sicrwydd llinell gyntaf ac ail linell, fel a ganlyn. (3.4.8.7.1)

49. Ystyriodd y pwyllgor Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) 2023-24 ym mis Medi 2024 ac roedd yn darparu datganiad y SIRO a throsolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion cyfreithiol a chodau ymarfer perthnasol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol (3.4.8.7.3).

50. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar berfformiad wrth ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, trefniadau ar gyfer prosesu

ceisiadau am fynediad at ddata gan wrthrych y data os nad yw'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth o'u hunaniaeth i'r Cyngor, a chyfrifoldebau sefydliadau partner neu gyflenwyr mewn perthynas â diogelu data a chydymffurfio â'r GDPR. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhelliad bod y SIRO ac uwch arweinwyr y Cyngor yn derbyn diweddariad rheolaidd ar risgiau seiber a mesurau lliniaru, fel y gellir gwneud penderfyniadau strategol, ar sail gwybodaeth yn brydlon ac effeithiol ynglŷn â'r bygythiad seiber parhaus i gyfannedd a chyfrinachedd asedau data'r Cyngor.

51. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan y Rheolwr Newid Hinsawdd yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024 oedd yn amlinellu'r cynnydd tuag at gyflawni targed sero net y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o uchafbwyntiau'r flwyddyn a'r prif weithredoedd yn y cynllun gweithredu Tuag At Sero Net ar gyfer 2023/24 (3.4.8.7.3).

52. Ar ôl trafod categoreiddio allyriadau carbon, datgarboneiddio cadwyni cyflenwi a dibyniaeth y Cyngor ar arian grant allanol er mwyn cyflawni ei nodau dargedau sero net, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i reoli risgiau newid hinsawdd i lefel dderbyniol.

53. Yn yr un cyfarfod, derbyniodd y pwyllgor adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynglŷn â materion llywodraethu gwybodaeth allweddol mewn perthynas ag ysgolion Ynys Môn ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2023 a Thachwedd 2024. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar drefniadau sydd ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â pholisïau diogelu data allweddol, yn ogystal â rôl llywodraethwyr ysgolion wrth i ysgolion reoleiddio eu trefniadau diogelu data eu hunain (3.4.8.7.3).

54. Ni chynhaliwyd ymweliadau archwilio blynyddol mewn ysgolion yn ystod y cyfnod adrodd, wrth ddisgwyl i ddeddfwriaeth newydd gael ei chyflwyno yn y maes hwn, a holodd aelodau'r Pwyllgor a fyddai'r ymweliadau blynyddol yn parhau. Ar ôl derbyn sicrwydd ar y materion a drafodwyd, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo camau arfaethedig nesaf y Swyddog Diogelu Data er mwyn caniatáu i ysgolion weithredu'n unol â gofynion diogelu data.

55. Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2023-24 hefyd. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar faterion megis y trefniadau ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwael ymysg disgyblion mewn ysgolion cynradd, a ddylid uwchgyfeirio'r cynnydd mewn ymddygiad ymosodol a difrïol tuag at staff y Cyngor a'i gydnabod fel risg sylweddol, ynghyd ag unrhyw oblygiadau cost yn sgil cynnydd yn nifer y damweiniau llithro, baglu a syrthio yng nghartrefi gofal preswyl yr Awdurdod. Ar ôl derbyn sicrwydd ynglŷn â'r materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhelliad y dylai'r Cyngor weithredu'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (3.4.8.7.3).

56. Yn olaf, derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol 2023-24 mewn sesiwn breifat. Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o'r materion seiberddiogelwch sy'n wynebu'r Cyngor a'r camau a gymerwyd i oresgyn yr heriau hyn, ymdrin â rhybuddion diogelwch a sut y cawsant eu datrys, ynghyd â phrosiectau seiberddiogelwch presennol (3.4.8.7.3).

57. Trafododd y Pwyllgor brydlondeb datrysiadau gan gyflenwyr meddalwedd trydydd parti i ymateb i wendidau diogelwch ac a fyddai'n bosib gwella hyn trwy ddefnyddio mesurau rheoli contractau cadarn, a thrafodwyd risgiau sy'n dod i'r amlwg yn dilyn trosglwyddo i Windows 11, capasiti'r gwasanaeth TGCh a hyfforddiant ac ymwybyddiaeth seiber ar gyfer staff. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, gan dderbyn sicrwydd fod mesurau rhesymol ar waith i leihau bygythiadau seiber i lefel dderbyniol.

## Rheoli Risg

58. Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio’r gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau rheoli risg o fewn y Cyngor (3.4.8.8.1).
59. Yn ystod 2024-25, mae’r Tîm Arweinyddiaeth wedi cynnal adolygiad eang o drefniadau rheoli risg o fewn y Cyngor. Mae’r adolygiad, a hwyluswyd gan Zurich Risk Engineering, wedi canolbwyntio ar ddiweddaru’r gofrestr risgiau strategol, gan gynnwys adnabod a diffinio risgiau, rheolaethau presennol, sgorio risgiau ac archwaeth risg, yn ogystal â sicrhau fod risgiau strategol yn cyd-fynd â’r Cynllun y Cyngor presennol. Mae’r adolygiad hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
60. Cyflwynir canlyniad y gwaith hwn i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi 2025.

## Atal Twyll a Llygredd

61. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024, adolygodd y Pwyllgor adroddiad canlyniadau’r Fenter Twyll Genedlaethol 2022-24 oedd yn amlinellu canlyniadau diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol mewn perthynas â Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Budd-dal Tai. Wrth ystyried yr adroddiad, roedd y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a welwyd ac amcangyfrifir bod £3,838 wedi’i arbed o ganlyniad i’r Fenter Twyll Genedlaethol, ond nododd y gallai cyfyngiadau o ran adnoddau amharu ar ymdrechion i atal twyll. (3.4.8.9.3)
62. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Pennaeth Archwilio a Risg ar gyfer 2023-24 (3.4.8.9.4/6) yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gweithgareddau a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn er mwyn lleihau’r risg bod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.
63. Roedd yr adroddiad yn amlygu gweithgareddau atal twyll, gan gynnwys treulio 67 diwrnod ar waith atal twyll, megis y Fenter Twyll Genedlaethol, gwaith twyll rhagweithiol, ymholiadau cyffredinol ynglŷn â thwyll ac ymchwiliadau. Roedd yr adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd lleihau risgiau twyll, yn enwedig mewn cyfnod lle mae’r pwysau ariannol yn uwch.
64. Fel rhan o'r adroddiad hwn, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg gyfraddau cydymffurfio presennol y Pwyllgor (95%) ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth staff o'r Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban. (3.4.8.9.1)
65. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â threfniadau gweithgorau atal twyll rhanbarthol a lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth o risg twyll, yn ogystal ag agweddau eraill a allai gefnogi gweithgareddau atal twyll, megis system reoli cysylltiadau cwsmer y Cyngor (CRM) a’r rhaglen STAR sydd â’r nod o wella prosesau caffael o fewn y Cyngor. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.
66. Bu i’r Pwyllgor adolygu a chymeradwyo’r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028 yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025. Roedd y ddogfen yn cynnwys cynllun cyflawni gweithgareddau atal twyll er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y Cyngor wrth atal twyll. Nod asesiad atal twyll Cyngor gyfan sydd ar y gweill yw adnabod twyll posib yn well a thargedu adnoddau’n effeithiol. (3.4.8.9.2/5)
67. Yn ystod y drafodaeth rhoddwyd sylw i ymdrechion parhaus i ymladd twyll, yn enwedig mewn perthynas â’r Dreth Gyngor, ynghyd â’r posibilrwydd o ganfod twyll yn well trwy ddefnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial. Nododd y Pwyllgor y byddai’n derbyn adroddiad ar y cynnydd yn flynyddol a thrafodwyd ffurfio gweithgor atal twyll, os yw’r Tîm Arweinyddiaeth yn cytuno, er mwyn nodi risgiau twyll yn well.

## Archwilio Mewnol

68. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor (3.4.8.10.1). Trwy adolygu'r Strategaeth Archwilio Mewnol, yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a'r Siarter Archwilio Mewnol, yn ogystal â diweddariadau

rheolaidd gan y Pennaeth Archwilio a Risg, mae'r Pwyllgor wedi goruchwylio annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb yr adran archwilio mewnol, cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo'r defnydd effeithiol a wneir o archwiliadau mewnol o fewn fframwaith sicrwydd y Cyngor (3.4.8.10.2).

69. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2024, ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24, gan gynnwys barn y Pennaeth Archwilio a Risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15). Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod hi o'r farn fel 'prif swyddog archwilio' Cyngor Sir Ynys Môn, bod fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad wedi bod yn ddigonol ac effeithiol yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024.

70. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â nifer o feysydd, gan gynnwys darparu adnoddau ar gyfer archwilio mewnol, y risg o ran fforddiadwyedd tai, graddfeydd sicrwydd a ddefnyddir gan archwilio mewnol a matrics asesu risgiau strategol y Cyngor, nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

71. Fel rhan o'i hadroddiad blynyddol, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg ganlyniad yr hunanasesiad blynyddol oedd yn arfarnu cydymffurfiaeth barhaus â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (3.4.8.10.11/13). Nododd y Pwyllgor gynnydd wrth fynd i'r afael â'r meysydd gwella a nodwyd, ac roedd yr holl weithredoedd, namyn un, wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.

72. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol, sydd yn diffinio gweithgareddau, pwrpas, awdurdod a chyfrifoldebau archwilio mewnol (3.4.8.10.2), yn ogystal ag amlinellu'r mesurau diogelu a roddwyd ar waith i gyfyngu ar amhariadau ar annibyniaeth a gwrthrychedd yn deillio o rolau a chyfrifoldebau ychwanegol y Pennaeth Archwilio a Risg nad ydynt yn ymwneud ag archwilio mewnol.

73. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Siarter Archwilio Mewnol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024.

74. Yn dilyn cyflwyno'r safonau newydd, sef Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, o 1 Ebrill 2025, cynhaliodd y Pennaeth Archwilio a Risg adolygiad eang o'r Siarter Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r safonau newydd. Cyflwynir canlyniad y gwaith hwn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025.

75. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol hefyd am gymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol flynyddol (3.4.8.10.1/3/4/5), sydd yn penderfynu ar flaenoriaethau gweithgareddau archwilio mewnol, yn unol â nodau'r sefydliad. Yn yr un modd â'r uchod, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cynnal dadansoddiad o'r bylchau, gan ystyried darpariaethau'r safonau newydd, Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, er mwyn sicrhau fod y Strategaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r safonau newydd. Cyflwynir y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025.

76. Drwy gydol y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar weithgareddau archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, meysydd pryder, ymateb rheolwyr a'r camau gweithredu oedd ar y gweill o ganlyniad i waith archwilio mewnol (Gorffennaf, Medi, Rhagfyr 2024 a Chwefror a Mai 2025). Ystyriodd y Pwyllgor grynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn, gan gynnwys copïau llawn o adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig, ynghyd â'r cynllun gweithredu a gytunwyd gyda'r rheolwyr (3.4.8.10.9/10).

77. Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt trwy dderbyn dau adroddiad, un ym mis Medi 2024 a'r llall ym mis Mai 2025 (3.4.8.10.9). Ystyriodd y Pwyllgor berfformiad y Cyngor a statws yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cwblhau a godwyd gan archwilio mewnol, gan gynnwys crynodebau manwl o gynnydd wrth fynd i'r afael â materion/risgiau/cyfleoedd 'sylweddol/ambr'.

78. Mae’r Pwyllgor a’r Pennaeth Archwilio a Risg yn gweithio / ymwneud yn dda â’i gilydd (3.4.8.10.15). Yn benodol, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob amser ar gael i’r Pennaeth Archwilio a Risg, ac roedd hynny’n cynnwys cyfle i gael cyfarfod preifat â’r Pwyllgor os yw’n gofyn. (3.4.8.10.15).

# Archwilio Mewnol:

79. Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r trefniadau archwilio allanol ac yn ystyried cwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol.

80. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2024, derbyniodd y Pwyllgor Gynllun manwl Archwilio Cymru ar gyfer 2024, oedd yn nodi’r gwaith yr oedd yn bwriadu ei gyflawni mewn perthynas â’r archwiliad ariannol, y rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â’r amserlen adrodd (3.4.8.11.1/3).

81. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu manylion am y tîm archwilio a’r ffi archwilio ar gyfer y gweithgareddau a nodwyd. (3.4.8.11.3).

82. Ystyriodd y Pwyllgor lythyr blynyddol yr archwilydd allanol ac adroddiad ISA 260 i’r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (3.4.8.11.1/2) yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2024. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â chadarnhau bod yr archwiliad o’r datganiadau ariannol wedi’i gwblhau, terfynau amser a’u heffaith ar staff cyllid sydd yn arwain at wallau, ac eglurhad ynglŷn â gwariant cyfalaf a refeniw, penderfynwyd nodi adroddiad yr archwilydd allanol ar ei archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2023-24.

83. Yn ei gyfarfod ym mis Mai 2025, penderfynodd y Pwyllgor nodi adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2024, oedd yn dangos crynodeb o ganlyniad pob darn o waith a gwblhawyd.

84. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau chwarterol yn ystod y flwyddyn (ym mis Mehefin, Medi, Rhagfyr 2024 a Mai 2025) ac adroddiadau archwilio allanol, gan gynnwys archwiliad o broses y Cyngor ar gyfer pennu amcanion llesiant (Mehefin 2024) a dau adroddiad oedd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol ac a oedd yn cynnwys adolygiad cenedlaethol ac adroddiad penodol ar Gyngor Sir Ynys Môn (Chwefror 2025) (3.4.8.12.5).

85. Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro’r gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiadau archwilio allanol a derbyn adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ym mis Rhagfyr 2024, oedd yn nodi sut mae’r Cyngor wedi ymateb i adroddiadau archwilio allanol ynglŷn â’r Cyngor ac adolygiadau cenedlaethol a’u hargymhellion cysylltiedig (3.4.8.11.3).

86. Ni chafodd y Pwyllgor ei gymell i wneud unrhyw argymhellion ynglŷn ag effeithlonrwydd y berthynas rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol ac asiantaethau arolygu eraill, neu gyrff perthnasol, yn ystod y flwyddyn (3.4.8.11.4).

87. Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn breifat ac ar wahân gydag archwilwyr allanol a mewnol heb swyddogion yn bresennol, yn dilyn ei gyfarfod ym mis Mai 2025 (3.4.8.2.6 / 3.4.8.11.5).

# Adroddiadau ariannol

88. Mae'r Pwyllgor yn adolygu a chraffu ar faterion ariannol y Cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â nhw (3.4.8.12.1). Mae’n monitro’r trefniadau a’r paratoadau ar gyfer paratoi adroddiadau ariannol er mwyn sicrhau fod gofynion statudol a safonau proffesiynol yn cael eu cyflawni (3.4.8.12.2).

89. Cyn i’r Cyngor llawn ei gymeradwyo, adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol drafft a therfynol blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2023-24 (Gorffennaf a Thachwedd 2024 yn y drefn honno), gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfio â pholisïau a phrosesau cyfrifeg a meysydd dyfarnu o bwys (3.4.8.12.3).

90. Wrth ystyried y datganiadau ariannol drafft ym mis Gorffennaf 2024, trafododd y Pwyllgor sawl ffactor, gan gynnwys balansau

ysgolion, tystysgrifau Adroddiad Cyflwr Gosodiad Trydanol a rhwymedigaethau ariannol posib, cynnydd mewn credydwyr tymor byr oherwydd oedi yn y broses anfonebu ac anghysonderau mewn grantiau cyfalaf. Craffwyd hefyd ar y Cyfrif Refeniw Tai a'i gronfeydd, gan gynnwys y defnydd o gyfraniadau Adran 106, gorwariant yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb a chategoreiddio gwariant sy'n cael ei gyfalafu.

91. Trafodwyd hefyd bod y cyfrifon yn gymhleth i'r cyhoedd eu deall, a thrafodwyd eu dealltwriaeth o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r cyngor ac roedd cais am gael adolygu'r term 'cyfalafu' yn gysylltiedig â swm penodol yn y cyfrifon, ac yn dilyn hynny penderfynodd y Pwyllgor nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft heb eu harchwilio ar gyfer 2023-24.

92. Trafododd y Pwyllgor adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant' ar faterion yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon ac a ddylid eu dwyn i sylw'r Cyngor (3.4.8.12.4/5) yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2024.

93. Yn dilyn trafodaeth (gweler Archwilio Allanol uchod), penderfynodd y Pwyllgor nodi Adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2023-24.

## Delio â chwynion

94. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ddelio'n effeithiol â chwynion (3.4.8.14.1).

95. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar Bryderon a Chwynion ar gyfer 2023-24 oedd yn nodi materion yn codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor, ynghyd â nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a wnaethpwyd o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

96. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar ddefnydd o'r system CRM fel modd i wasanaethau reoli'r broses gwynion, adrodd ar gwynion y gwasanaethau cymdeithasol a'r amser y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ei gymryd i gwblhau ymchwiliadau ar ôl derbyn cwyn yn erbyn aelod etholedig. Derbyniodd y Pwyllgor hefyd ddiweddariad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai gan fod y gwasanaeth hwnnw wedi gweld nifer uchel o bryderon a chwynion yn ystod y cyfnod. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

97. Derbyniodd y Pwyllgor Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023-24 yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024. Roedd y ddogfen yn amlinellu'r gwaith a wnaethpwyd gan OGCC mewn perthynas â chwynion yn ystod cyfnod o 12 mis, yn ogystal â chrynodeb o berfformiad y Cyngor yn y maes hwn (3.4.8.13.1).

98. Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Pwyllgor nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol 2023-24 ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC i gadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol a darparu sicrwydd y byddai'r Cyngor yn parhau i fonitro cwynion, a thrwy hynny, ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor (3.4.8.1.3 / 3.4.8.14.2).

## Adroddiad hunanasesu

99. Yn ystod bob blwyddyn ariannol, bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad hunanasesiad drafft gan y Cyngor, a luniwyd yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (3.4.8.1.3 / 3.4.8.15.1).

100. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024, ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft 2023-24 oedd yn darparu asesiad ar sail tystiolaeth o berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio'r adnoddau oedd ar gael ac wrth reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. (3.4.8.1.4)

101. Wrth adolygu'r adroddiad, nododd y Pwyllgor ei fod yn cynnwys elfen o wrthddweud gan fod cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu wedi cael eu hasesu'n uchel, ond nodwyd bod gwydnwch ariannol angen ei wella oherwydd pwysau economaidd allanol a heriau'n gysylltiedig â'r gweithlu. Cafwyd trafodaethau hefyd am ddull y Cyngor o reoli risg a'i ddyhead i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella (3.4.8.4.4).

102. Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad hunanasesiad drafft ar gyfer 2023-24 ac argymell bod y Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo (3.4.8.15.1/2/3/4).

## Asesiad perfformiad panel

103. O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad perfformiad panel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredinol i ethol Cynghorwyr i'r Cyngor. Fe all y Cyngor ddewis comisiynu asesiad perfformiad panel fwy nag unwaith o fewn cylch etholiadol, ond nid yw hynny'n ofynnol o dan y ddeddf (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

104. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei ymateb drafft i'r panel asesu ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo wedyn adolygu'r ymateb drafft a chaiff argymell unrhyw newidiadau i'r ymateb i'r panel asesu (3.4.8.4.3 / 3.4.8.16.1/2/3/4).

105. Ni chynhaliwyd asesiad perfformiad panel yn ystod 2024-25. Fodd bynnag, bwriedir cynnal asesiad perfformiad panel yn ystod 2025-26.

## Archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol

106. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad arbennig o'r Cyngor (os yw'n ystyried bod y Cyngor yn methu, neu y gallai fod yn methu, â bodloni'r gofynion perfformiad).

107. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

108. Rhaid i ymateb drafft y Cyngor fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo ei adolygu. Fe all y Pwyllgor argymell newidiadau i'r ymateb, yn cynnwys camau arfaethedig gan y Cyngor. Os na caiff argymhellion y Pwyllgor eu mabwysiadu gan y Cyngor cyn cyhoeddi'r ymateb, rhaid cynnwys yr argymhellion yn yr ymateb, yn ogystal â rhesymau'r Cyngor dros beidio â gwneud y newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor (3.4.8.17.1/2/3).

109. Ni chynhaliwyd adolygiad arbennig o'r Cyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2024-25.

# Atodiad A – Amlder cyfarfodydd a phresenoldeb

| Aelodau | 27/06/24 | 18/07/24 | 19/09/24 | 27/11/24 | 05/12/24 | 11/02/25 | 08/05/25 | Cyfarfodydd a fynychwyd (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **100** |
| **Y Cynghorydd Euryn Morris (Is-gadeirydd)** | Ymddiheuriadau | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | **57** |
| **Y Cynghorydd Geraint ap Bebb** | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **86** |
| **Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones[4]** | Na | ✓ | Ymddiheuriadau | - | - | - | - | **33** |
| **Mr William Parry (Aelod Lleyg)** | ✓ | ✓ | ✓ | Na | ✓ | ✓ | ✓ | **86** |
| **Y Cynghorydd Keith Roberts** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Na | ✓ | ✓ | **86** |
| **Y Cynghorydd Kenneth Hughes[5]** | - | - | - | - | - | Ymddiheuriadau | ✓ | **50** |
| **Y Cynghorydd Margaret M. Roberts** | Na | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **86** |
| **Mrs Sharon Warnes (Aelod Lleyg)[6]** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | - | **100** |
| **Mr Michael Wilson (Aelod Lleyg)** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Na | **86** |
| **Y Cynghorydd Liz Wood[5]** | Ymddiheuriadau | Na | Ymddiheuriadau | Na | Ymddiheuriadau | - | - | **0** |
| **Y Cynghorydd Aled Morris Jones[5]** | - | - | - | - | - | ✓ | Ymddiheuriadau | **50** |
| **Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Na | Na | Na | **0** |
| **Y Cynghorydd Ieuan Williams** | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **86** |
| **Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **100** |
| **Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor[7]** | **8** | **12** | **8** | **10** | **8** | **11** | **9** | **65% (cyfartaledd)** |



[4] Gadawodd y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref 2024, er mwyn ymuno â'r Pwyllgor Gwaith.
[5] Ym mis Chwefror 2024, gadawodd y Cynghorydd Liz Wood y Pwyllgor ac ymunodd y Cynghorwyr Kenneth Hughes ac Aled Morris Jones y Pwyllgor.
[6] Bu farw Mrs Sharon Warnes cyn y cyfarfod ar 8 Mai 2025.
[7]Mae'r Pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a phedwar aelod lleyg, yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor. Ni fydd Aelodau Etholedig yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, cyn belled ag y bo'n bosib, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor.

# Atodiad B – Hyfforddiant Aelodau Cyfredol 2022-25 a Gwybodaeth a Rannwyd

| | | Mr Dilwyn Evans (ALI) (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Euryn Morris (Is-gadeirydd) | Y Cynghorydd Geraint ap Bebb | Mr William Parry (ALI) | Y Cynghorydd Keith Roberts | Y Cynghorydd Margaret Roberts | Mrs Sharon Warnes (ALI) | Mr Michael Wilson (ALI) | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes | Y Cynghorydd Ieuan Williams | Y Cynghorydd Kenneth Hughes | Y Cynghorydd Aled Morris Jones | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Penodol i'r Pwyllgor | **Cynefino** | 23/06/22 | 23/06/22 | 23/06/22 | Ymddiheuriadau | 23/06/22 | 23/06/22 | 23/06/22 | 23/06/22 | 11/05/22 | 11/05/22 | - | 20/05/22 | **10/12 (83%)** |
| | **Datganiadau Ariannol** | 13/07/22 | 13/07/22 | 13/07/22 | Absennol | 13/07/22 | Ymddiheuriadau | 13/07/22 | 13/07/22 | 19/05/22 | 19/05/22 | - | - | **8/12 (67%)** |
| | **Cwynion** | 09/09/22 | 09/09/22 | 09/09/22 | 09/09/22 | 09/09/22 | (21/07/21) | 09/09/22 | 09/09/22 | - | - | - | - | **8/12 (67%)** |
| | **Rheoli Trysorlys** | 14/09/22 15/09/23 | 14/09/22 15/09/23 | Ymddiheuriadau | Absennol | 14/09/22 | 15/09/23 | 14/09/22 | 14/09/22 15/09/23 | - | - | (07/11/19) | - | **7/12 (58%)** |
| | **Deall Cyfrifon Awdurdod Lleol i Gynghorwyr** | 22/06/23 | - | 24/08/23 | - | - | - | - | 22/06/23 | - | - | - | - | **3/12 (25%)** |
| | **Sgiliau Cadeirio Effeithiol** | 17/10/23 | 11/10/23 | 11/10/23 | 17/10/23 | - | - | 17/10/23 | 11/10/23 | 23/03/23 | 23/03/23 | - | - | **8/12 (67%)** |
| | **Atal Twyll a Llygredd** | 04/12/23 | - | 04/12/23 | 04/12/23 | 04/12/23 | 04/12/23 | 04/12/23 | 04/12/23 | - | 04/12/23 | - | - | **8/12 (67%)** |
| | **Rheoli Risg** | 13/03/24 | - | - | - | - | - | 19/03/24 | 19/03/24 | - | - | - | - | **3/12 (25%)** |
| | **Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risgiau** | 11/02/25 | 11/02/25 | 11/02/25 | 11/02/25 | 11/02/25 | 11/02/25 | 11/02/25 | 11/02/25 | - | 11/02/25 | - | 11/02/25 | **05/12/24** |
| Gorfodol | **Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)** | 05/09/22 | 07/09/22 | 16/11/23 | - | 07/09/22 | 15/11/23 | 19/10/22 | (22/02/19) | 16/11/23 | 16/11/23 | 19/11/24 | 16/11/23 | **11/12 (92%)** |
| | **Ymwybyddiaeth Seiber[8]** | 12/05/22 | 18/05/22 | 12/05/22 | - | 11/05/22 | 11/05/22 | 12/05/22 | 12/05/22 | 11/05/22 | 11/05/22 | - | 12/05/22 | **10/12 (83%)** |
| | **Ymwybyddiaeth Diogelu Sylfaenol** | - | 20/09/22 | 27/11/23 | - | 20/09/22 | 20/09/22 | - | - | 27/11/23 | 20/09/22 | - | 20/09/22 | **7/12 (58%)** |
| | **Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol*** | Dewisol | 12/06/22 | 29/09/22 | Dewisol | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Dewisol | (21/12/17) | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | **3/8 (38%)** |
| | **Prevent*** | 12/09/19 | 12/06/22 | 19/05/24 | Dewisol | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Dewisol | Dewisol | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | **3/8 (38%)** |
| | **Caethwasiaeth Fodern*** | Dewisol | 07/09/23 | 19/05/24 | Dewisol | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Dewisol | Dewisol | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | **2/8 (25%)** |
| **Cyfanswm Presenoldeb / Cwblhau** | | **92%** | **80%** | **87%** | **33%** | **60%** | **53%** | **83%** | **92%** | **40%** | **53%** | **13%** | **33%** | |

Tudalen 79

---

[8]Roedd ymwybyddiaeth seiber yn rhan o hyfforddiant rhagarweiniol ar gyfer carfan newydd o aelodau'r Cyngor ym mis Mai 2022.
* Dewisol ar gyfer aelodau lleyg.

## Gwybodaeth Benodol i'r Pwyllgor a Rannwyd

| Teitl | Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Cyflwyno |
|---|---|---|---|---|
| *Audit Committee Update* - Rhifyn 40: Safonau Archwilio Mewnol Newydd | Newidiadau sydd ar y gweill i'r safonau archwilio mewnol a'u heffaith ar aelodau pwyllgorau archwilio. | Newyddlen | CIPFA | 24/12/24 |
| Newyddlen '*Better Governance*' CIPFA | Gwybodaeth ar gyfer pwyllgorau archwilio ynglŷn â chyhoeddi Cod Ymarfer CIPFA, er mwyn cynorthwyo awdurdodau i sefydlu a chynnal eu trefniadau archwilio mewnol, ynghyd â gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar yr Adendwm i Fframwaith Llywodraethu 2016 mewn perthynas â'r adolygiad llywodraethu blynyddol a'r datganiad llywodraethu blynyddol. | Newyddlen | CIPFA | 07/02/25 |
| Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol | Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canllawiau poced sy'n crynhoi arferion effeithiol ar gyfer pwyllgorau archwilio. | Canllawiau poced | Archwilio Cymru | 25/02/25 |
| *Audit Committee Update* - Rhifyn 42: Llywodraethu Archwilio Mewnol | Y Cod Ymarfer newydd ar Lywodraethu Archwilio Mewnol a ddaw i rym o 1 Ebrill 2025. | Newyddlen | CIPFA | 17/04/25 |
| Erthygl yng nghylchgrawn *Public Finance* CIPFA - *AI adoption 'could save English and Welsh councils £8bn a year'* | Erthygl sy'n amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr arbed £8bn y flwyddyn trwy ymgorffori deallusrwydd artiffisial yn eu gweithredoedd. | Erthygl mewn Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/05/25 |
| CIPFA / Solace *Delivering Good Governance in Local Government:* Cyhoeddi Adendwm | Cyhoeddi canllawiau newydd ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethiant a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol a ddaw i rym ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26. | Cyhoeddiad | CIPFA | 20/05/25 |

# Atodiad C – Crynodeb o Ganlyniadau Cyfarfodydd

| Dyddiad: | Canlyniad y cyfarfod: |
|---|---|
| **27 Mehefin 2024** | Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried **wyth** eitem o bwys.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor yr **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24**. Darparodd yr adroddiad sicrwydd i'r Pwyllgor, ynghyd â barn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg, fod gan y Cyngor fframwaith digonol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys fforddiadwyedd tai a darparu adnoddau ar gyfer archwilio mewnol.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor ei **Gylch Gorchwyl** diwygiedig a'i gymeradwyo. Roedd y cylch gorchwyl wedi'i symleiddio yn seiliedig ar argymhellion a wnaed gan CIPFA fel rhan o'i adolygiad effeithlonrwydd. Derbyniodd y Pwyllgor hefyd **ddiweddariad ar gynnydd** wrth roi gweddill argymhellion CIPFA o'r adolygiad hwn ar waith. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys lliniaru risgiau a Deallusrwydd Artiffisial (AI), ac fe wnaeth y Pwyllgor gymeradwyo cynnydd ac amserlennu diweddariad pellach ymhen chwe mis.<br>Cymeradwyodd y Pwyllgor **Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer 2023/24** hefyd, a'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar ôl gwneud newid bychan i'r cofnod hyfforddiant yn Atodiad B yn y ddogfen.<br><br>Darparodd Archwilio Cymru ddiweddariad ar ei **raglenni gwaith** ar gyfer ei waith cyllid a pherfformiad hyd at 31 Mawrth 2024, ynghyd â'i **gynllun archwilio manwl** ar gyfer 2024. Roedd hyn yn cynnwys amserlen ar gyfer archwilio datganiadau ariannol, gwaith archwilio a gynlluniwyd a ffioedd archwilio arfaethedig. Ystyriodd y Pwyllgor **adroddiad Archwilio Cymru hefyd ar broses y Cyngor ar gyfer gosod amcanion llesiant**. Yn dilyn cais i gadarnhau'r gwahaniaeth rhwng unigolion di-waith ac unigolion economaidd anweithgar, nododd y Pwyllgor yr adroddiad a gofynnwyd am gael cynnwys 'economaidd anweithgar' fel rhan o ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor.<br><br>Adolygodd y Pwyllgor weithredoedd cyfarfodydd blaenorol ac roedd y Pwyllgor yn fodlon â nhw. Roedd y Pwyllgor hefyd yn hapus i dderbyn y **Flaen Raglen Waith** fel y'i cyflwynwyd. |
| **18 Gorffennaf 2024** | Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried **pum** eitem o bwys.<br><br>Adolygodd y Pwyllgor y **Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-2024** a chanolbwyntiodd y drafodaeth ar nifer o bryderon allweddol, gan gynnwys balansau ysgolion, yn enwedig yr ysgolion sydd â diffyg ariannol, tystysgrifau Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol ac atebolrwydd ariannol posibl, cynnydd mewn credydwyr tymor byr oherwydd oedi wrth godi anfonebau, ac anghysonderau gyda grantiau cyfalaf. Craffwyd hefyd ar y Cyfrif Refeniw Tai a'i gronfeydd, gan gynnwys y defnydd o gyfraniadau Adran 106, gorwariant yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb a chategoreiddio gwariant oedd wedi cael ei gyfalafu. Nododd y Pwyllgor bod incwm y Dreth Gyngor wedi cynyddu, yn rhannol oherwydd newidiadau ym mhremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi. Mynegodd y Pwyllgor bryderon bod y cyfrifon yn rhy gymhleth i'r cyhoedd, y gallai pwysau ariannol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol, herio gwydnwch y Cyngor a gofynnwyd am adolygiad o'r term 'cyfalafu' mewn perthynas â swm penodol yn y cyfrifon.<br><br>Cafodd y Pwyllgor drafodaeth mewn perthynas â'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2023-2024**, gan amlygu pryderon ynghylch amserlen y Cyngor ar gyfer cydymffurfio â'r Ddeddf Caffael 2023 newydd, diffyg hyfforddiant ar y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, oedd wedi'i nodi fel mater heb ei ddatrys, a chyfyngiadau o ran adnoddau sy'n effeithio ar waith rheoli asedau ac adolygiadau effeithlonrwydd. Adolygodd y Pwyllgor hefyd yr **Adroddiad Hunanasesiad Corfforaethol Blynyddol drafft ar gyfer 2023-2024** a nododd bod elfen o wrthddweud gan fod cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu wedi cael eu hasesu'n uchel, ond nodwyd bod gwydnwch ariannol angen ei wella oherwydd pwysau economaidd allanol a heriau'n gysylltiedig â'r gweithlu. Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan y Pwyllgor a chafodd ei argymell i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn ei gymeradwyo. |

| | |
|---|---|
| | Yn dilyn derbyn diweddariad ar y tri **archwiliad mewnol**, codwyd pryderon am y cyferbyniad rhwng y gwerthusiad cadarnhaol ar gaffael a rheoli contract yn yr Hunanasesiad Corfforaethol a'r materion caffael a amlygwyd yn yr archwiliad o Reoli Cyflenwyr TG, capasiti Archwilio Mewnol a chost effeithiolrwydd wrth allanoli arbenigedd. Trafodwyd materion yn ymwneud â phrosesau incwm y Tîm Morwrol mewn sesiwn breifat.<br><br>Adolygodd y Pwyllgor ganlyniadau'r **Fenter Twyll Genedlaethol** ac roedd yn cydnabod bod cynnydd wedi digwydd a bod arbedion posibl o £3,838 wedi'u gwneud, ond nodwyd y gallai diffyg adnoddau lesteirio ymdrechion atal twyll.<br><br>Yn olaf, adolygodd y Pwyllgor weithredoedd o gyfarfodydd blaenorol ac roedd y Pwyllgor yn fodlon â nhw. Roedd y Pwyllgor hefyd yn hapus i dderbyn y Flaen Raglen Waith a gyflwynwyd. |
| **19 Medi 2024** | Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried **saith** eitem o bwys.<br><br>Derbyniodd a chymeradwyodd y Pwyllgor ddatganiad yr **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth** a throsolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor â'r fframweithiau cyfreithiol yn ystod 2023-24, megis GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), a rheoliadau eraill. Roedd y prif faterion yn cynnwys cyswllt y Cyngor â rheoleiddwyr allanol, digwyddiadau diogelwch a thor-diogelwch data. Ar gais y Cadeirydd cafodd swyddogion o'r gwasanaeth Dysgu, Gwarchod y Cyhoedd, Adnoddau a Thechnoleg Gwybodaeth eu gwahodd i egluro pam bod ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi derbyn ymateb hwyr. Roedd y rhesymau'n cynnwys diffyg adnoddau, ceisiadau cymhleth a'r galw am wasanaeth. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am ddyrannu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, delio â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth tra'n aros i wirio hunaniaeth yr unigolyn, a sicrhau bod sefydliadau trydydd parti'n cydymffurfio â'r GDPR pan fydd y Cyngor yn allanoli gwasanaethau yn ymwneud â phrosesu data personol.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor **Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor a'r datgeliadau Chwythu'r Chwiban** ar gyfer 2023-24, a oedd yn cynnwys trosolwg o'r modd y caiff cwynion eu trin a diweddariad ar y gwaith o ddatblygu'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) fel y gellir tracio cwynion mewn amser real. Ar gais y Cadeirydd, eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai bod y Gwasanaethau Tai wedi derbyn mwy o gwynion yn sgil cyswllt arferol y gwasanaeth â'r cyhoedd a dywedodd bod gwelliannau ar y gweill, yn enwedig o ran cyfathrebu. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn bod yr adroddiad yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r polisïau a nodi'r gwersi a ddysgwyd. Gofynnodd a fyddai modd cynnwys prif benawdau'r cwynion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn adroddiadau yn y dyfodol a phenderfynodd roi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am bryder y Pwyllgor ynglŷn â'r amser y mae'n ei gymryd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ddod i benderfyniad ynglŷn â chwynion yn erbyn aelodau.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor adolygiad o'r **gweithgareddau rheoli trysorlys ar gyfer 2023-24**, a oedd yn trafod y prif faterion ac yn cymharu perfformiad y Cyngor yn erbyn Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023-24 a Dangosyddion Darbodus. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr amlinellu'r ffactorau allanol, gwariant a chyllid cyfalaf y Cyngor, y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, benthyciadau, buddsoddiadau a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus, a chadarnhaodd bod y Cyngor yn perfformio'n unol â'r Strategaeth. Holodd y Pwyllgor ynglŷn â'r gostyngiad ym malansau ysgolion (o £6.7m i £5.5m) a sut y byddai hynny'n effeithio ar ysgolion yn y dyfodol. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith gyda gweithred ychwanegol, sef y dylid gwirio'r adroddiad i sicrhau cysondeb o ran amser y ferf a gwneud yn siŵr bod yr adroddiad yn eglur.<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried adroddiad ar weithgareddau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i liniaru'r **risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd** o fewn y Cyngor yn ystod 2023-24. Roedd yr adroddiad yn mesur pa mor effeithiol yw mesurau atal twyll y Cyngor a'r cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ac roedd yn amlygu'r risgiau twyll presennol a'r heriau i'r dyfodol. Cafodd cynllun gweithredu ar gyfer 2022-2025 ei gynnwys hefyd. Trafododd y Pwyllgor a ddylid sefydlu fersiwn lleol o'r gweithgor atal twyll rhanbarthol (sy'n rhan o Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru), a sut y gallai'r system CRM, a'r rhaglen STAR i wella prosesau caffael, gefnogi'r gwaith atal twyll. Penderfynodd y pwyllgor bod yr adroddiad yn darparu sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau effeithio ar gyfer lliniaru'r risg o dwyll.<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried yr **archwiliadau mewnol** a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, ynghyd â llwyth gwaith cyfredol a blaenoriaethau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y dyfodol agos. Rhannwyd dau adroddiad sicrwydd â'r Pwyllgor: un ar Reoli Taliadau Debyd Uniongyrchol a'r llall ar drefniadau parhaus i Fonitro Taliadau Dyblyg ac roedd y ddau adroddiad yn darparu 'Sicrwydd Rhesymol'. Nododd y Pwyllgor gynnydd gan y Tîm Taliadau o ran lleihau taliadau sy'n |

Tudalen 82

| | |
|---|---|
| | cael eu dyblygu a'r broses ar gyfer adennill taliadau sy'n cael eu gwneud ddwywaith gan gyflenwyr, a gofynnodd am eglurder ynghylch y broses ar gyfer delio â dyledion drwg, yn cynnwys sut y caiff darpariaethau eu haddasu a'u cofnodi yn y cyfrifon.<br><br>Hefyd, ar ôl derbyn diweddariad ar statws y materion/risgiau a chyfleoedd a nodwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y Cyngor yn gwneud cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r **camau gweithredu oedd yn weddill**.<br><br>Roddodd Archwilio Cymru ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y **rhaglen waith a'r amserlen** fel ag yr oedd pethau ym mis Mehefin 2024, ynghyd â gwaith rheoleiddio Estyn ac AGC. Nododd y Pwyllgor y bydd yr Adolygiad Thematig ar Ofal Heb ei Drefnu yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym mis Tachwedd, ac y bydd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol.<br><br>Yn olaf, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu hynt y camau gweithredu yn dilyn y cyfarfod diwethaf ac roedd yn fodlon â'r cynnydd a wnaed. Roedd hefyd yn fodlon derbyn y Blaen Raglen Waith arfaethedig ond fe nododd ei bod hi'n bosib y bydd yn rhaid cael cyfarfod ychwanegol ym mis Tachwedd er mwyn cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig. |
| **27 Tachwedd 2024** | Ystyriodd y Pwyllgor **un** eitem o bwys yn ystod y cyfarfod arbennig hwn a gynhaliwyd er mwyn ystyried y **Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2023/24**, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac adroddiad yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2023/24 (Adroddiad ISA 260).<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 y byddai'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig yn cael ei lofnodi ar ôl iddo gael ei adolygu gan y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2024, gan fethu'r terfyn amser ar 30 Tachwedd 2024 o ychydig ddyddiau. Ar ôl eu cyflwyno ar gyfer eu harchwilio ar 28 Mehefin 2024, cadarnhaodd Archwilio Cymru bod y datganiadau ariannol yn cynrychioli sefyllfa ariannol y Cyngor yn gywir fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024. Argymhellwyd rhai newidiadau a chawsant eu gweithredu gan y Cyngor, ond nid oeddynt yn effeithio ar y tanwariant o £1.732m a nodwyd yn ystod mis Gorffennaf 2024. Bu i'r Swyddog Adran 151 dywys y Pwyllgor drwy'r addasiadau, gan gadarnhau bod mwyafrif y newidiadau'n ymwneud â'r fantolen a gwariant yn gysylltiedig ag incwm grantiau, nad oedd yn cael unrhyw effaith ar refeniw. Mynegodd ei werthfawrogiad i dîm Cyllid y Cyngor ac Archwilio Cymru am eu hymdrechion.<br><br>Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24 yn amlygu bod pedwar allan o bump o'r gwendidau llywodraethu o'r flwyddyn flaenorol wedi'u datrys, a bod gwaith yn mynd rhagddo ar un arall. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch ymarferoldeb sicrhau bod asedau'r Cyngor yn addas i'r diben o ystyried y pwysau ar arian cyfalaf. Nodwyd bod cyflawni'r amcan hwn yn uchelgeisiol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'r Cyngor wedi ymdrechu i symleiddio prosesau a digideiddio gweithrediadau er mwyn lleihau costau a gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a wnaed, yn ogystal â chydnabod yr heriau ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r Cyngor.<br><br>Cadarnhaodd Archwilio Cymru bod y broses archwilio yn ddidrafferth a bod cyfrifon a phapurau gwaith o ansawdd wedi'u darparu. Y disgwyl oedd y byddai'r archwilydd yn darparu barn archwilio ddiamod, a byddai'r cyfrifon yn cael eu hardystio ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2024. Cadarnhawyd bod yr addasiadau'n ymwneud ag amserlenni cyfyngedig yn hytrach na phroblemau systematig. Cafodd addasiad pensiwn sylweddol o £71.145 miliwn ei gywiro, ond ni chafodd hynny effaith ar y Fantolen na'r Gronfa Gyffredinol.<br>Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn materion oedd yn weddill, pwysau amser ar y staff Cyllid ac a ddylid ymestyn terfynau amser adrodd. Roedd yr argymhellion yn cynnwys defnyddio terminoleg fwy clir ar gyfer monitro cyllidebau a gwariant cyfalaf yn yr adroddiad naratif.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon archwiliedig ar gyfer 2023/24, ac argymhellwyd eu bod y cyfrifon yn cael eu llofnodi gan Gadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Adran 151. Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 fel gwerthusiad teg o drefniadau llywodraethu. Nodwyd Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru.<br><br>Ar ddiwedd y cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i bawb a gyfrannodd at y gwaith paratoi a'r broses archwilio ac roedd yn cydnabod eu hymdrechion a'u hagwedd broffesiynol. |

| | |
|---|---|
| **5 Rhagfyr 2024** | Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried **12** eitem o bwys.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod yr holl gamau gweithredu yn **Log Gweithredoedd** y Pwyllgor yr oedd angen eu cwblhau wedi'u cwblhau, yn cynnwys derbyn cadarnhad gan y Pwyllgor y byddai Prif Swyddog Digidol y Cyngor yn darparu briff i'r Pwyllgor ar y risgiau a'r mesurau lliniaru yn gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial am 1 o'r gloch y prynhawn ar 11 Chwefror 2025, sef yn union o flaen y cyfarfod nesaf. Fe wnaeth y Pwyllgor nodi diweddariad y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol ar waith i fonitro anweithgarwch economaidd o fewn setiau data tueddiadau poblogaeth y Cyngor a chynnydd mewn perthynas â materion llywodraethu a nodwyd yn yr asesiad ar gyfer 2023/24.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor enwebu cynrychiolwyr i wasanaethu ar **Bwyllgor Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**. Enwebwyd y Cynghorydd Geraint Bebb fel prif aelod, a'r Cynghorydd Keith Roberts fel eilydd, a Mrs. Sharon Warnes fel aelod lleyg.<br>Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu a derbyn y **Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023/24**, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro. Roedd y llythyr yn asesu perfformiad y Cyngor wrth ymdrin â chwynion gwasanaeth ac roedd yn cynnwys data ynglŷn ag ymyraethau'r Ombwdsmon a chwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad i Aelodau. Roedd y prif bwyntiau a godwyd yn cynnwys y cynnydd mewn cwynion, y ganran uchel o ymyraethau gan OGCC a'r ffaith bod y rôl Swyddog Cwynion yn wag. Er nad oedd angen cynnal unrhyw ymchwiliadau a bod y cwynion yn rhai cyffredinol i raddau helaeth, rhoddwyd sicrwydd y gallai materion fod wedi cael eu datrys yn fwy effeithiol drwy ymyrraeth gynnar. Bydd y dull o ymdrin â chwynion yn dal i gael ei fonitro fel y gellir craffu yn effeithiol, a bydd ddiweddariadau cynnydd ar y mesurau datrys a nodwyd yn cael eu darparu i'r Pwyllgor maes o law.<br><br>Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â'r diweddariad ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan **CIPFA yn dilyn ei adolygiad o effeithlonrwydd y Pwyllgor yn 2024**. Amlygwyd bod 7 o gamau wedi cael eu gweithredu'n llawn, bod dau wedi'u cydnabod ond nad oedd angen unrhyw gamau pellach, a bod un cam yn parhau i fynd rhagddo, sef darparu hyfforddiant i swyddogion sy'n adrodd i Bwyllgorau.<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Pennaeth Archwilio a Risg yn yr adroddiad ar yr **Archwiliadau Mewnol** a gwblhawyd, llwyth gwaith a blaenoriaethau presennol yr adran, ynghyd â'r newidiadau i'r Safonau Archwilio Mewnol. Darparwyd 'Sicrwydd Rhesymol' ar gyfer y tri archwiliad - Trosolwg o Bartneriaethau, Mesurau Atal Twyll ym maes Ad-daliadau Refeniw ac Adolygiad o'r Fframwaith Asesu Seiberddiogelwch. Fe wnaeth y Pwyllgor drafod addasrwydd y mesurau atal twyll, yn benodol y risgiau'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial mewn amgylchedd gwaith hybrid, a derbyniodd rhywfaint o sicrwydd bod maint llai y Cyngor, ei fodel gweithio'n hybrid a'i arferion sy'n canolbwyntio ar bobl yn lliniaru'r risg o ymosodiadau seiber a dynwared a gynhyrchir gan Ddeallusrwydd Artiffisial.<br><br>Ar ôl adolygu'r **Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net ar gyfer 2023/24**, a oedd yn nodi cynnydd y Cyngor o ran lliniaru newid hinsawdd a chyflawni amcanion blynyddol, derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i leihau risgiau newid hinsawdd i lefel dderbyniol. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon o gymharu â'r lefelau uchaf a welwyd yn 2021/22, uwchraddio eiddo'r Cyngor gan ddefnyddio grantiau gan Lywodraeth Cymru er mwyn ei ddatgarboneiddio, adeiladu 28 o gartrefi newydd carbon niwtral, ymestyn y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan a llwybrau teithio llesol, sefydlu meithrinfa goed newydd a darparu hyfforddiant newid hinsawdd i aelodau etholedig ac uwch swyddogion. Clywodd y Pwyllgor hefyd bod y ddibyniaeth ar gyllid allanol yn risg o ran cyflawni sero net erbyn 2030. Mae datgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi hefyd yn her, gan fod allyriadau anuniongyrchol yn anoddach i'w rheoli, a bod angen gwaith pellach er mwyn adrodd ar ganlyniadau allyriadau mewnol yn erbyn perfformiad cynaliadwyedd y gadwyn gyflenwi. Mewn perthynas â hyn, gofynnodd y Pwyllgor pa ddylanwad oedd gan y Cyngor ar ei gadwyn gyflenwi a'i allu i bennu uchafswm allyriadau heb godi ofn ar ddarpar gyflenwyr, a p'un a yw'r ddibyniaeth ar gyllid grant yn debygol o arafu unrhyw gynnydd pellach pe byddai'n cael ei leihau neu dynnu'n ôl.<br>Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd gan y Swyddog Diogelu Data ynghylch **Cydymffurfiaeth Diogelu Data Ysgolion Môn** ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2023 a Thachwedd 2024, ynghyd â thystiolaeth a chrynodeb o'r camau a gymerwyd o dan y Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-24. Fe wnaeth y Pwyllgor gefnogi'r camau nesaf oedd wedi'u nodi yn y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2024-25. Mewn ymateb i gwestiwn, sicrhaodd y Swyddog Diogelu Data y Pwyllgor y byddai archwiliadau'n ailddechrau yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth newydd, yn ogystal â darparu gwybodaeth ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion yn y cyfamser. |

| | |
|---|---|
| | Ar ôl ystyried yr **Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol ar gyfer 2023/24**, cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â mesurau iechyd a diogelwch corfforaethol y Cyngor, derbyniodd sicrwydd bod y risgiau'n cael eu rheoli i lefel dderbyniol ac roedd yn cefnogi rhoi'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith. Fe wnaeth y Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch amlygu dau fater o bwys yn ystod y flwyddyn – canfod concrit 'RAAC' mewn dwy ysgol ar yr ynys ac achosion o Ffliw Adar. Fe wnaeth y Pwyllgor drafod y strategaethau i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn achosion o lithro, baglu a syrthio ac ymosodiadau treisgar yn erbyn staff ac mewn ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd lle mae ymddygiad heriol gan ddisgyblion yn bryder cynyddol. Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 bod gan y Cyngor yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac mai ein hyswirwyr sydd fel arfer yn delio â hawliadau, a bod rhaid darparu tystiolaeth o esgeulustod.<br><br>Roedd y Pwyllgor yn derbyn bod **ymateb y Cyngor i adroddiadau archwilio allanol ac argymhellion gan reoleiddwyr** yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn ystyried a gweithredu argymhellion yn effeithiol. Adroddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol bod y Cyngor wedi cwblhau 20% o'r argymhellion, bod 68% ar y trywydd iawn a bod 12% yn hwyr. Cyflwynwyd diweddariad ar yr argymhellion oedd yn wynebu oedi. Roedd y Cadeirydd yn poeni nad oedd amserlenni wedi'u cynnwys ar gyfer gwaith oedd yn mynd rhagddo a chytunwyd y byddai'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r ymatebion i'r argymhellion yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.<br><br>Nododd y Pwyllgor y diweddariad chwarterol ar **raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru**, fel ag yr oedd pethau ar 30 Medi 2024, ac un newid i **Flaen Raglen Waith** y Pwyllgor oherwydd bod gwaith archwilio ariannol yn parhau i fynd rhagddo.<br><br>Yn olaf, mewn sesiwn breifat, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried yr **Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol ar gyfer 2023/24**, a gyflwynwyd gan y Peiriannydd Diogelwch TG Arweiniol, ac a oedd yn darparu diweddariad ar ymdrechion y Cyngor i liniaru'r risgiau seiberddiogelwch. Roedd yn nodi'r heriau, datrysiadau i rybuddion diogelwch a'r prosiectau sydd ar y gweill. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr heriau oedd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a nododd ei fod yn fodlon â mesurau seiberddiogelwch y Cyngor i fynd i'r afael â'r risgiau a blaenoriaethau. Ar ôl derbyn eglurhad gan y swyddog ynghylch y materion a godwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod mesurau rhesymol ar waith i reoli bygythiadau seiber yn effeithiol. |
| **11 Chwefror 2025** | Ystyriodd y Pwyllgor **saith** eitem o bwys.<br><br>Wrth ystyried ei **Log Gweithredoedd**, nododd y Pwyllgor fod un weithred wedi'i chwblhau, un ar y gweill a bod disgwyl i'r pedwar arall gael eu cwblhau yn ddiweddarach eleni.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg **ddiweddariad ar yr archwiliadau a gwblhawyd**, y gwaith sydd ar y gweill a blaenoriaethau. Roedd dau adroddiad sicrwydd mewn perthynas â Datblygiadau Tai a Recriwtio a Chadw wedi derbyn 'Sicrwydd Rhesymol'. Ni chanfu ymchwiliad i ffafriaeth honedig wrth gaffael gwaith yn y Gwasanaethau Eiddo unrhyw gamymddwyn, ond amlygwyd meysydd lle mae angen gwella rheolaethau'n ymwneud â'r risg o dwyll. Trafododd y Pwyllgor werth am arian wrth brynu hen dai Cyngor, a nododd y Pennaeth Archwilio a Risg fod hynny'n anodd ei ddangos gan nad oes polisi ffurfiol yn bodoli. Trafodwyd heriau recriwtio, gan gynnwys partneriaethau â cholegau, a gofynnodd y Pwyllgor am asesiad o'u heffaith. Cydnabuwyd pryderon ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng cyflogau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ond nodwyd bod y graddfeydd cyflog ar gyfer llywodraeth leol yn cael eu gosod yn genedlaethol. Cafodd y Pwyllgor drafodaeth hefyd ynglŷn ag a ddylai fod yn ofynnol i achwynwyr gyfarfod â swyddogion pan gynhelir ymchwiliadau a phwysleisiodd y Pennaeth Archwilio a Risg bwysigrwydd ymchwilio cwynion yn drylwyr pan dderbynnir cais gan swyddogion allweddol, megis Aelod Portffolio neu'r Swyddog Monitro.<br><br>Roedd **Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2025-2028** y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynglŷn â'r gweithgareddau y bydd y tîm Archwilio Mewnol yn ymgymryd â nhw er mwyn lleihau'r perygl o dwyll o fewn y Cyngor. Tynnwyd sylw at yr ymdrechion parhaus i frwydro yn erbyn twyll, a thwyll yn gysylltiedig â Threth y Cyngor yn enwedig, a nodwyd y gallai technoleg deallusrwydd artiffisial (AI) olygu bod mwy o dwyll yn cael ei ganfod. Nododd y Pwyllgor y byddai'n derbyn adroddiad cynnydd yn flynyddol a thrafodwyd ffurfio gweithgor atal twyll, os yw'r Tîm Arweinyddiaeth yn cytuno, er mwyn nodi risgiau twyll yn well. |

| | |
|---|---|
| | Derbyniodd y Pwyllgor y **diweddariad rheoli trysorlys canol blwyddyn** gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, a chlywodd fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn sefydlog a'i fod yn unol â'r dangosyddion darbodus. Er mwyn lleihau costau llog, ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol newydd, gan barhau i fenthyca'n fewnol er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf. Er hynny, efallai y bydd rhaid benthyca'n allanol yn y dyfodol wrth i gronfeydd arian parod leihau. Roedd enillion ar fuddsoddiadau'n gadarnhaol a rhagwelir y bydd enillion llog blynyddol yn £1.322m. Mae disgwyl tanwariant o £6.55m ar y gyllideb gyfalaf, a bydd tanwariant yn cael ei ddwyn ymlaen i 2025/26. Roedd y Pwyllgor yn holi a fyddai'n gwneud synnwyr ariannol i ad-dalu benthyciad hirdymor ond nodwyd bod rhaid talu costau uchel, yn aml, os yw benthyciadau'n cael eu had-dalu'n gynnar, gan olygu nad yw hynny'n gwneud synnwyr ariannol. Cwestiynodd y Pwyllgor yr arbedion/incwm a ddisgwylir yn sgil gosod paneli solar sy'n cael eu hariannu gan fenthyciadau Salix a chlywodd fod angen achos busnes ar gyfer prosiectau sy'n derbyn arian Salix er mwyn dangos y bydd arbedion yn cael eu gwneud o fewn 10 mlynedd. Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion pellach am yr arbedion a ddisgwylir yn gysylltiedig â phaneli solar sy'n cael eu hariannu gan y cynllun Salix, a gofynnodd am gael diwygio fformat yr adroddiad trysorlys er mwyn ei gwtogi a'i alinio â thempled y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Awgrymodd y Cyfarwyddwr y dylid defnyddio'r adroddiad diweddaru rheoli trysorlys chwarterol newydd ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor a dywedodd y byddai'n ei anfon at y Cadeirydd er mwyn derbyn ei sylwadau.<br><br>Adolygodd y Pwyllgor y **Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2025/26** a baratowyd yn unol â chanllawiau CIPFA. Mae'r strategaeth hon yn cynnal agwedd ddarbodus, gan flaenoriaethu benthyca mewnol er mwyn lleihau costau lle bynnag y bo hynny'n bosib. Er hynny, oherwydd bod arian wrth gefn yn gostwng ac oherwydd anghenion gwariant cyfalaf, gallai benthyca allanol gynyddu, ar sail tymor byr yn y lle cyntaf, er mwyn rheoli dyledion yn effeithiol. Bydd penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi'n canolbwyntio ar ddiogelwch, hylifedd ac enillion, a ni fydd arian ond yn cael ei fuddsoddi mewn banciau â statws credyd uchel neu awdurdodau lleol, a hynny ar ôl cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Ni chodwyd unrhyw faterion, a phenderfynodd y Pwyllgor gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith heb wneud unrhyw sylwadau pellach.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor **adroddiadau Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol** a oedd yn cynnwys adolygiad cenedlaethol ac adroddiad penodol ar Gyngor Sir Ynys Môn. Roedd yr adolygiad cenedlaethol yn tynnu sylw at risgiau sylweddol o ran cyllid y cyngor, ac roedd yn pwysleisio bod angen cynllunio ariannol cadarn ar gyfer y tymor hir, yn ogystal â strategaethau trawsnewid. Er bod trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn effeithiol ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig, roedd Archwilio Cymru o'r farn bod diffyg o ran cynllunio'n ffurfiol ar gyfer y tymor hir. Nododd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod cynllunio tymor hir yn heriol oherwydd bod y cyngor yn derbyn setliad ariannol ar gyfer blwyddyn yn unig, ac oherwydd bod costau'n cynyddu. Mae'r Cyngor wedi defnyddio arian wrth gefn i gydbwyso cyllidebau, wrth osgoi torri gwasanaethau yn ddiangen, ac mae'n datblygu strategaeth ariannol hirdymor, ond mae hynny'n ddibynnol ar dderbyn gwybodaeth ariannu ar gyfer dwy flynedd neu fwy gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr anawsterau hyn, ond roedd yn annog defnyddio dulliau amgen, cost-effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau, cydweithio a defnyddio technoleg. Roedd yn cydnabod hefyd y buddion ariannol posib yn sgil datblygiadau Porthladd Rhydd Ynys Môn a Wylfa. Mynegwyd pryderon am ddefnydd strategol o arian wrth gefn, ac mae Archwilio Cymru'n rhybuddio bod perygl i'r cronfeydd wrth gefn wagio oni bai bod camau amserol yn cael eu cymryd. Roedd y trafodaethau hefyd yn amlygu bod angen mwy o arian cyfalaf ar y Cyngor er mwyn gwella isadeiledd a gwasanaethau. Mae'r Cyngor, law yn llaw â chynghorau eraill yng Nghymru, wedi bod yn pwyso am drefniadau ariannu gwell. Yn y diwedd, derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd bod y Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol a'i fod yn gweithio tuag at strategaeth hirdymor, ar yr amod bod Llywodraeth Cymru'n darparu ymrwymiadau ariannu mwy eglur.<br><br>Nododd y Pwyllgor ei fod yn parhau i fod yn fodlon â'r **Flaen Raglen Waith**. |
| **8 Mai 2025** | Ystyriodd y Pwyllgor **saith** eitem o bwys.<br><br>Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei **Log Gweithredoedd**, a derbyniodd adroddiadau ar lwyddiant cydweithio rhwng y Cyngor â cholegau, arbedion yn sgil gosod paneli solar gan ddefnyddio cyllid Salix a dadansoddiad economaidd-gymdeithasol Quod Môn. Roedd diweddariad Rheoli Trysorlys ar gyfer chwarter 3 wedi cael ei rannu eisoes, ac roedd pedair gweithred yn weddill, i'w cwblhau'n ddiweddarach yn y flwyddyn.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg **ddiweddariad** ar yr archwiliadau a gwblhawyd, y gwaith sydd ar y gweill a blaenoriaethau. O'r chwe archwiliad a adolygwyd, derbyniodd pedwar ohonynt sicrwydd rhesymol a derbyniodd dau archwiliad—Grantiau Cyfleusterau Anabl ac Adennill Treth y Cyngor a Mân Ddyledion – sicrwydd cyfyngedig, sy'n arwydd bod pryderon yn parhau i fodoli. |

Darparodd y Prif Archwilydd adroddiad ar **faterion Archwilio Mewnol sy'n weddill**. Ar 31 Mawrth 2025 roedd 52 o gamau gweithredu'n weddill - wyth 'sylweddol' (ambr) a 42 'cymedrol' (melyn). Ni chodwyd unrhyw gwestiynau a chanfu'r Pwyllgor fod cynnydd y Cyngor yn foddhaol.

Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y **Cylch Gorchwyl** diwygiedig sy'n adlewyrchu newidiadau yn y safonau archwilio byd-eang a'r DU. Amlinellodd y Pennaeth Archwilio a Risg y newidiadau yn dilyn cyflwyno'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd, Nodyn Gweithredu y DU a Chod Ymarfer CIPFA, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â disgwyliadau llywodraethu. Cwblhawyd cymhariaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, gan alluogi'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad.

Nododd y Pwyllgor y sicrwydd a ddarparwyd gan **Grynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2024**, a oedd yn amlinellu'r gwaith archwilio a gwblhawyd. Ailddatganodd y Pwyllgor ei bryderon ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol yn sgil cyfyngiadau cyllido tymor byr, mater a godwyd ganddo yn ei gyfarfod diwethaf. Fe wnaeth Archwilio Cymru gydnabod y materion hyn ac argymell y dylai'r Cyngor fabwysiadu strategaeth y gellir ei haddasu er mwyn lliniaru risgiau ariannol.

Nododd y Pwyllgor y sicrwydd a ddarparwyd gan **Archwilio Cymru** yn ei ddiweddariad ar ei **Raglen Waith ar gyfer Ch3 a Ch4 2024/25**. Roedd yr adroddiad yn trafod cynnydd mewn archwiliadau lleol a chenedlaethol, gwaith rheoleiddio parhaus gan Estyn ac AGC, archwiliadau ariannol ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2024/25, ardystio grantiau, ac astudiaethau cenedlaethol sydd yn yr arfaeth.

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y **Flaen Raglen Waith** arfaethedig ar gyfer 2025-26. Gwahoddwyd aelodau hefyd i rannu unrhyw anghenion hyfforddi penodol. Yn dilyn sesiwn friffio flaenorol ar Ddeallusrwydd Artiffisial, cododd y Cadeirydd bryderon am ei ddefnydd o fewn y Cyngor, gan awgrymu bod angen canllawiau polisi. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai'n codi ystyriaethau polisi yn gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial gyda'r Tîm Arweinyddiaeth.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 26 Mehefin 2025 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2024-25 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi bod rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio holl drefniadau archwilio mewnol y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn gofyn iddo:

- Adolygu adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio a Risg ar berfformiad archwilio mewnol (3.4.8.10.6).
- Ystyried yr arfarniad o briodoldeb ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau llywodraethu, rheoli risg a fframwaith reoli'r Cyngor, a'r gwaith sy'n cefnogi'r asesiad hwn, ac ystyried hyn wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (3.4.8.10.7).
- Asesu lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella, sy'n cefnogi dibynadwyedd casgliadau archwilio mewnol(3.4.8.10.8).

Yn ychwanegol at hyn, mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn i bob prif swyddog archwilio baratoi Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol (Safon 2450).

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2024-25 i'r Pwyllgor, yn ogystal â safbwynt cyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ar briodoldeb ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor, sut mae'n rheoli risg a rheolaeth yn ystod y flwyddyn.

1.2. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r sicrwydd a ddarparwyd, ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, barn Pennaeth Archwilio a Risg Cyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith ddigonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

1.3. Er nad wyf yn ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro. Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.

1.4. Yn ogystal, yn dilyn asesiad mewnol, mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

## 2. Gofynion newydd yn y dyfodol

2.1. Ar gyfer 2025-26, bydd y 'Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU' newydd yn berthnasol, sef fframwaith sy'n seiliedig ar y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA), Nodyn Cymhwyso – Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd gan y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) a Chod CIPFA ar Lywodraethu Archwilio Mewnol, sydd yn darparu gofynion penodol sy'n berthnasol i'r sector llywodraeth leol.

2.2. Mae hyn wedi cyflwyno'r gofyniad i'r prif swyddog archwilio ddod i gasgliad ynglŷn ag effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a/neu reolaeth ar lefel y sefydliad. Yn sector llywodraeth leol y DU, mae eisoes yn ofynnol i brif swyddog archwilio baratoi casgliad cyffredinol o'r fath o leiaf bob blwyddyn i gefnogi adroddiadau llywodraethu ehangach. Felly, mae'r adroddiad blynyddol fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn cydymffurfio â'r gofynion newydd yn y dyfodol.

## 3. Argymhelliad

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'i 'safbwynt' cyffredinol, yn bennaf er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:

- crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a'r sicrwydd a ddarparwyd.
- y safbwynt cyffredinol.
- perfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, yn bennaf, nodi lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

# Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25

Mehefin 2025



Tudalen 91

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys

Cyflwyniad 1
Materion sy’n berthnasol wrth baratoi’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2
Sail Fy Marn 3
Ein Perfformiad 7
Hyfforddi a Datblygu 8
Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 9
Datganiad o Annibyniaeth (Safon 1110) 9
Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector cyhoeddus y DU. 10
Heriau a chyfleoedd i’r dyfodol 10
Atodiad A: Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd 2024-25 11
Atodiad B – Map Sicrwydd (Trydedd Linell) - Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol 2024-25 12
Atodiad C: Gwaith Archwilio Mewnol Arall yn 2024-25 16
Atodiad D: Cynllun Gweithredu Hunanarfarniad Blynyddol Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 17

# Cyflwyniad

1. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25, mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)[1] yn ei gwneud yn ofynnol i’r ‘prif swyddog archwilio’, sef y Pennaeth Archwilio a Risg yn achos y Cyngor, gyflwyno barn archwilio mewnol y gall y sefydliad ei ddefnyddio fel sail i’w Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

2. Mae’r farn flynyddol yn cynnwys:

   - Barn ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu’r sefydliad.
   - Datgelu unrhyw amodau ar y farn honno, ynghyd â’r rheswm am yr amod.
   - Unrhyw faterion sydd, ym marn y prif swyddog archwilio, yn arbennig o berthnasol wrth baratoi’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
   - Crynodeb o’r gwaith archwilio y seiliwyd y farn arno, yn cynnwys dibyniaeth a roddwyd ar gyrff sicrwydd eraill.
   - Crynodeb o berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol yn erbyn ei fesurau perfformiad.
   - Sylwadau ar gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a rhannu canlyniadau’r rhaglen sicrhau ansawdd Archwilio Mewnol.
   - Datganiad o Annibyniaeth

[1] O 1 Ebrill 2025, mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn cael eu disodli gan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a chyfeirir atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

# Barn Archwilio Mewnol

## Barn y Pennaeth Archwilio a Risg 2024-25

**Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, barn Pennaeth Archwilio a Risg Cyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.**

**Er nad wyf yn ystyried bod unrhyw feysydd y mae pryder corfforaethol sylweddol yn eu cylch, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.**

**Mae hon yn farn ddiamod.**

# Materion sy'n berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

3. Nid oes unrhyw faterion o risg uchel nac effaith sylweddol sydd angen eu crybwyll yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4. Yn ystod 2024-25, rydym o'r farn bod uwch reolwyr yn y Cyngor yn gefnogol ac yn ymatebol i'r materion rydym wedi'u codi. Mae gennym berthynas dda gyda rheolwyr; maent yn barod i drafod y meysydd hynny sydd, yn eu barn nhw, yn debygol o achosi problemau, ac maent yn ystyried canlyniadau ein gwaith fel cyfle i wneud gwelliannau.

5. Rydym wedi cael ein comisiynu hefyd i wneud gwaith ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ar gais rheolwyr ac mae hynny'n arwydd pendant bod rheolwyr yn barod i weithio gydag Archwilio Mewnol i sefydlu amgylcheddau risg a rheolaeth da.

# Sail Fy Marn

## Cwmpas

6. Rydw i wedi cyrraedd fy marn trwy ystyried y gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn ac maent yn cael eu trafod ymhellach isod. Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd yn ymwneud â'r Cyngor. Mae'n deillio'n sylweddol o bennu strategaeth ar sail risg, y mae rheolwyr wedi cyfrannu ati ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2024. Dylai ddarparu sicrwydd rhesymol, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid isod.

## Cyfyngiadau

7. Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw wrth i ni gyflawni ein gwaith a'n gweithgareddau o fewn y Cyngor a godir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellir eu gwneud. Ni ddylid ystyried chwaith bod yr adroddiad hwn, nac ein gwaith, yn disodli cyfrifoldeb rheolwyr i roi arferion rheoli mewnol cadarn ar waith. Pwysleisiwn mai cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau system gadarn o reolaethau mewnol ac ni ddylid dibynnu ar ein gwaith i nodi'r holl gryfderau a gwendidau a all fodoli.

## Sicrwydd Trydedd Linell[2]

8. Er mwyn cael sicrwydd digonol fel sail i'r farn, roedd yn rhaid ystyried adolygiadau archwilio mewnol o'r risgiau strategol a gwaith archwilio arall, a'r raddfa sicrwydd a ddarparwyd:

## Archwilio Risgiau Strategol

9. Yn ystod 2024-25, yn dilyn cynnal adolygiad cynhwysfawr o risgiau'r Cyngor wrth gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol, barnwyd bod 11 ohonynt â gradd risg weddilliol coch neu ambr a chawsant eu cofnodi yn y gofrestr risgiau strategol.

10. Ein nod yw archwilio 80% o risgiau gweddilliol coch ac ambr yn ystod cylch dwy flynedd. Adolygwyd 8 (80%) (9 / 82% yn 2023-24) o'r risgiau hyn gennym yn ystod cyfnod o 24 mis. (Manylion yn Atodiad B).

11. Roeddem yn gallu darparu sicrwydd 'Rhesymol' bod y Cyngor yn rheoli pob risg strategol, namyn un, a adolygwyd gennym yn effeithiol.

12. Fe wnaethom ddarparu sicrwydd 'Cyfyngedig' ar gyfer un archwiliad (Rheoli Cyflenwyr TG) ym mis Gorffennaf 2024.

13. Cwblhawyd y darn hwn o waith ar ein rhan gan Dîm Archwilio TG Cyngor Salford. Daethant i'r casgliad nad yw'r Cyngor, ar y cyfan, yn lliniaru'n ddigonol, i lefel dderbyniol, y risgiau allweddol yn gysylltiedig â rheoli cyflenwyr TG.

14. Canfu'r adolygiad fod y materion hyn yn arwydd o broblem gaffael ehangach o fewn y Cyngor sy'n derbyn sylw fel rhan o raglen wella ddwy flynedd dan arweiniad arbenigwr caffael allanol.

15. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad dilynol yn y maes hwn er mwyn asesu cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion/risgiau/cyfleoedd a nodwyd.

[2] Mae diffiniadau o raddfeydd sicrwydd oedd ar waith yn 2024-25 i'w gweld yn Atodiad A

## Gwaith archwilio arall

16. Fe wnaethom adolygu meysydd allweddol eraill o weithgareddau'r Cyngor hefyd, yn cynnwys meysydd yr oedd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi codi pryderon yn eu cylch (Manylion yn Atodiad C).

17. O'r 12 archwiliad (14 yn 2023-24) o'r math hwn a gynhaliwyd yn 2024-25, roeddem yn gallu rhoi'r sicrwydd canlynol:

- Dim gyda sicrwydd 'Sylweddol' (dim yn 2023-24),
- Wyth gyda sicrwydd 'Rhesymol' (wyth yn 2023-24),
- Tri gyda sicrwydd 'Cyfyngedig' (dau yn 2023-24), ac
- Un ymchwiliad nad oedd yn darparu gradd sicrwydd.


18. Mae dau o'r tri adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn ymwneud ag archwiliad o weinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Yn dilyn yr archwiliad gwreiddiol ym mis Ebrill 2024, cynhaliom adolygiad dilynol ym mis Mawrth 2025. Er i'n gwaith dilyniant ganfod fod y gwasanaeth Tai wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn ein hadolygiad gwreiddiol, roedd angen gwneud rhagor o waith ac nid oeddem yn gallu cynyddu ein gradd sicrwydd cyfyngedig. Byddwn yn cynnal ail adolygiad dilynol yn ystod 2025-26.

19. Fe wnaethom hefyd ailymweld ag archwiliad oedd yn edrych ar Adennill y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a Mân Ddyledion. Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd pellach mewn perthynas â gwella ei brosesau adennill, yn arbennig sefydlu taliadau ymlaen llaw, symleiddio prosesau talu i gwsmeriaid ar wefan y Cyngor ac alinio'r system ariannol mân ddyledion â phrosesau bilio ac adennill.

20. Fodd bynnag, mae dyledion hŷn sylweddol yn parhau heb eu casglu oherwydd diffyg adnoddau ac am na chymerwyd camau cyfreithiol llawn i adennill mân ddyledion. Bydd datrys y sefyllfa hon yn heriol heb adnoddau ychwanegol. Bydd adolygiad llawn o'r broses adennill ddiwygiedig yn cael ei gynnwys yn y Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26.

## Graddfeydd Sicrwydd Archwilio Mewnol a ddarparwyd yn ystod 2024-25

21. Yn gyffredinol, roeddem yn gallu darparu sicrwydd 'Rhesymol' neu well ar gyfer 72% (86% yn 2023-24) o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod 2024-25.




22. Derbyniodd pedwar archwiliad (22%) sicrwydd 'Cyfyngedig' yn ystod y flwyddyn, o gymharu â dau (14%) yn 2023-24. Yn unol â'n protocol, rydym yn ail-ymweld yn ffurfiol â'r holl 'Faterion/Risgiau/Cyfleoedd' a godwyd mewn adroddiadau oedd â sicrwydd 'Cyfyngedig', ar ddiwedd y cyfnod gweithredu, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â nhw'n effeithiol.

23. Mae'n werth nodi na dderbyniodd yr un archwiliad 'Ddim' sicrwydd a ni chodwyd unrhyw 'Faterion/Risgiau/Cyfleoedd' 'Critigol' (coch) yn ystod y flwyddyn.

24. Os oeddem wedi nodi 'Materion/Risgiau/Cyfleoedd' fe wnaeth rheolwyr eu derbyn i gyd. Cafodd y 'Materion/Risgiau' oedd yn weddill eu monitro drwy ein system olrhain gweithredoedd, 4action, a drafodir ymhellach yn yr adran sy'n dilyn.

## Materion / Risgiau / Cyfleoedd a Godwyd


25. Rydym yn defnyddio system olrhain gweithredoedd y Cyngor, 4action, i fonitro'r 'Materion', 'Risgiau' a 'Chyfleoedd' sy'n cael eu codi gennym fel rhan o'n gwaith. Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr ar 4action, sy'n dangos darlun gwirioneddol o berfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n hwyluso'r gwaith o fonitro ac adrodd ar yr wybodaeth hon. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus fel ein bod yn gallu derbyn diweddariad yn brydlon gan reolwyr ynghylch cynnydd wrth fynd i'r afael â'r gweithredoedd hyn.

26. Mae'r graffiau isod yn dangos y gweithredoedd oedd angen sylw ar 31 Mawrth 2025. Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion / risgiau / cyfleoedd 'Critigol' (coch) yn ystod y flwyddyn ac nid oes 'materion / risgiau / cyfleoedd' 'Critigol' (coch) angen sylw ar hyn o bryd.

### Gweithredoedd Cyfredol

27. Rydym yn monitro'r holl gamau ac rydym yn cysylltu â rheolwyr ar ddiwedd y cyfnod gweithredu er mwyn sicrhau eu bod wedi derbyn sylw.


28. Ar 31 Mawrth 2025, roeddem yn cadw llygaid ar 52 o weithredoedd oedd angen eu cwblhau (39 ar 31 Mawrth 2024). Roedd wyth o'r gweithredoedd hyn (pedwar yn 2023-24) yn risgiau 'sylweddol' (ambr) a 44 (35 yn 2023-24) yn 'gymedrol' (melyn), fel y gwelir isod.




### Gweithredoedd Hwyr

29. Ar 31 Mawrth 2025, nid oedd unrhyw weithredoedd wedi cyrraedd y dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau ac a oedd yn 'hwyr'.

### Materion / Risgiau / Cyfleoedd fesul Blwyddyn




30. Roedd y 52 (39 yn 2023-24) gweithred yr ydym yn cadw llygaid arnynt wedi cael eu codi rhwng 2019-20 a 2024-25.

31. Er bod y graff uchod yn dangos fod y rhan fwyaf yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae dau fater/risg yn dyddio'n ôl i 2019-20 a 2021-22 nad yw rheolwyr wedi rhoi sylw llawn iddynt eto.

32. Maent yn ymwneud â chwblhau trefniadau mapio sicrwydd y Cyngor a gwaith digideiddio proses y cyngor ar gyfer ymgeisio am dŷ, ac mae sylw'n cael ei roi i'r ddau fater hwn.

33. Rhoddwyd gradd 'cymedrol' neu'n 'felyn' i'r ddau o ran blaenoriaeth risg, a chawsom sicrwydd gan reolwyr bod:


- Y Cyngor wedi cwblhau gwaith uwchraddio ar ei system Reoli Risgiau ac mae'r tîm Archwilio Mewnol yn cofnodi sicrwydd trydedd linell fel mater o drefn ar ôl cwblhau gwaith archwilio perthnasol. Fodd bynnag, bydd CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg) yn cyhoeddi canllawiau mapio sicrwydd ar gyfer awdurdodau

lleol maes o law, felly mae'r Cyngor wedi gohirio'r gwaith o ddatblygu ei fap sicrwydd ymhellach hyd nes bydd y canllawiau hyn ar gael.

- Mae profion terfynol yn cael eu cynnal ar broses y Cyngor ar gyfer ymgeisio am dŷ trwy'r system CRM (Rheoli Cysylltiadau Cwsmer). Mae'r gwasanaeth Tai yn disgwyl i geisiadau ar-lein fynd yn fyw yn ystod y 2 neu 3 mis nesaf.


34. Dylid nodi nad oes unrhyw faterion/risgiau/cyfleoedd 'sylweddol' yn dyddio'n ôl ymhellach na 2023/24. Dengys hyn fod rheolwyr yn blaenoriaethu mynd i'r afael â risgiau sydd â blaenoriaeth uwch.

**Materion / Risgiau / Cyfleoedd a godwyd yn 2024-25**




35. Yn ystod 2024-25, gwnaethom godi 63 (59 yn 2023-24 'Mater/Risg/Cyfle' oedd angen sylw gan reolwyr. O'r gweithredoedd hyn, gwnaethom raddio deg (naw yn 2023-24) fel rhai 'sylweddol' (ambr) a 53 (50 yn 2023-24) fel rhai 'cymedrol' (melyn).

**Materion / Risgiau / Cyfleoedd a godwyd, yr oedd angen eu cwblhau ac a dderbyniodd sylw yn 2024-25**




36. Roedd 13 (22 yn 2023-24) o'r gweithredoedd a godwyd angen eu cwblhau yn 2024-25 ac roedd rheolwyr wedi rhoi sylw i'r 13 (21 yn 2023-24) weithred cyn 31 Mawrth 2025. Mae hyn yn cynrychioli perfformiad o 100% yn y maes hwn (95% yn 2023-24).

# Ein Perfformiad

37. Wrth gyflawni'r strategaeth archwilio ar sail risg, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg, gyda chymorth y Tîm Arweinyddiaeth, wedi gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau archwilio mewnol oedd ar gael yn ystod y flwyddyn.

38. Collwyd dau aelod o staff o'r adran Risg ac Yswiriant, sydd yn rhan o'r tîm ehangach, oherwydd iddynt gael eu penodi i swyddi eraill o fewn y Cyngor yn 2024-25, a hynny ran o'r ffordd trwy'r ymarfer tendr yswiriant a gynhelir bob pum mlynedd a rhoddodd hyn straen ychwanegol ar y tîm i lenwi'r rolau hynny ar frys.

39. Darparodd ein hyswirwyr adnodd ychwanegol i ddelio â hawliadau, ond bu'n rhaid gwrthod rhai ceisiadau am gymorth gan wasanaethau ac roedd rhaid gohirio'r gwaith o weithredu'r strategaeth atal twyll.

## Ychwanegu Gwerth

40. Trwy gydol y flwyddyn ceisiom ychwanegu gwerth lle bynnag yr oedd hynny'n bosib. Rydym wedi parhau i gefnogi rheolwyr o fewn y Cyngor trwy ddarparu hyfforddiant, cyngor a chaffael adnoddau ychwanegol er mwyn darparu sicrwydd, megis hyfforddiant a ddarparwyd fel rhan o'r rhaglen gwella caffael, darparu hyfforddiant ar Gronfeydd Ysgol Answyddogol i benaethiaid newydd a llywodraethwyr, a chynnal archwiliad TG.

41. Yn ogystal, rydym wedi parhau i gefnogi cyfoedion yn y rhanbarth, yn genedlaethol ar draws Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, trwy rannu arfer dda a rhaglenni gwaith, ynghyd â meysydd lle mae risgiau'n dod i'r amlwg.

## Mesurau Perfformiad

42. Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith i sicrhau bod ein gwasanaeth archwilio mewnol yn gwella'n barhaus.

43. Ym mis Ebrill 2024, cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar nifer o dargedau perfformiad yn y Strategaeth ar gyfer 2024-25, a gellir eu gweld isod.

| Dangosydd Perfformiad | Targed 2023-24 | Gwirioneddol 2023-24 | Targed 2024-25 | Gwirioneddol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch / Ambr yn y Gofrestr Risgiau Strategol a archwiliwyd (dros gyfnod treigl o 24 mis) | 80% | 82% | 80% | 80% |
| Archwiliadau a gwblhawyd o fewn chwe mis | 85% | 84% | 85% | 83% |
| Ymateb cleientiaid yn 'foddhaol' neu well | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Nifer staff (cyfwerth ag amser llawn (CALI[3])) | 4.0 CALI | 3.3 CALI | 2.8 CALI | 2.8 CALI |
| Yr holl rybuddion twyll a gafodd eu derbyn, eu hystyried a'u dosbarthu | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Canlyniad yr asesiadau mewnol (blynyddol) ac allanol (bob pum mlynedd) o'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cydymffurfio'n Gyffredinol |

44. Rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o'n targedau, gyda phump o'r chwe dangosydd yn cyrraedd eu targed.

[3] Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI)

45. Yn bwysicaf oll, rydym wedi cyflawni ein targed o adolygu 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y Gofrestr Risgiau Strategol ac mae hynny'n darparu sicrwydd digonol i ganiatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg ddarparu Barn Archwilio Flynyddol.

46. Methodd un maes â chyflawni ei darged perfformiad; archwiliadau a gwblhawyd o fewn chwe mis. Cymerodd dau archwiliad fwy na chwe mis i'w cwblhau (roedd un wedi cymryd 7.2 mis a'r llall 8.5 mis) yn dilyn oedi oherwydd bod staff allweddol yn ymwneud â'r etholiad cyffredinol, yn ogystal ag oedi o ran cytuno ar y cynllun gweithredu a'r adroddiad terfynol. Roedd oedi o ran cwblhau ymchwiliad (9.9 mis) yn sgil disgwyl am wybodaeth gan yr achwynydd.

## Meincnodi

47. Mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru'n meincnodi perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau'n rhai y gellir eu cymharu felly nid ydynt yn rhoi arwydd ystyrlon o berfformiad.

# Hyfforddi a Datblygu

48. Mae gan holl aelodau presennol y tîm amrywiaeth o gymwysterau proffesiynol ac mae'r gymysgedd yn dda, gan gynnwys CIPFA, CIIA[4], IRRV[5], ACFS ac ACFTech[6].

49. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn sicrhau fod staff yn parhau â'u datblygiad proffesiynol a'u bod yn ymwybodol o'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector.

50. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi'r Uwch Archwilydd sydd yn astudio i ennill cymhwyster proffesiynol y Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol.

51. Rydym hefyd wedi cymryd rhan ym mhob hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle'r oedd hynny'n ofynnol.



[3]Mae CIIA (Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol) yn gymdeithas broffesiynol ar gyfer archwilwyr mewnol.
[4]Yr IRRV (Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw) yw'r corff proffesiynol ar gyfer trethi lleol, budd-daliadau a phrisio.
[5]Mae'r ACFS a'r ACFTech yn gymwysterau atal twyll sy'n cael eu darparu gan y Bwrdd Achredu Proffesiynol Atal Twyll.

# Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

## Asesiad Allanol (Safon 1312)

52. Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid i wasanaethau archwilio mewnol dderbyn asesiad allanol unwaith bob pum mlynedd, ac mae'n rhaid iddo gael ei gynnal gan asesydd neu dîm asesu cymwys ac annibynnol o du allan i'r sefydliad.

53. Cwblhawyd yr asesiad allanol diwethaf o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn drwy gyfrwng adolygiad cymheiriaid gan Gyngor Sir Y Fflint.

54. Cadarnhaodd yr asesiad, a gwblhawyd ym mis Mai 2023, "Wedi i Gyngor Sir y Fflint ddilysu'r hunanasesiad, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' â'r gofynion.  'Cydymffurfio'n Gyffredinol' yw'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth yn dilyn asesiad allanol… Yn gyffredinol, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio â'r safonau ym mhob maes arwyddocaol ac mae'n gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol."

## Asesiad Mewnol (Safon 1311)

55. O dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol hefyd i wasanaethau archwilio mewnol gwblhau asesiadau cyfnodol i werthuso cydymffurfiaeth barhaus â'r Safonau a'r Cod Moeseg.

56. Cwblheir yr hunanasesiad yn flynyddol ac mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella (Manylion yn Atodiad D). Un maes yn unig sydd bellach ddim ond yn cydymffurfio'n rhannol, ac mae'n gysylltiedig â Safon 2050 'Cyd-drefniant a Dibyniaeth' lle mae'n ofynnol i'r cynllun ar sail risg gynnwys dull a ddatblygwyd yn ddigonol o ddefnyddio ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith a allai fod yn ofynnol er mwyn gallu dibynnu ar y ffynonellau hynny.

57. Er bod prosesau presennol ar gyfer datblygu'r cynllun archwilio mewnol ar sail risg yn cydymffurfio â PSIAS, byddai cwblhau'r map sicrwydd yn sicrhau bod unrhyw fylchau o ran sicrwydd, neu feysydd lle mae gormod o sicrwydd, yn fwy amlwg.

58. Datblygwyd map sicrwydd. Mae Archwilio Mewnol wedi cofnodi gwybodaeth ar gyfer y sicrwydd trydedd linell, ac mae'r map sicrwydd yn nwylo'r Tîm Perfformiad ar hyn o bryd er mwyn cofnodi sicrwydd llinell gyntaf ac ail linell. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynnydd a welwyd a gohiriwyd y gwaith er mwyn disgwyl i CIPFA gyhoeddi eu canllawiau. Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Mai 2025.

# Datganiad o Annibyniaeth (Safon 1110)

59. Yn unol â Safon 1110, mae'n rhaid i'r prif swyddog archwilio gadarnhau, o leiaf unwaith y flwyddyn, annibyniaeth y gweithgarwch archwilio mewnol.

60. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn diffinio sut y caiff annibyniaeth archwilio mewnol ei sefydlu a'i gynnal. Mae'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 18 Ebrill 2024.

61. Yn unol â hynny, nid yw'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cymryd unrhyw ran yn y gwaith o gynnal ac adrodd ar archwiliadau mewn meysydd lle mae gwrthdaro'n bodoli, yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol.

## Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector cyhoeddus y DU.

62. Ers 1 Ebrill 2025 mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) wedi cael eu disodli gan 'Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Cyhoeddus y DU' sydd yn cynnwys Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA) a'r Nodyn Cymhwyso: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn sector cyhoeddus y DU.

63. Mae'r Nodyn Cymhwyso hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i gyrff yn y sector llywodraeth leol ddefnyddio Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU er mwyn cefnogi awdurdodau i sefydlu eu trefniadau archwilio mewnol a darparu trosolwg a chefnogaeth i archwilio mewnol.

64. Mae'r fframwaith safonau newydd hwn ar gyfer archwilio mewnol mewn sefydliadau llywodraeth leol, megis y Cyngor, yn berthnasol o 2025-26 ymlaen.

65. Mae GIAS 11.3 'Cyfathrebu Canlyniadau' yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai fod yn ofynnol i brif swyddog archwilio ddod i gasgliad ar lefel y sefydliad ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a/neu reolaeth. Yn sector cyhoeddus yn y DU, mae'n rhaid i brif swyddog archwilio baratoi casgliad cyffredinol o'r fath o leiaf unwaith y flwyddyn, er mwyn cefnogi adroddiadau llywodraethu ehangach, gan ystyried unrhyw rwymedigaethau neu brosesau sy'n berthnasol i'r sector. Mae'n rhaid i'r casgliad cyffredinol hwn gynnwys llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth[7]. O 2025-26 ymlaen, bydd yr adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad hwnnw.

## Heriau a chyfleoedd i'r dyfodol

66. Rydym yn parhau i fod â rôl allweddol er mwyn helpu'r Cyngor i sicrhau fod ei risgiau'n cael eu hadnabod a'u rheoli'n briodol. Mae hyn wrth wraidd ein gwaith wrth archwilio effeithiolrwydd rheolaethau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei risgiau.

67. Fodd bynnag, mae gofynion sicrwydd yn hyblyg ac yn newid yn barhaus, gan olygu bod yn rhaid i archwilio mewnol fod ar flaen y newidiadau hyn er mwyn gallu bod yn berthnasol a darparu sicrwydd ar gyfer meysydd megis newid hinsawdd, seiberddiogelwch a risgiau ariannol sy'n newid yn barhaus.

68. Mae arddangos stiwardiaeth dros arian cyhoeddus, adeiladu a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y penderfyniadau a wneir a chyflawni dyfodol cynaliadwy ar gyfer trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn ddisgwyliadau sylfaenol i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Gall archwilio mewnol gyfrannu at y we gymhleth hon o ddisgwyliadau, rhwymedigaethau, uchelgeisiau a heriau trwy ddarparu cymorth mewn ffordd unigryw ac annibynnol.

69. Mae cyflawni hyn yn gofyn am archwilwyr mewnol sydd wedi eu hyfforddi ac sy'n cael eu cefnogi gan ddulliau modern a safonau proffesiynol. Mae'n gofyn am gapasiti a medrusrwydd.

70. Mae tîm brwdfrydig ac ymroddedig yn golygu bod y gwasanaeth archwilio mewnol mewn sefyllfa dda i sicrhau y gall gyflawni ei strategaeth a pharhau i gefnogi'r Cyngor fel elfen allweddol o'i strwythur llywodraethu.

[7] Nodyn Cymhwyso: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn sector cyhoeddus y DU (10.B)

# Atodiad A: Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd 2024-25

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda**.<br><br>**Dim Risgiau/Materion sylweddol nac o bwys wedi eu canfod.** |
| Sicrwydd Rhesymol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **rhesymol**.<br><br>**Mae mân wendidau o ran rheoli risgiau a / neu fesurau rheoli ond nid oes unrhyw risgiau o ran cyflawni amcanion. Gall rheolwyr a phenaethiaid gwasanaeth roi sylw iddynt.** |
| Sicrwydd Cyfyngedig | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae gwendidau sylweddol wrth reoli risgiau a / neu reolaethau sy'n peryglu cyflawni amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen hysbysu'r Tîm Arweinyddiaeth.** |
| Dim Sicrwydd | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **sylweddol ddiffygiol**.<br><br>**Mae gwendidau sylfaenol wrth reoli risgiau / a neu reolaethau a fydd yn arwain at fethu â chyflawni amcanion. Mae angen i'r Tîm Arweinyddiaeth roi sylw iddynt ar unwaith ac efallai y bydd angen ymyrraeth y Pwyllgor Gwaith.** |

# Atodiad B – Map Sicrwydd (Trydedd Linell) - Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol 2024-25

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM1 | Risg bod gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol | 5:5<br>25 | 4:5<br>20 | 14/05/19<br>12/01/22 | | Gwytnwch Ariannol (Ebrill 2020) | | | Gwytnwch Ariannol (Tachwedd 2022) | | Cadernid amcangyfrifon a digonolrwydd asesiad o gronfeydd wrth gefn (Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) (Gorffennaf 2024) |
| YM2 | Risg bod y Cyngor yn methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu nad yw'r strwythur staffio yn addas | 4:5<br>20 | 4:4<br>16 | 20/06/18<br>12/01/22 | Recriwtio a Chadw (Mawrth 2019) | | | | Recriwtio a Chadw (Mehefin 2022) | | Recriwtio a Chadw (Rhagfyr 2024) |
| YM3 | Risg bod methiant TG yn amharu'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau | 5:5<br>25 | 4:4<br>16 | 21/06/18<br>10/09/18<br>12/01/22 | Archwiliad TG - Seiberddiogelwch (Chwefror 2019) | Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Ebrill 2020) | Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Dilyniant) (Mai 2021) | Archwiliad TG - Rheoli Trwyddedau Meddalwedd (Ionawr 2022) | Archwiliad TG - Cyfrifiadura yn y Cwmwl (Mawrth 2023) | Rheoli Mynediad Corfforaethol (Risgiau Allweddol) (Mawrth 2024) | Rheoli Cyflenwyr TG (Gorffennaf 2024) |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Ebrill 2021) | | Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Dilyniant) (Medi 2022)<br>Rheoli Gwendidau TG (Medi 2022)<br>Rheoli Gwendidau TG (Ionawr 2023) | | Archwiliad TG - Seiberddiogelwch - Dadansoddiad o'r Bylchau NCSC CAF (Tachwedd 2024) |
| YM5 | Y risg o fethu â gweithredu newidiadau cenedlaethol i'r system addysg a bodloni'r heriau addysgol yn y dyfodol | 4:5<br>20 | 4:4<br>16 | 20/06/18<br>12/01/22 | | | | | | Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu (Awst 2023) | |
| YM7 | Risg nad yw'r Cyngor yn ddigon gwydn i allu darparu gwasanaethau yng ngoleuni newidiadau allanol | 4:4<br>16 | 3:4<br>12 | 20/06/18<br>12/01/22 | | Rheoli Risgiau Brexit (Ionawr 2020)<br>Parhad Busnes: (Chwefror 2020) | Adolygu'r Ymateb Argyfwng i COVID-19 (Ebrill 2020) | Sicrwydd Rheoli Argyfwng COVID-19 (Mai 2021) | | Gwytnwch Sefydliadol (Tachwedd 2023) | |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM9 | Risg o ddiffyg tai addas y gall preswylwyr lleol eu fforddio yn eu cymunedau | 4:5<br>20 | 4:5<br>20 | 12/01/22 | | | | | Trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu tai addas (Mehefin 2022) | | Datblygu Tai (Rhagfyr 2024) |
| YM10 | Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | 5:4<br>20 | 4:2<br>8 | 20/06/18<br>12/01/22 | Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Mehefin 2018) | | Panel Rhiant Corfforaethol (Ionawr 2021) | | | Rheoli Risg Strategol - Diogelu (YM10) (Ionawr 2024) | |
| YM11 | Risg bod tlodi cynyddol yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor | 4:5<br>20 | 4:5<br>20 | 18/08/20<br>12/01/22 | Diwygio Lles (Ebrill 2019) | | | | Tlodi (Mawrth 2023) | | |
| YM13 | Risg bod newid hinsawdd yn effeithio'r Ynys ac nad yw'r Cyngor yn sefydliad net sero erbyn 2030 | 4:4<br>16 | 4:3<br>12 | 12/01/22 | | | | | Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd (ZM) (Medi 2022) | | Adolygiad Sero Net (Asesiad Allanol) (GAYG) |
| YM14 | Risg nad yw asedau ffisegol yr Ynys yn addas i bwrpas, neu na fyddant yn diwallu | 5:5<br>25 | 4:4<br>16 | 12/01/22 | | | | Buddsoddi mewn Asedau (Tachwedd 2021) | | | Rheoli Asedau Ffisegol y Cyngor (Mawrth 2025) |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | anghenion preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr yn y dyfodol | | | | | | | | | | |
| YM16 | Risg nad yw'r Cyngor yn gallu rheoli newid yn effeithiol gan gyfyngu ar ei allu i foderneiddio a darparu gwasanaethau cynaliadwy, effeithiol ac effeithlon | 4:5<br>20 | 3:4<br>12 | 11/07/23<br>02/01/24 | | | | | | | Archwiliad TG - Rheoli'r Ddesg Wasanaeth (Adroddiad Drafft) |

Tudalen 106

## Atodiad C: Gwaith Archwilio Mewnol Arall yn 2024-25

| Teitl yr Archwiliad | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Ebrill 2024 | **Cyfyngedig** | 0 | 2 | 4 |
| Cyrchfan - Tîm Morwrol: Prosesau Incwm | Mehefin 2024 | **Rhesymol** | 0 | 1 | 6 |
| Prosesau Debyd Uniongyrchol | Awst 2024 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 3 |
| Monitro Parhaus - Anfonebau Dyblyg | Medi 2025 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |
| Trosolwg o Bartneriaethau (YM15) | Hydref 2024 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 6 |
| Ad-daliadau Refeniw - Risg Bygythiad Mewnol | Tachwedd 2024 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 4 |
| Gwariant ar Gontractwyr Trydanol (Ymchwiliad) | Ionawr 2025 | **Amherthnasol** | 0 | 0 | 4 |
| Archwiliad TG - Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS) | Mawrth 2025 | **Rhesymol** | 0 | 2 | 3 |
| Adennill dyledion y Dreth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion (ail ddilyniant) | Mawrth 2025 | **Cyfyngedig** | 0 | 2 | 3 |
| Gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (dilyniant cyntaf) | Mawrth 2025 | **Cyfyngedig** | 0 | 0 | 4 |
| Cyrchfan - Tîm Morwrol: Prosesau Incwm (dilyniant cyntaf) | Mawrth 2025 | **Rhesymol** | 0 | 1 | 1 |
| Rhaglenni Addysg Gynnar a Grant Gofal Plant | Mawrth 2025 | **Rhesymol** | 0 | 2 | 5 |
| | | **12** | **0** | **10** | **43** |

Tudalen 107

# Atodiad D: Cynllun Gweithredu Hunanarfarniad Blynyddol Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

| Rhif Cyf | Safonau PSIAS a Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) | Maes Gwella | Swyddog Cyfrifol | Diweddariad ar Gynnydd - 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| 1. | 2050 – Cyd-drefniant a dibyniaeth | Mae Safon 2050 yn y PSIAS yn cadarnhau ei bod yn ofynnol i'r cynllun ar sail risg gynnwys dull a ddatblygwyd yn ddigonol o ddefnyddio ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith a allai fod yn ofynnol er mwyn gallu dibynnu ar y ffynonellau hynny.<br><br>Er bod prosesau presennol ar gyfer datblygu'r cynllun archwilio mewnol seiliedig ar risg yn cydymffurfio â PSIAS, byddai cwblhau map sicrwydd yn sicrhau bod unrhyw fylchau o ran sicrwydd neu feysydd lle mae gormod o sicrwydd yn fwy amlwg.<br><br>Datblygwyd map sicrwydd. Mae Archwilio Mewnol wedi cofnodi gwybodaeth ar gyfer y sicrwydd trydedd linell, ac mae'r map sicrwydd yn nwylo'r Tîm Perfformiad ar hyn o bryd er mwyn cofnodi sicrwydd llinell gyntaf ac ail linell. | **Pennaeth Archwilio a Risg / Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol / Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) / Rheolwyr Busnes y Gwasanaethau** | Parhaus<br><br>Yn ddiweddar (Mai 2025) mae CIPFA wedi cyhoeddi canllawiau ar yr adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol a ddaw i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Penderfynwyd disgwyl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi cyn bwrw ymlaen i gofnodi sicrwydd llinell gyntaf ac ail linell. Mae sicrwydd trydedd linell yn cael ei gwblhau fel mater o drefn gan Archwilio Mewnol yn dilyn gwaith archwilio perthnasol. |

Tudalen 108

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 26 Mehefin 2025 |
| **Pwnc:** | Siarter Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y Pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1)<br><br>Yn ogystal, mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys gofyniad clir i adolygu a chymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio gweithgareddau, pwrpas, awdurdod a chyfrifoldebau archwilio mewnol. (3.4.8.10.2)<br><br>Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang y Sector Cyhoeddus hefyd yn darparu ar gyfer adolygu'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am roi cymeradwyaeth derfynol i'r Siarter. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Y tro diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol oedd ym mis Ebrill 2024.

1.2. Ers hynny, daeth fframwaith newydd ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU i rym ar 1 Ebrill 2025. Mae'n cynnwys:

- y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA)
- Nodyn Gweithredu - safonau Archwilio mewnol Byd-eang yn y Sector Cyhoeddus yn y DU, a gyhoeddwyd gan y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) sy'n darparu cyd-destun sector-benodol ar gyfer sector cyhoeddus y DU, dehongliadau yn gysylltiedig â gofynion y GIAS a'r amgylchiadau penodol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ledled sector cyhoeddus y DU a rhai gofynion ychwanegol y mae'r RIASS yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
- Cod CIPFA ar Lywodraethu Archwilio Mewnol, sy'n nodi'r gofynion penodol sy'n berthnasol i'r sector llywodraeth leol.

1.3. Gyda'i gilydd, mae'r fframwaith newydd yn cyflwyno gofyniad i'r prif swyddog archwilio ddatblygu a chynnal siarter archwilio mewnol sy'n cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU.

1.4. Mae Cyngor Sir Ynys Môn eisoes wedu bodloni mwyafrif y gofynion sydd yn y fframwaith newydd mewn egwyddor ac fe gymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu rhai o'r mân newidiadau i'r siarter yn Ebrill 2024 yn barod ar gyfer y Safonau newydd.

1.5. Mae'r Siarter diwygiedig yn sicrhau bod y gofynion cael yn eu gwneud mewn modd eglur a bod adolygiadau yn cynnwys cryfhau'r trefniadau llywodraethiant mewn perthynas ag archwilio mewnol, yn cynnwys ei fandad, sydd o fewn Llywodraeth leol yn deillio'n bennaf o'i reoliadau, a llinell adrodd archwilio mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yr angen i uwch reolwyr weithio â'r Pennaeth archwilio a Risg er mwyn sicrhau bod y siarter yn gosod allan y trefniadau sydd eu hangen ar y swyddogaeth er mwyn gallu cyflawni dibenion archwilio mewnol hefyd yn cael eu cryfhau.

1.6. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r Siarter (yn unol â'r Cyfansoddiad 3.4.8.10.3).

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol diwygiedig.

# Siarter Archwilio Mewnol

**Mehefin 2025**





**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Pwrpas archwilio mewnol 2

Mandad archwilio mewnol 2

Annibyniaeth, Safle yn y Sefydliad a Chysylltiadau Adrodd 3

Trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 4

Cyfrifoldebau uwch reolwyr 5

Rôl a chyfrifoldebau'r Pennaeth Archwilio a Risg 5

Cwmpas a mathau o wasanaethau archwilio mewnol 9

Rôl archwilio mewnol mewn gwaith yn gysylltiedig â thwyll 10

Mesurau diogelu i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd 10

Newidiadau i'r Mandad a'r Siarter 11

Atodiad A – Detholiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 11

Atodiad B – Fframwaith Sicrwydd 13


Tudalen 112

# Cyflwyniad

1. Daeth fframwaith newydd ar gyfer yr arfer o archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU i rym ar 1 Ebrill 2025. Mae'n cynnwys:

    - y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA)
    - Nodyn Gweithredu – Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd gan y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS[1]) sy'n darparu cyd-destun sector-benodol ar gyfer sector cyhoeddus y DU, dehongliadau o ofynion y GIAS a'r amgylchiadau penodol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ledled sector cyhoeddus y DU a rhai gofynion ychwanegol y mae'r RIASS yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
    - Cod CIPFA ar Lywodraethu Archwilio Mewnol, sy'n nodi'r gofynion penodol sydd yn berthnasol i'r sector llywodraeth leol.

2. Gyda'i gilydd, mae'r fframwaith newydd yn cyflwyno gofyniad i'r prif swyddog archwilio ddatblygu a chynnal siarter archwilio mewnol.

3. Mae Siarter Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn cyflawni'r rhan fwyaf o ofynion y fframwaith newydd ers sawl blwyddyn ac mae'n gyfrwng i sicrhau bod archwilio mewnol yn parhau i fod yn berthnasol, ei fod yn gallu addasu a'i fod yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y Cyngor.

4. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r Siarter (yn unol â'r Cyfansoddiad 3.4.8.10.2).

[1] Y RIASS yw Trysorlys EM ar gyfer llywodraeth ganolog; Llywodraeth yr Alban, Adran Gyllid Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llywodraeth ganolog a'r sector iechyd o fewn eu gweinyddiaethau; yr Adran Iechyd mewn perthynas â'r sector iechyd yn Lloegr; a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg mewn perthynas â llywodraeth leol ledled y DU.

# Pwrpas archwilio mewnol

5. Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu Cyngor Sir Ynys Môn i greu, amddiffyn a chynnal gwerth trwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad gwrthrychol, ar sail risg ac annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rheolwyr.

6. Mae rôl y swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnwys:

   - cynorthwyo'r awdurdod i gyflawni ei amcanion strategol trwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol ar sail risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol
   - hyrwyddo arferion llywodraethu da trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a chyfrannu at adolygiad llywodraethu blynyddol yr awdurdod
   - cynghori ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar gyfer prosiectau, rhaglenni a newidiadau sylweddol mewn systemau
   - mynediad at ddiddordebau'r awdurdod mewn trefniadau cydweithio a hyd braich

7. Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol fwyaf effeithiol pan:

   - mae'n cael ei chyflawni gan swyddogion proffesiynol cymwys, yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU sy'n cael eu gosod er budd y cyhoedd.
   - mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn annibynnol ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
   - nid oes dylanwad amhriodol ar archwilwyr mewnol ac maent wedi ymrwymo i gynnal asesiadau gwrthrychol.

# Mandad archwilio mewnol

8. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd â chyfrifoldeb am gymeradwyo'r mandad archwilio mewnol ond, er hynny, daw mwyafrif o fandad y swyddogaeth archwilio mewnol o ddeddfwriaeth.

9. O fewn llywodraeth leol yn y DU, mae awdurdod archwilio mewnol yn derbyn cefnogaeth statudol drwy'r rheoliadau a gyhoeddwyd gan lywodraethau cenedlaethol y DU. Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yw'r sail ar gyfer mandad / awdurdod archwilio mewnol yng Nghymru.

   **Archwilio Mewnol**

   7. (1) Rhaid i gorff perthnasol gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system o reoli mewnol.

   (2) Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod o'r corff hwnnw, os yw'r corff yn ei gwneud yn ofynnol—

   (a) trefnu bod unrhyw ddogfennau'r corff sy'n ymwneud â'i gofnodion cyfrifyddu a chofnodion eraill ar gael fel y mae'n ymddangos i'r corff hwnnw ei fod yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad; a

   (b) rhoi i'r corff y cyfryw wybodaeth ac esboniad y mae'r corff hwnnw'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at y diben hwnnw.

   (3) Rhaid i gorff perthnasol mwy, o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn, gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei archwiliad mewnol.

   (4) Rhaid ystyried canfyddiadau'r adolygiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), fel rhan o'r ystyriaeth o'r system o reoli mewnol y cyfeirir ati yn rheoliad 5(3), gan y pwyllgor neu'r corff y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

10. Mae Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal swyddogaeth archwilio mewnol barhaus o dan oruchwyliaeth annibynnol a gyda throsolwg Pwyllgor

Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, ac yn ddarostyngedig i safonau archwilio proffesiynol (4.8.5.3.1).

11. Mae awdurdod y swyddogaeth archwilio mewnol yn cael ei gefnogi hefyd gan ei bod yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae awdurdod o'r fath yn caniatáu mynediad rhydd a dilyffethair i'r Pwyllgor.

12. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn awdurdodi'r swyddogaeth archwilio mewnol i:

    - Gael mynediad llawn a dilyffethair at yr holl swyddogaethau, data, cofnodion, gwybodaeth, eiddo ffisegol a gweithwyr perthnasol er mwyn cyflawni cyfrifoldebau archwilio mewnol. Mae archwilwyr mewnol yn gyfrifol am gyfrinachedd a diogelu cofnodion a gwybodaeth.
    - Dyrannu adnoddau, pennu mynychder, dewis pynciau, penderfynu cwmpas gwaith, defnyddio technegau a chyhoeddi gohebiaeth er mwyn cyflawni amcanion y swyddogaeth.
    - Derbyn cymorth gan staff a gwasanaethau arbenigol eraill o fewn neu du allan i'r Cyngor er mwyn cwblhau gwasanaethau archwilio mewnol.

13. Mae hawliau mynediad archwilio mewnol yn cael eu cefnogi ymhellach gan Reolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor (4.8.5.3.2), gan roi i'r swyddogaeth yr awdurdod i:

    - gael mynediad ar unrhyw amser rhesymol i eiddo, tir neu safleoedd contract y Cyngor.
    - cael mynediad i'r holl gofnodion, dogfennau neu ohebiaeth yn ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y Cyngor.
    - gofyn am, a derbyn unrhyw esboniadau sy'n angenrheidiol gan weithwyr y Cyngor.
    - gofyn i weithwyr y Cyngor ddangos arian parod, storfeydd neu unrhyw eiddo arall o dan reolaeth y Cyngor er mwyn eu harchwilio.



## Annibyniaeth, Safle yn y Sefydliad a Chysylltiadau Adrodd

14. Mae safle'r Pennaeth Archwilio a Risg o fewn y sefydliad ar lefel sy'n caniatáu i wasanaethau a chyfrifoldebau archwilio mewnol gael eu cyflawni heb ymyrraeth gan reolwyr, a thrwy hynny sefydlu annibyniaeth y swyddogaeth archwilio mewnol.

15. O safbwynt swyddogaeth, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac o safbwynt gweinyddol (gweithredoedd dydd i ddydd, er enghraifft) mae'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151. Mae'r cysylltiadau hyn felly'n arbennig o bwysig ac yn gryf o fewn y Cyngor.

16. Mae safle'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu'r awdurdod a'r statws o fewn y sefydliad i ddod â materion i sylw uwch reolwyr yn uniongyrchol ac uwchgyfeirio materion at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, pa fo hynny'n angenrheidiol, heb ymyrraeth ac mae'n cefnogi gallu archwilwyr mewnol i gynnal gwrthrychedd.

17. Er bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 mewn perthynas â threfniadau gweinyddol, gall hefyd fynd yn uniongyrchol at y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro ac mae Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor yn gwneud darpariaeth ar gyfer hynny (4.8.5.3.5).

18. Mae'r llinellau adrodd estynedig hyn yn darparu digon o annibyniaeth i'r swyddogaeth archwilio mewnol o ran y gweithgareddau y mae'n eu hadolygu i alluogi'r archwilwyr i gyflawni eu dyletswyddau'n wrthrychol a chaniatáu iddynt lunio barn broffesiynol ddiduedd ac effeithiol a chodi materion y mae angen eu gwella.

19. Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn gwerthuso perfformiad y Pennaeth Archwilio a Risg bob blwyddyn ac mae'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu sylwadau ac adborth hefyd.

20. Mae hyn yn sicrhau nad yw barn y Pennaeth Archwilio a Risg a chwmpas y gwaith yn gallu cael eu cyfyngu na'u heffeithio gan y trefniadau rheoli llinell ar ei chyfer o fewn y Cyngor.

21. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cadarnhau i'r Pwyllgor Llywodraethu annibyniaeth sefydliadol y swyddogaeth archwilio.

22. Os nad yw'r strwythur llywodraethu yn cefnogi annibyniaeth sefydliadol, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi dogfennu nodweddion y strwythur llywodraethu sydd yn cyfyngu ar annibyniaeth ac unrhyw fesurau amddiffyn a ddefnyddir i gyflawni'r egwyddor o annibyniaeth.

23. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn datgelu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unrhyw ymyrraeth y daeth archwilwyr mewnol ar ei draws yn gysylltiedig â chwmpas, cyflawni neu gyfathrebu gwaith a chanlyniadau archwilio mewnol. Bydd y datgeliad yn cynnwys cyfleu goblygiadau ymyrraeth o'r fath ar effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio mewnol a'i gallu i gyflawni ei mandad.

# Trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

24. O dan Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn Sector Cyhoeddus y DU, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sefydlu, cynnal a sicrhau fod gan swyddogaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Ynys Môn ddigon o awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau.

25. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cael eu nodi yn ei Gylch Gorchwyl, sydd yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor (3.4.8.10). Mae detholiad o'r adran berthnasol mewn perthynas â chyfrifoldebau trosolwg archwilio mewnol y Pwyllgor yn cael ei atgynhyrchu yn Atodiad A.

26. Fe wnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a chymeradwyo newidiadau i'w Gylch Gorchwyl er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025.

## Cyfrifoldebau uwch reolwyr

27. Er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol, rydym yn gofyn i uwch reolwyr:

- hyrwyddo rôl a gwaith archwilio mewnol ymysg staff o fewn yr awdurdod a sefydliadau partner y bydd archwilio mewnol yn gweithio â nhw
- hwyluso mynediad at uwch reolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac archwilydd allanol yr Awdurdod
- cynorthwyo, lle bo'n bosib, i gael mynediad at ddarparwyr sicrwydd allanol, megis rheoleiddwyr, arolygwyr ac ymgynghorwyr
- ymateb yn adeiladol i ganfyddiadau, safbwyntiau a chyngor archwilio mewnol
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol da i lwyddiant yr awdurdod, a chyfraniad archwilio mewnol
- ymwneud yn llawn ac yn hyblyg â'r broses gynllunio archwiliadau a darparu gwybodaeth a mewnwelediad i feysydd risg uchel, neu feysydd o bryder neu ffocws strategol.
- enwebu ac ymrwymo swyddogion arweiniol ar gyfer pob aseiniad archwilio mewnol a pherson cyswllt ar gyfer rheoli'r broses archwilio mewnol.
- ymwneud yn brydlon ag Archwilio Mewnol er mwyn gosod cwmpas y gwaith a chytuno ar gylch gorchwyl, delio gydag ymholiadau gan y tîm archwilio a thrafod adroddiadau drafft a therfynol.
- darparu tystiolaeth bod y gweithredoedd a gytunwyd gyda rheolwyr wedi cael eu gweithredu'n brydlon.

## Rôl a chyfrifoldebau'r Pennaeth Archwilio a Risg

28. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn uwch reolwr profiadol sy'n meddu ar gymwysterau addas ac mae'n gallu ymwneud yn rheolaidd ac agored ar draws y Cyngor, yn arbennig gydag uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

### Moeseg a Phroffesiynoldeb

29. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn sicrhau fod archwilwyr mewnol yn:

- Cydymffurfio â GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU, gan gynnwys egwyddorion moeseg a phroffesiynoldeb (uniondeb, gwrthrychedd, cynhwysedd, gofal proffesiynol dyladwy a chyfrinachedd), ac yn arbennig y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sydd hefyd yn cael eu galw'n 'Egwyddorion Nolan') sydd yn berthnasol i bob gwas cyhoeddus (gan gynnwys contractwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus).
- Deall, parchu, cyflawni a chyfrannu at ddisgwyliadau dilys a moesegol y Cyngor a gallu adnabod ymddygiad sydd yn groes i'r disgwyliadau hynny.
- Annog a hyrwyddo diwylliant ar sail moeseg o fewn y Cyngor a rhoi gwybod am ymddygiad sefydliadol nad yw'n gyson â disgwyliadau moesegol y Cyngor a gweithio gydag eraill i hyrwyddo ac arddangos manteision llywodraethu da ym mhob rhan o'r Cyngor.
- Deall polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth benodol fel mater o drefn a rhannu neu gyhoeddi gwybodaeth lle mae rhwymedigaethau statudol yn bodoli.
- Meddu ar gymhwyster priodol, bod a rhaglen ddatblygiad proffesiynol personol weithredol ac ymrwymiad i welliant parhaus.

## Gwrthrychedd

30. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn sicrhau fod y swyddogaeth archwilio mewnol yn parhau i fod yn rhydd o'r holl amodau sy'n bygwth gallu archwilwyr mewnol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn ddiduedd, gan gynnwys materion yn ymwneud â dewis darnau o waith, eu cwmpas, amlder, amseru a chyfathrebu.

31. Os yw'r Pennaeth Archwilio a Risg yn penderfynu y gallai gwrthrychedd gael ei amharu, mewn gwirionedd neu'n ymddangosiadol, yna bydd manylion yr amharu'n cael ei ddatgelu i bob parti priodol.

32. Bydd archwilwyr mewnol yn cynnal agwedd feddyliol ddiduedd sy'n eu caniatáu i gyflawni darnau o waith yn wrthrychol fel eu bod yn credu yn eu gwaith, nid ydynt yn cyfaddawdu ar ansawdd, ac nid ydynt yn gosod eu barn ynglŷn â materion archwilio yn ail i farn eraill, naill ai mewn gwirionedd neu'n ymddangosiadol.

33. Ni fydd gan archwilwyr mewnol unrhyw gyfrifoldebau gweithredol uniongyrchol nac awdurdod yn gysylltiedig â'r gweithgareddau y byddant yn eu hadolygu. O ganlyniad, ni fydd archwilwyr mewnol yn gweithredu rheolaethau mewnol, datblygu gweithdrefnau, gosod systemau ac ni fyddant yn ymwneud â gweithgareddau eraill a allai amharu ar eu barn, gan gynnwys:

    - Asesu gweithrediadau penodol yr oeddent yn gyfrifol amdanynt yn ystod y flwyddyn flaenorol na chyflawni dyletswyddau gweithredol ar gyfer y Cyngor neu gyrff sy'n gysylltiedig ag o.
    - Cyfarwyddo gweithgareddau unrhyw un o weithwyr y Cyngor nad yw'n cael ei gyflogi gan y swyddogaeth archwilio mewnol, ac eithrio i'r graddau bod gweithwyr o'r fath wedi cael eu penodi i dimau archwilio mewnol neu i gynorthwyo archwilwyr mewnol.

34. Bydd archwilwyr mewnol yn:

    - Datgelu unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd, mewn gwirionedd neu'n ymddangosiadol, i bartïon priodol o leiaf unwaith y flwyddyn.
    - Arddangos gwrthrychedd proffesiynol wrth gasglu, arfarnu a chyfathrebu gwybodaeth a gwneud asesiadau cytbwys o'r holl ffeithiau sydd a'r gael a ffeithiau ac amgylchiadau perthnasol a byddant yn adrodd ar yr hyn a ganfyddir yn ddi-ofn.
    - Cymryd camau angenrheidiol i osgoi gwrthdaro buddiannau, rhagfarn a dylanwad amhriodol.

## Rheoli'r Swyddogaeth Archwilio Mewnol

35. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn gyfrifol am:

    - Sicrhau fod swyddogaeth archwilio mewnol y Cyngor yn cydymffurfio ag elfennau gorfodol safonau archwilio mewnol perthnasol.
    - Ddatblygu cynllun archwilio mewnol ar sail risg, o leiaf unwaith y flwyddyn, sydd yn ystyried mewnbwn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr. Trafod y cynllun gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr a chyflwyno'r cynllun i'r Pwyllgor ei adolygu a'i gymeradwyo.
    - Cynhyrchu casgliad archwilio mewnol blynyddol ar sail tystiolaeth er mwyn cyfrannu at y sicrwydd a ddarperir i'r 'rhai hynny sydd yn gyfrifol am lywodraethu' ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a fydd yn cynnwys barn ar effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Bydd y casgliad yn adlewyrchu'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn, gan grynhoi'r prif ganlyniadau a chasgliadau ac amlygu unrhyw bryderon penodol.
    - Cyfathrebu effaith cyfyngiadau o ran adnoddau ar y cynllun archwilio mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr.

- Adolygu ac addasu'r cynllun archwilio mewnol, yn ôl y gofyn, mewn ymateb i newidiadau o ran busnes, risgiau, gweithrediadau, rhaglenni, systemau a rheolaethau'r Cyngor.
- Cyfathrebu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr os gwneir newidiadau dros dro sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol.
- Sicrhau fod ymrwymiadau archwilio mewnol yn cael eu cyflawni, eu dogfennu a'u cyfathrebu yn unol â GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU a chyfreithiau a/neu reoliadau.
- Sicrhau fod y swyddogaeth yn llwyr ymrwymedig i bolisi iaith Gymraeg y Cyngor, adrodd yn ddwyieithog a sicrhau fod y tîm yn cynnwys staff dwyieithog sy'n gallu cynnal adolygiadau yn iaith ddewisol yr unigolion sy'n cynorthwyo gyda'r adolygiadau.
- Cymryd camau dilynol mewn perthynas â chanfyddiadau ymrwymiadau a chadarnhau fod cynlluniau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith a chyfathrebu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr ar gyfer pob aseiniad gwaith, fel y bo'n briodol.
- Sicrhau fod y swyddogaeth archwilio yn gyfunol yn meddu ar neu'n caffael y wybodaeth, sgiliau a chymwyseddau a chymwysterau eraill sydd eu hangen i gyflawni gofynion GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU a chyflawni'r mandad archwilio mewnol.
- Nodi ac ystyried tueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar y Cyngor a rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr fel y bo'n briodol.
- Ystyried tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac arferion archwilio mewnol llwyddiannus, a sefydlu a sicrhau y glynir at fethodolegau a ddyluniwyd i roi arweiniad i'r swyddogaeth archwilio mewnol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor, oni bai bod y fath bolisïau a gweithdrefnau'n gwrthdaro â'r siarter archwilio mewnol neu GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU. Bydd unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei ddatrys neu ei gofnodi a bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr.
- Cydlynu gweithgareddau ac ystyried dibynnu ar waith darparwyr mewnol ac allanol eraill sy'n darparu sicrwydd a gwasanaethau ymgynghori. Os nad yw'r Pennaeth Archwilio a Risg yn gallu cyflawni lefel briodol o gydlyniant, mae'n rhaid rhoi gwybod i uwch reolwyr am y mater ac, os bydd yn angenrheidiol, rhaid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Gweithio'n agos â rheoleiddwyr allanol y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau archwilio.
- Cynorthwyo'r Swyddog Adran 151 statudol i gyflawni ei ddyletswyddau.
- Cefnogi'r gofyn i geisio effeithlonrwydd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian.
- Darparu sicrwydd dibynadwy i reolwyr ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu trefniadau rheoli mewnol, risg a llywodraethu.
- Gyrru mentrau atal twyll y Cyngor ac arfarnu'r risg o dwyll a'r ffordd y mae'r Cyngor yn ei reoli.
- Darparu cyngor a gwasanaeth ymgynghori gwrthrychol a chefnogol mewn perthynas â datblygu rhaglenni a phrosesau newydd a / neu newidiadau sylweddol mewn rhaglenni a phrosesau presennol, gan gynnwys dylunio rheolaethau priodol.
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflawni ei gyfrifoldebau; monitro'r gwaith o weithredu camau y cytunwyd arnynt gan reolwyr; sicrhau bod arferion gwell a gwersi a ddysgwyd yn codi o'i weithgareddau archwilio a throsolwg o'r swyddogaeth archwilio yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad.

## Cyfathrebu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Uwch Reolwyr

36. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adrodd o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr mewn perthynas â:

- Mandad y swyddogaeth archwilio mewnol.
- Y cynllun archwilio mewnol a pherfformiad mewn perthynas â'i gynllun.
- Yr adnoddau sydd eu hangen ar archwilio mewnol ac effaith diffyg adnoddau digonol ar allu'r swyddogaeth archwilio mewnol i gyflawni ei fandad.
- Newidiadau sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol ac adnoddau.
- Amhariadau posib ar annibyniaeth, gan gynnwys datgeliadau perthnasol fel y bo'n berthnasol.
- Canlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella, sy'n cynnwys cydymffurfiaeth y swyddogaeth archwilio mewnol â GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU a chynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a chyfleoedd i wella.
- Risgiau sylweddol a materion yn gysylltiedig â rheoli risgiau, gan gynnwys y risg o dwyll, materion eraill y mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn canolbwyntio arnynt a allai ymyrryd â chyflawni amcanion strategol y Cyngor.
- Canlyniadau gwasanaethau sicrwydd ac ymgynghori.
- Ymatebion rheolwyr i risg a allai fod yn annerbyniol ym marn y swyddogaeth archwilio mewnol, neu dderbyn risg sydd tu hwnt i archwaeth risg y Cyngor.

## Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella

37. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn datblygu, gweithredu a chynnal rhaglen sicrhau ansawdd a gwella sydd yn rhoi sylw i bob agwedd o'r swyddogaeth archwilio mewnol.

38. Bydd y rhaglen yn cynnwys asesiadau allanol a mewnol o gydymffurfiaeth y swyddogaeth archwilio mewnol â GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU, yn ogystal â mesur perfformiad er mwyn asesu cynnydd y swyddogaeth archwilio mewnol wrth gyflawni ei amcanion a hyrwyddo gwelliant parhaus.

39. Bydd y rhaglen hefyd yn asesu, os yw'n berthnasol, cydymffurfiaeth â chyfreithiau a/neu reoliadau sy'n berthnasol i archwilio mewnol. Hefyd, os yw'n berthnasol, bydd yr asesiad yn cynnwys cynlluniau i fynd i'r afael â diffygion a chyfleoedd gwella'r swyddogaeth archwilio mewnol.

40. Bob blwyddyn, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cyfathrebu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr ynglŷn â rhaglen sicrhau ansawdd a gwella'r swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys canlyniadau asesiadau mewnol (monitro parhaus ac asesiadau hunanarfarnu rheolaidd) ac asesiadau allanol.

41. Bydd asesiadau mewnol yn cael eu cwblhau o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan asesydd annibynnol cymwys[2] neu dîm asesu o du allan i'r Cyngor.

[2] Mae'r Gosodwr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) wedi penderfynu fod rhaid i o leiaf un person o'r tîm asesu feddu ar y nodweddion a amlinellir er mwyn bod yn gymwys i fod yn brif swyddog archwilio.

# Cwmpas a mathau o wasanaethau archwilio mewnol

42. Mae cwmpas y swyddogaeth archwilio mewnol yn ymwneud â holl weithgareddau'r Cygor ac mae'n cynnwys mynediad dilyffethair at holl asedau a holl weithwyr y Cyngor. Mae ein gwaith yn darparu dull ar sail risgiau sy'n caniatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg ffurfio a thystiolaethu ei barn ar yr amgylchedd rheoli er mwyn cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

43. Mae cwmpas gweithgareddau archwilio mewnol hefyd yn cynnwys archwilio tystiolaeth yn wrthrychol er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rheolwyr ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli ar gyfer y Cyngor.

44. Rydym yn canolbwyntio ar y cwsmer wrth gynllunio archwiliadau unigol, o lunio cwmpas i wireddu'r prosiect, ac rydym yn cynnwys aelodau, uwch reolwyr a staff.

45. Gallai ymrwymiadau archwilio mewnol gynnwys arfarnu p'un a yw:

- Risgiau'n gysylltiedig â chyflawni amcanion strategol y Cyngor yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.
- Gweithredoedd swyddogion, cyfarwyddwyr, rheolwyr, gweithwyr a chontractwyr y Cyngor, neu bartïon perthnasol eraill, yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor a chyfreithiau, rheoliadau a safonau llywodraethu sy'n berthnasol iddo.
- Canlyniadau gweithrediadau a rhaglenni yn gyson â nodau ac amcanion a osodwyd.
- Gweithrediadau a rhaglenni'n cael eu cyflawni'n effeithiol, effeithlon, moesegol a theg.
- Prosesau a systemau sefydledig yn caniatáu cydymffurfiaeth â'r polisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau a allai effeithio'n sylweddol ar y Cyngor.
- Cyfanrwydd gwybodaeth a'r dulliau a ddefnyddir i nodi, mesur, dadansoddi, dosbarthu ac adrodd ar wybodaeth o'r fath yn ddibynadwy.
- Adnoddau ac asedau'n cael eu caffael yn ddarbodus, eu defnyddio'n effeithlon a chynaliadwy, a'u hamddiffyn yn ddigonol.

46. Y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n penderfynu ar yr agwedd gyffredinol a bydd yn ystyried lefel y sicrwydd sydd ei angen, amcanion strategol y Cyngor, lefel y newid o fewn y Cyngor, yr archwaeth risg cyffredinol a'r diwylliant, archwiliadau blaenorol a rhoi camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda rheolwyr ar waith.

47. Mae ein strategaeth yn ystyried y gofrestr risgiau strategol, trafodaethau gydag uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a sicrwydd mewnol neu allanol arall y gallai'r Cyngor ei dderbyn er mwyn osgoi dyblygu a chyd-gordio gwaith rheoleiddio. Yn benodol, mae'n ystyried fframwaith sicrwydd y Cyngor (Atodiad B).

## Gwasanaethau ymgynghorol

48. O bryd i'w gilydd, gallai'r swyddogaeth Archwilio Mewnol ddarparu canllawiau a chyngor, e.e. ar systemau newydd, neu gall helpu i ddatblygu prosesau newydd, ar yr amod nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn derbyn cyfrifoldebau rheoli. Efallai y bydd gwasanaethau hefyd yn gofyn i ni gwblhau prosiectau penodol, o bryd i'w gilydd, mewn rôl ymgynghorol. Ar yr adegau hyn rydym yn datgan yn glir o'r cychwyn cyntaf ein bod yn gweithio mewn rôl ymgynghorol yn hytrach nag mewn rôl archwilio mewnol ac nid ydym yn darparu sicrwydd archwilio yn yr achosion hynny.

49. Gall cyfleoedd i wella effeithlonrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli gael eu hadnabod wrth gyflawni gwaith ymgynghorol.

## Rôl archwilio mewnol mewn gwaith yn gysylltiedig â thwyll

50. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau fod systemau rheoli cyfrifeg y Cyngor yn cynnwys mesurau i atal a chanfod gwallau a thwyll.

51. Oherwydd hynny, mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnal gweithgareddau er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth yn ei allu i leihau'r risg bod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.

52. Er hynny, nid yw archwilio mewnol yn gyfrifol am reoli'r risg o dwyll - uwch reolwyr y Cyngor sy'n gyfrifol am hynny.

53. O dan bolisi Atal Twyll a Llygredd y Cyngor mae'n ofynnol i reolwyr hysbysu'r Pennaeth Archwilio a Risg os yw twyll, llwgrwobrwyo, llygredd neu amhriodoldeb yn cael ei amau neu ei ganfod, fel sail i'w barn am yr amgylchedd rheoli mewnol a'r rhaglen waith archwilio mewnol, yn ogystal â chaniatáu iddi sicrhau bod y Cyngor yn cymryd camau priodol.

54. Er bod y swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnal prosiectau rhagweithiol i nodi twyll, llwgrwobrwyo a / neu lygredd posib a'i bod yn gallu cynnal ymchwiliadau arbennig i honiadau o afreolaidd-dra, mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg yr hawl i benderfynu ar gamau priodol a gallai hynny olygu cynnal ymchwiliad ar y cyd neu ymchwiliad gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, dylai rheolwyr anfon canlyniadau'r holl weithgareddau at y Pennaeth Archwilio a Risg i'w cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol ar Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.

55. Gall yr archwiliwr allanol gynnal ymchwiliadau, naill ai ar y cyd ag archwilio mewnol, neu'n annibynnol os credir bod hynny'n angenrheidiol.

## Mesurau diogelu i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd

56. Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid i archwilio mewnol fod yn annibynnol a rhaid iddo gael ei weld fel gwasanaeth annibynnol. I sicrhau hyn, bydd archwilio mewnol yn gweithredu o fewn fframwaith sy'n sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol a gweithgareddau gweithredol yn cael eu cadw ar wahân. Os bydd unrhyw wrthdaro neu amhariad yn codi neu'n dod i'r amlwg, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael ei hysbysu.
57. Gwneir pob ymdrech i warchod gwrthrychedd trwy reoli cyswllt staff archwilio â dyletswyddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posib. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol yn dderbyniol wrth gymryd rhan mewn prosiectau gwella gwasanaeth lle byddir yn cyflawni rôl 'ffrind beirniadol'.
58. Mae trefniadau priodol ar waith i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth a gwrthrychedd oherwydd bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn rheolwr llinell i'r gwasanaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, sy'n ymwneud ag arwain rhaglen yswiriant y Cyngor, a chychwyn a chymeradwyo trafodion tu allan i'r swyddogaeth archwilio mewnol.
59. Mae rôl y Pennaeth Archwilio a Risg hefyd yn cynnwys arwain ar bolisi a strategaeth rheoli risg y Cyngor, gan sicrhau fod proses a system ar waith i nodi, rheoli ac adolygu risgiau ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth.
60. Ni fydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn llunio cwmpas ac ni fydd yn adolygu gweithgarwch archwilio mewnol yn gysylltiedig â'r maes gwasanaeth hwn a chaiff yr holl weithgareddau sicrwydd eu hallanoli. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn cymeradwyo adroddiadau.
61. Os bwriedir creu rolau newydd a allai effeithio ar annibyniaeth y swyddogaeth archwilio mewnol, trafodir yr effaith â'r Pennaeth Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhoddir mesurau diogelu priodol ar waith i warchod annibyniaeth y swyddogaeth archwilio mewnol a chefnogi cydymffurfiaeth â safonau.

# Newidiadau i'r Mandad a'r Siarter

62. Gallai amgylchiadau gyfiawnhau trafodaeth ddilynol rhwng y Pennaeth Archwilio a Risg, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr ynglŷn â'r mandad archwilio mewnol neu agweddau eraill o'r siarter archwilio mewnol.

63. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i) newid sylweddol yn:

- y safonau archwilio mewnol perthnasol.
- strwythurau sefydliadol o fewn y Cyngor.
- y swyddogaeth archwilio mewnol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu uwch reolwyr.
- strategaethau, amcanion, proffil risg neu amgylchedd weithredu'r Cyngor.
- cyfreithiau neu reoliadau newydd a allai effeithio ar natur a/neu gwmpas gwasanaethau archwilio mewnol.



# Atodiad A – Detholiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## 3.4.8.10 Archwilio mewnol

3.4.8.10.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor.

3.4.8.10.2 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol. Bydd y Pwyllgor yn bodloni ei hun bod y Siarter yn cydymffurfio â'r safonau archwilio perthnasol.

3.4.8.10.3 Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.4 Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

3.4.8.10.5 Bydd y Pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol gyda rheolwyr a'r Pennaeth Archwilio a Risg i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau. Pan fo pryderon ynghylch gallu'r gwasanaeth archwilio mewnol i gyflawni ei fandad neu lunio casgliad blynyddol, caiff pryderon eu cofnodi'n ffurfiol a'u hadrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'u cyfeirio i'w cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.6 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio a Risg ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad gwasanaethau archwilio mewnol sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr allanol.

3.4.8.10.7 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.8 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â safonau archwilio mewnol perthnasol a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau'r archwilwyr mewnol.

3.4.8.10.9 Bydd y Pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.



3.4.8.10.10 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod, neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.11 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â safonau archwilio mewnol perthnasol, gan ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.12 Bydd y Pwyllgor yn ystyried, cymeradwyo, ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw gamau diogelu a roddir ar waith i gyfyngu ar unrhyw beth sy'n amharu ar annibyniaeth a gwrthrychedd y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y Pennaeth Archwilio a Risg tu allan i'r maes archwilio mewnol.


3.4.8.10.13 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ac yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn derbyn adroddiad ar opsiynau, amseriad, cwmpas, dull asesu a chymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd, i'w gymeradwyo.

3.4.8.10.14 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

3.4.8.10.15 Bydd y Pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y Pennaeth Archwilio a Risg, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor, o leiaf yn flynyddol.

# Atodiad B – Fframwaith Sicrwydd

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r 'Model Tair Llinell' fel y dangosir yn y graffeg isod, lle gellir defnyddio pob llinell i ddarparu sicrwydd. Mae nifer o weithgareddau sicrwydd o'r holl linellau amddiffyn yn cael eu defnyddio i ddarparu darlun sicrwydd cadarn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor (Cod Llywodraethu Lleol 2023-2028, Rhagfyr 2022). Mae Archwilio Mewnol yn cyfrannu at y 'Drydedd Linell - Sicrwydd Annibynnol', ond mae hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r sicrwydd a ddarparwyd yn y llinell gyntaf a'r ail linell wrth ddatblygu'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol.




Tudalen 124

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 26 Mehefin 2025 |
| **Pwnc:** | Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2025-26 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y Pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1)<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo (ond nid cyfarwyddo) y strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gofynion adnoddau archwilio mewnol a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. (3.4.8.10.5) Wrth ystyried y strategaeth arfaethedig, gofynnir i'r Pwyllgor wneud ymholiadau priodol gyda rheolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol er mwyn pennu a oes unrhyw gwmpas amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau. (3.4.8.10.6)<br><br>Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cyflawni gofynio Datganiad Sefyllfa CIPFA: pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022, yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio mewnol yr awdurdod aSafonau Archwilio Mewnol Sector cyhoeddus Byd-eang y DU. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang y Sector Cyhoeddus yn gofyn i mi, fel y prif swyddog gweithredol archwilio, sefydlu strategaeth yn seiliedig ar risg, er mwyn pennu blaenoriaethau gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n cyd-fynd â nodau'r Cyngor.

1.2 Wrth flaenoriaethu ein hadnoddau cyfyngedig, mae'n rhaid i ni gwblhau gwaith digonol er mwyn fy ngalluogi i gyflwyno safbwynt archwilio mewnol i'r Cyngor er mwyn paratoi ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

1.3 Felly, cyflwynir Strategaeth Archwilio Mewnol 2025-26 i'r Pwyllgor ei adolygu a'i ystyried er mwyn penderfynu a yw'n bodloni gofynion sicrwydd y Cyngor.

## 2. Ymgynghoriad

2.1 Rwyf wedi cwrdd â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 (y prif swyddog ariannol sy'n atebol am sicrhau bod swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol yn cael ei rheoli a'i chefnogi gan adnoddau) a phenaethiaid gwasanaeth er mwyn trafod eu safbwyntiau ar y meysydd arfaethedig fydd yn cael eu hadolygu, a'u pryderon.

## 3. Newidiadau

3.1 Byddaf yn parhau i adolygu'r blaenoriaethau, fel bo'n ofynnol, gan eu haddasu mewn ymateb i'r newidiadau i fusnes y Cyngor, risgiau, gweithdrefnau a rhaglenni, er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol.

3.2 Byddaf yn adrodd newidiadau i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 4. Argymhelliad

4.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- cymeradwyo (ond nid cyfarwyddo) y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol a'i gynnwys a'i fod yn fodlon ei fod yn darparu'r sicrwydd gofynnol i'r Cyngor.

- yn cytuno â gofynion archwilio mewnol o ran adnoddau a defnyddio ffynonellau sicrwydd eraill.

- yn cytuno nad oes cwmpas amhriodol na chyfyngiadau o ran adnoddau.

# Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2025-26


**Mehefin 2025**





**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys

Cyflwyniad 1
Cyd-destun Cyfredol 2
Pwrpas archwilio mewnol 3
Gweledigaeth, Cenhadaeth ac Amcanion Strategol 3
Blaenoriaethau'r Cynllun Strategol 5
Mesurau Perfformiad 9
Monitro a derbyn risgiau 10
Atodiad A – Dadansoddiad aeddfedrwydd archwilio mewnol 10
Atodiad B – Map Sicrwydd (Trydedd Linell) 12



# Cyflwyniad

1. Daeth fframwaith newydd ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU i rym ar 1 Ebrill 2025. Mae'n cynnwys:
   - y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA)
   - Nodyn Gweithredu – Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd gan y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS[1]) sy'n darparu cyd-destun sector-benodol ar gyfer sector cyhoeddus y DU, dehongliadau yn gysylltiedig â gofynion y GIAS a'r amgylchiadau penodol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ledled sector cyhoeddus y DU a rhai gofynion ychwanegol y mae'r RIASS yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
   - Cod CIPFA ar Lywodraethu Archwilio Mewnol, sy'n nodi'r gofynion penodol sy'n berthnasol i'r sector llywodraeth leol.
2. Mae'r fframwaith yn cyflwyno gofyniad ar y prif weithrediaeth archwilio i ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol y Cyngor ac sy'n cyd-fynd â disgwyliadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, uwch reolwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill.
3. Mae Siarter Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflawni'r gofyniad hwn ers sawl blwyddyn ac mae'n gyfrwng i sicrhau bod archwilio mewnol yn parhau i fod yn berthnasol, ei fod yn gallu addasu a'i fod yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y Cyngor.

[1]Y RIASS yw Trysorlys EM ar gyfer llywodraeth ganolog; Llywodraeth yr Alban, Adran Gyllid Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llywodraeth ganolog a'r sector iechyd o fewn eu gweinyddiaethau; yr Adran Iechyd mewn perthynas â'r sector iechyd yn Lloegr; a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg mewn perthynas â llywodraeth leol ledled y DU.

# Cyd-destun Cyfredol

4. Mae Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2025-26 yn cael ei osod yng nghyd-destun tirlun byd-eang sy'n dod yn fwy a mwy toredig, lle mae heriau geowleidyddol, amgylcheddol a thechnolegol cynyddol yn bygwth sefydlogrwydd a chynnydd. Mae risgiau cymdeithasol megis anghydraddoldeb yn parhau i fod yn uchel ymhlith y prif bryderon heddiw. [2 3]

5. Mae llawer o risgiau'n dod yn fwy cyffredin, megis prinder sgiliau a phrofiad, ymosodiadau seiber wedi'u targedu ac effeithiau deallusrwydd artiffisial (DA). Mae newid hinsawdd hefyd yn nodwedd amlwg, sy'n amlygu'r heriau cymhleth a chyd-gysylltiedig y mae sefydliadau yn eu hwynebu. [4]

6. Fodd bynnag, yr her aruthrol i lywodraeth leol yw gwytnwch ariannol. Mae llywodraeth leol wedi bod yn delio â llymder ers bron i 15 mlynedd, ac mae hyn, ynghyd â phwysau eraill, wedi arwain at fethiant yn yr ystod lawn o gyrff awdurdod lleol. [5]

7. Mae pob cyngor yn wynebu pwysau ariannol, ond mae effaith y pwysau hyn a'u hymateb iddynt yn amrywio, a gwelwyd methiannau catastroffig yn Lloegr. Mae cwmnïau archwilio allanol yn rhybuddio ei bod yn bosib y bydd chwarter o gynghorau Lloegr wedi defnyddio cymaint o'u gronfeydd wrth gefn fel y byddant yn peryglu eu cynaliadwyedd ariannol yn sgil y bwlch cynyddol rhwng gwariant ac incwm, o ganlyniad i chwyddiant uwch, costau gweithlu uwch a'r galw cynyddol am wasanaeth. [6 7]

[2] The Global Risks Report 2025, World Economic Forum
[3] Risk in Focus 2025 – Hot Topics for Internal Auditors, ECIIA
[4] Emerging Risk Radar, RSM, Ionawr 2024
[5] Lessons from recent auditor's annual reports, Grant Thornton, Gorffennaf 2024

8. Fel pob cyngor arall, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn wynebu pwysau sylweddol. Mae rheolaeth ariannol gadarn yn bwysicach nag erioed. Bydd rhaid rheoli costau cynyddol wrth osod cyllidebau ac ymateb i'r galw cynyddol yn sgil newidiadau demograffig a chymdeithasol.

9. Bydd sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn cael eu gwneud yn seiliedig ar wybodaeth yn allweddol er mwyn cyflawni amcanion y Cyngor a bydd y gallu i fonitro cyllidebau'n effeithiol ac asesu perfformiad a rhagolygon yn fanwl gywir yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. [8]

10. Mae'r sefyllfa economaidd a chost yr argyfwng costau byw yn cael effaith pellgyrhaeddol a sylweddol ar gymunedau, busnesau a sefydliadau'r ynys.

11. Er mwyn llywio'r ansicrwydd hyn, mae'n rhaid i archwilio mewnol fod yn hyblyg a gwydn. Mae gofyn i ni integreiddio ein dealltwriaeth o'r risgiau yn ein harchwiliadau er mwyn rhagweld a mynd i'r afael â risgiau posib yn well.

12. Er mwyn helpu'r Cyngor i ffynnu yn y tirlun hwn sy'n parhau i newid, rydym wedi ystyried y canlynol wrth ddatblygu'r Strategaeth hon:

- cyfnodau amser byrrach fel bo sicrwydd yn cael mwy o effaith
- gwasanaethau'n newid prosesau er mwyn ymateb i anghenion sy'n newid
- dibynnu ar ddata cywir, o ansawdd wrth wneud penderfyniadau
- capasiti, trosiant ac anfoddhad ymysg y staff
- risg uwch o dwyll

[6] Preventing failure in local government, Grant Thornton, Rhagfyr 2023
[7] Grant Thornton: quarter of authorities at risk of financial failure, Public Finance, Ionawr 2024
[8] Staying strong on principles in financial management, Public Finance, Mawrth 2025

# Pwrpas archwilio mewnol

13. Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu Cyngor Sir Ynys Môn i greu, amddiffyn a chynnal gwerth trwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, ar sail risg a gwrthrychol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rheolwyr.

14. Mae rôl y swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnwys:

- cynorthwyo'r awdurdod i gyflawni ei amcanion strategol trwy ddarparu sicrwydd ar sail risg a gwrthrychol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol
- hyrwyddo arferion llywodraethu da trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a chyfrannu at adolygiad llywodraethu blynyddol yr awdurdod
- cynghori ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar gyfer prosiectau, rhaglenni a newidiadau system sylweddol
- mynediad at ddiddordebau'r awdurdod mewn trefniadau cydweithio a hyd braich

15. Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol fwyaf effeithiol pan:

- mae'n cael ei chyflawni gan swyddogion proffesiynol cymwys, yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Cyhoeddus y DU, sydd wedi cael eu gosod er budd y cyhoedd.
- mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn annibynnol ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- nad oes dylanwad amhriodol ar archwilwyr mewnol ac maent wedi ymrwymo i wneud asesiadau gwrthrychol.

# Gweledigaeth, Cenhadaeth ac Amcanion Strategol

16. Drwy alinio'r strategaeth archwilio mewnol â chyfeiriad a blaenoriaethau'r Cyngor gallwn gefnogi ei lwyddiant yn effeithiol.

17. Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn (2023 i 2028) yw prif ddogfen strategol y Cyngor. Mae'n dylanwadu ar y strategaethau a chynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau a'u llywio dros gyfnod o bum mlynedd ac mae'n nodi anghenion plant, pobl ifanc, teuluoedd, pobl hŷn, cymuned, busnesau ac amgylchedd yr ynys nawr ac yn y dyfodol.

18. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i flaenoriaethu a chydweithio wrth ymdrechu i amddiffyn a gofalu am aelodau mwyaf bregus cymdeithas a chyflawni'r weledigaeth sydd wedi'i nodi yn y cynllun, sef '**Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu**'.

19. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi bod cydweithio'n allweddol i wireddu gweledigaeth y Cyngor ynghyd â pharhau i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau a'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. O ganlyniad, mae'r ymrwymiadau hyn yn rhan allweddol o'n strategaeth, a datblygiad ein gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion strategol.

## Gweledigaeth Archwilio Mewnol

20. Ein gweledigaeth yw creu swyddogaeth archwilio mewnol aeddfed, arloesol a chydweithredol sy'n darparu sicrwydd o ansawdd uchel ac sy'n cefnogi gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn i greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

## Cenhadaeth Archwilio Mewnol

21. Mae swyddogaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn ymdrechu i sicrhau gwasanaeth cyhoeddus rhagorol drwy dîm aeddfed, cwbl gymwys a phrofiadol, syn gweithio'n ddiwyd, gyda gonestrwydd, uniondeb a dewrder proffesiynol i ddarparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol ac o ansawdd uchel er mwyn gwella llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaethau mewnol.

22. Trwy gydweithio, bod yn arloesol a gwella'n barhaus, rydym yn herio'n effeithiol ac yn ysgogi newidiadau cadarnhaol.

23. Rydym yn darparu mewnwelediad a chraffter i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant, uwch reolwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ac yn gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr allanol i gydlynu gweithgareddau sicrwydd. Rydym yn un o elfennau allweddol fframwaith llywodraethiant y Cyngor, fel y cydnabyddir ledled sector cyhoeddus y DU.

24. Rydym wedi ymrwymo i'r safonau moesegol uchaf posib ac rydym yn weision i'r cyhoedd ac yn stiwardiaid adnoddau cyhoeddus, ac yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr ynys a'i thrigolion.

## Amcanion strategol

25. Wrth ddatblygu ein hamcanion strategol, rydym yn cyfleu disgwyliadau rhanddeiliaid ac yn asesu aeddfedrwydd presennol y swyddogaeth archwilio mewnol. Felly, mae ein hamcanion strategol a'u mentrau a matrics allweddol cyfatebol fel a ganlyn:

| Amcanion Strategol 1: **Swyddogaeth archwilio mewnol sydd wedi cymhwyso'n llawn** | | |
|---|---|---|
| **Mentrau Allweddol** | **Metrig Presennol** | **Metrig Targed** |
| Cefnogi'r Uwch Archwilydd i ddod yn Archwilydd Mewnol Ardystiedig erbyn 2028 | Blwyddyn astudio gyntaf | CIA erbyn 2028 |
| Cefnogi aelodau'r tîm i ddarparu tystiolaeth ar gyfer eu targedau datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) | Ddim yn cael ei fesur | 100% |

| Amcanion Strategol 2: **Ymgorffori technoleg a dadansoddeg archwilio mewn archwiliadau** | | |
|---|---|---|
| **Mentrau Allweddol** | **Metrig Presennol** | **Metrig Targed** |
| Peilota monitro parhaus mewn un maes risg newydd o leiaf drwy ddadansoddi data | 1 archwiliad y flwyddyn | 2 archwiliad y flwyddyn |
| Gwella llythrennedd digidol archwilwyr drwy sicrhau eu bod yn gallu defnyddio technoleg yn hyderus, yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial, i wella'r broses asesu risg ac ansawdd archwiliadau ac adrodd yn fwy effeithlon | Ddim yn cael ei fesur | Ei ddefnyddio yn ystod un archwiliad o leiaf |

| Amcanion Strategol 3: **Chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n rhanbarthol a chenedlaethol** | | |
|---|---|---|
| **Mentrau Allweddol** | **Metrig Presennol** | **Metrig Targed** |
| Parhau i fod yn aelod o grwpiau rhwydweithio | Ddim yn cael ei fesur | Cydweithio ar un maes allweddol |

# Blaenoriaethau'r Cynllun Strategol

26. Mae'r proffesiwn Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol ers ei ddyddiau gwirio cydymffurfiaeth pan oedd gwaith archwilio'n canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r gorffennol a sicrhau cydymffurfiaeth. Cyfrifoldeb rheolwyr yw cydymffurfio. Mae archwilio wedi esblygu, gan symud o archwilio sy'n 'seiliedig ar systemau' i archwilio sy'n 'seiliedig ar risg', ac yn fwy diweddar, mae wedi mabwysiadu dull 'archwilio ystwyth'.

27. Mae archwilio mewnol ystwyth rhoi pwyslais ar hyblygrwydd, cydweithio ac ymateb i risgiau sy'n newid a blaenoriaethau sefydliadol. Yn wahanol i archwiliadau traddodiadol, sy'n dilyn cynlluniau blynyddol caeth, mae archwilio ystwyth yn canolbwyntio ar gynllunio hyblyg, ailadroddol ar sail barhaus. Mae'n galluogi archwilwyr i addasu'n gyflym i risgiau sy'n codi ac anghenion rhanddeiliad, gan wella effeithlonrwydd a chyfathrebu rhwng archwilwyr a rheolwyr.

28. Drwy barhau i ddiweddaru cynlluniau archwilio a chanolbwyntio ar feysydd risg uchel, mae archwilio ystwyth yn helpu sefydliadau i barhau i lywodraethu'n effeithiol ac ymateb i amgylcheddau deinamig ar yr un pryd ac mae'n cael ei yrru gan yr asesiadau risg diweddaraf, gan roi sylw i'r bygythiadau mwyaf.

29. Felly, mae ein cynllun strategol yn rhoi blaenoriaeth i archwiliadau'n ymwneud â risgiau strategol y Cyngor, gyda'r nod o ddarparu sicrwydd ar 80% o'r risgiau strategol mwyaf dros gyfnod treigl o ddwy flynedd.

30. Byddwn hefyd yn cynnal rhestr o waith archwilio arall a fydd yn cael ei diweddaru a'i diwygio'n barhaus. Fe all unrhyw waith mewn ymateb i flaenoriaethau newydd neu risgiau sy'n codi gael blaenoriaeth dros yr adolygiadau blaenoriaeth canolig hyn.

## Risgiau strategol

31. Er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r Cyngor, mae rhan helaeth o'n gwaith yn canolbwyntio ar adolygu'r gofrestr risg strategol dros gyfnod treigl o ddwy flynedd.

32. Rydym yn canolbwyntio ar risgiau cynhenid 'coch', lle mae'r risg gweddilliol yn 'goch' neu 'ambr'.

33. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wedi asesu 11 o'i risgiau strategol fel risgiau cynhenid 'coch'. Mae risgiau gweddilliol saith o'r rhain wedi cael eu hasesu'n 'goch' a phedwar yn 'ambr'. [9]

34. O ganlyniad, gan ein bod yn adolygu'r risgiau strategol dros gyfnod treigl o ddwy flynedd, rhoddir blaenoriaeth i adolygu'r risgiau a adolygwyd ddiwethaf yn ystod 2023-24 ac unrhyw risgiau newydd (gweler Atodiad B am fanylion o'r archwiliadau arfaethedig).

35. Hefyd, gan mai'r brif her i lywodraeth leol yw gwytnwch ariannol, byddwn yn adolygu rheolaeth ariannol, i ddarparu sicrwydd bod penderfyniadau ariannol yn hyddysg, bod cyllidebau'n cael eu monitro'n effeithiol a bod y rhagolygon yn gywir.

[9] Mae'r rhain yn debygol o newid gan fod y Tîm Arweinyddiaeth yn y broses o adolygu ac ailddatblygu'r gofrestr risgiau strategol ar y cyd â Zurich Risk Engineering.

## Archwiliadau TG

36. Seiberddiogelwch yw risg fwyaf y 21ain ganrif, heb os. Ynghyd â diogelwch data, mae'n parhau i fod yn un o'r bygythiadau mwyaf yn ôl arolwg gan brif swyddogion archwilio Ewrop – gydag 83% yn dweud ei fod ymhlith y 5 risg uchaf (84% yn 2024). [10]

37. Mae hacwyr hefyd yn symud i faes mwy bygythiol, sef yr hyn a elwir yn "feddalwedd ddifa" i roi pwysau ar sefydliadau i dalu - mae'r ymosodiadau hyn yn targedu seilwaith critigol. Mae meddalwedd wystlo'n parhau i fod yn anodd ei lliniaru ac mae'n peri risg difrodol posib i fodolaeth sefydliadau.

38. Gall achos difrifol o dor diogelwch effeithio ar ansawdd gwasanaethau'r Cyngor, ar ymddiriedaeth a'i enw da, dirwyon yn gysylltiedig â thorri'r GDPR a'i sefyllfa ariannol, ond, yn fwy difrifol, gallu'r Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau i'w gleientiaid bregus.

39. Gan ein bod wedi cyrraedd pendraw ein galluoedd technegol yn y maes hwn, rydym wedi comisiynu Archwilwyr TG yng Nghyngor Dinas Salford i gyflawni rhaglen waith i ddarparu sicrwydd i'r Cyngor fod ei wendidau TG yn cael eu rheoli'n effeithiol.

40. Yn ystod 2025-26, rydym yn bwriadu ceisio sicrwydd fod y Cyngor wedi asesu risgiau'n briodol a'i fod wedi rhoi mesurau lliniaru effeithiol ar waith yn y meysydd canlynol:

- Rheoli Asedau TG
- Adfer yn dilyn digwyddiad TG
- Rheolaethau amgylcheddol a ffisegol ar gyfer y ganolfa ddata
- Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA)

## Gwaith archwilio arall

### Cronfa 'answyddogol' ar gyfer ysgolion

41. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc er mwyn darparu sicrwydd bod cyfrif cywir yn cael ei roi am incwm a gwariant mewn cronfeydd answyddogol ysgolion a bod y trefniadau llywodraethu'n briodol, a hynny drwy asesu ansawdd tystysgrifau archwilio cronfeydd ysgolion. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys darparu hyfforddiant i benaethiaid newydd a llywodraethwyr.

### Monitro parhaus - Credydwyr a'r Gyflogres

42. Rydym yn gallu dadansoddi llwythi data sylweddol yn gyflym ac yn ddidrafferth drwy ddefnyddio meddalwedd dadansoddi data. Yn ogystal â dadansoddi data yn ystod archwiliadau eraill, byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y swyddogaeth Taliadau i nodi taliadau dyblyg a methiannau eraill yn y prosesau prynu a thalu.

43. O ganlyniad i'r gwaith monitro parhaus hwn, byddwn yn nodi methiannau pellach mewn rheolaethau, a'r goblygiadau ariannol, yn gynt. P'un ai fydd yn arbed arian i'r Cyngor, neu os nad oes colled sylweddol, mae canfod methiannau mewn rheolaethau yn gynnar yn golygu bod modd cymryd camau adfer a gweithredu mewn da bryd.

[10] Risk in Focus 2024, Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol.

**Costau cyfreithiol**

44. Yn ystod archwiliad diweddar o Ofal Cymdeithasol i Oedolion - Asesiadau Ariannol amlygwyd, er bod proses ar gyfer codi costau cyfreithiol neu daliadau gohiriedig yn erbyn eiddo, nad oedd cytundebau wedi cael eu rhoi ar waith yn gywir i wella'r tebygolrwydd o adennill dyledion a chodi llog a ffioedd gweinyddol. Bydd archwiliad o gostau cyfreithiol / gohiriedig yn cael ei gwblhau i ddarparu sicrwydd bod taliadau gohiriedig wedi cael eu rhoi ar waith yn gywir ledled y Cyngor.

**Prydau ysgol - alergeddau**

45. Amlygwyd yn ystod digwyddiad mewn awdurdod cyfagos nad oedd y ddarpariaeth prydau ysgol wedi ystyried alergeddau yn effeithiol. Bydd yr archwiliad yn darparu sicrwydd bod prydau ysgol yn cael eu paratoi'n ddiogel ar gyfer disgyblion a staff, yn benodol unigolion ag anghenion dietegol arbennig.

**Aelodaeth o sefydliadau tanysgrifio**

46. Mae achos cyfreithiol yn erbyn 23 awdurdod lleol oedd yn perthyn i sefydliad tanysgrifio wedi amlygu y gallai'r Cyngor fod mewn perygl oherwydd ei fod yn aelod o sefydliadau tanysgrifio. Cynhelir archwiliad i sicrhau bod dulliau diogelu addas ar waith i gyfyngu'r perygl ariannol ac atebolrwydd i'r Cyngor yn sgil ei aelodaeth o sefydliadau tanysgrifio.

**Systemau Ariannol Craidd**

47. Nid yw systemau ariannol craidd y Cyngor wedi cael eu harchwilio ers nifer o flynyddoedd ac mae Archwilio Cymru wedi mynegi ei fod yn dymuno gweld mwy o waith yn cael ei gwblhau yn y maes hwn. Felly, bydd archwiliadau cyfnodol yn cael eu cynnal, yn seiliedig ar risg i ddarparu sicrwydd ynglŷn â llywodraethiant ariannol, cywirdeb ac effeithlonrwydd ar draws sawl maes ariannol, yn cynnwys credydwyr, y gyflogres, incwm, rheoli trysorlys a phrif swyddogaethau cyfrifo.

## Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd

48. Pan mae pobl yn twyllo'r sector cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus, maent yn cymryd arian oddi wrth wasanaethau y mae'r cyhoedd yn dibynnu arnynt, ac maent yn niweidio hyder dinasyddion yn y llywodraeth. Mae twyll a llygredd yn faterion sy'n esblygu, ac, fel y cyfryw, rhaid i ymateb y Cyngor fod yn hyblyg a rhaid iddo addasu i'w natur newidiol.

49. Felly, byddwn yn parhau i adolygu ymagwedd y Cyngor tuag at atal twyll, atal llwgrwobrwyo a llygredd, atal gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth trwy'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-28.

## Gwaith sy'n weddill o 2024-25

50. Nodwyd yr adolygiadau a ganlyn yn ein cynllun archwilio strategol ar gyfer 2024-25.

51. Cafodd y gwaith hwn, sy'n llai o flaenoriaeth, ei roi i'r neilltu er mwyn canolbwyntio ar archwiliadau risg uwch. Mae bod yn hyblyg yn hanfodol o ran ein dull ystwyth, lle rydym yn blaenoriaethu archwiliadau'n seiliedig ar risg ac anghenion y sefydliad.

**Adnabod Sylfaen y Dreth Gyngor**

52. Mae'r dreth gyngor yn ffynhonnell refeniw sylweddol i'r Cyngor. Mae adnabod y sylfaen yn gywir yn sicrhau bod y baich ariannol yn cael ei rannu'n deg ymhlith trigolion yn ôl gwerth eu heiddo, ac mae'n helpu i leihau cyfleoedd ar gyfer efadu neu osgoi trethi.

53. Drwy gadw cofnodion cyfredol am eiddo a'u bandiau prisio, gall cynghorau adnabod anghysondebau neu ymdrechion i efadu rhwymedigaethau treth yn fwy effeithiol. Mae hyn yn diogelu cywirdeb y system drethi ac yn sicrhau bod pob trigolyn yn cyfrannu'n deg at wasanaethau lleol.

54. Mae adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar waith ar hyn o bryd.

**Rheoli perfformiad**

55. Mae adroddiad gan Archwilio Cymru (Tachwedd 2023) wedi dod i'r casgliad fod gwybodaeth gyfyngedig ynghylch perfformiad wedi'i darparu i uwch arweinyddion er mwyn eu galluogi i ddeall safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth a chanlyniadau gweithgarwch y Cyngor, a gwnaed tri argymhelliad ar gyfer gwella.

56. Mae adolygiad ar y gweill o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, gan gynnwys trefniadau i sicrhau cywirdeb y data mae'r Cyngor yn ei gasglu.

**Rheoli contractau**

57. Mae archwiliad i daliad dyblyg wedi tynnu sylw at wendidau mewn prosesau rheoli contractau o fewn y Cyngor. Bydd yr archwiliad hwn yn darparu sicrwydd fod rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r gwendidau hyn ac nad ydynt yn bodoli yn rhannau eraill o'r Cyngor.

58. Gohiriwyd yr adolygiad hwn oherwydd y rhaglen gwella caffael sy'n mynd rhagddi i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth caffael newydd. Unwaith y bydd y rhaglen wedi'i chwblhau yn 2026, bydd yr adolygiad o brosesau rheoli contractau yn cael ei gynnal.

**Rheolaeth ariannol mewn ysgolion**

59. Mae'r gwaith o sicrhau ansawdd tystysgrifau archwilio cronfeydd answyddogol ysgolion, ac yn ystod archwiliadau rhai cronfeydd, wedi amlygu y gall prosesau rheoli cyllid mewn ysgolion elwa o adolygiad mwy manwl.

60. Bydd rheolaeth ariannol mewn ysgolion yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad o Reolaeth Ariannol.

# Mesurau Perfformiad

61. Mae archwilio mewnol ystwyth a seiliedig ar risg yn broses ddeinamig ac felly'n anoddach i'w reoli na methodolegau traddodiadol.  Mae monitro cynnydd yn erbyn cynllun sy'n newid yn gyson yn her ac rydym wedi adolygu ein mesurau perfformiad er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth rydym yn ceisio ei gynnig.

62. Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith i sicrhau bod ein gwasanaeth archwilio mewnol yn gwella'n barhaus. Rydym wedi mabwysiadu cyfres lai a symlach o fesurau perfformiad i werthuso effeithiolrwydd ein gwaith, a gwelir hyn yn y tabl i'r dde.

63. Rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o'n targedau, gyda phump o'r chwe dangosydd yn cyrraedd eu targed.

64. Yn bwysicaf oll, rydym wedi cyflawni ein targed o adolygu 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr ar y Gofrestr Risgiau Strategol ac mae hynny'n darparu sicrwydd digonol i ganiatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg ddarparu Barn Archwilio Flynyddol.

65. Methodd un maes â chyflawni ei darged perfformiad; archwiliadau a gwblhawyd o fewn chwe mis. Mae cyfnodau amser byrrach ar gyfer archwiliadau'n hanfodol o ran sicrhau bod sicrwydd yn effeithiol, felly byddwn yn parhau i geisio cwblhau archwiliadau'n gyflym.

| Dangosydd Perfformiad | Targed 2023-24 | Gwirioneddol 2023-24 | Targed 2024-25 | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch / Ambr ar y Gofrestr Risg Strategol a archwiliwyd (dros gyfnod treigl o 24 mis) | 80% | 82% | 80% | 80% | 80% |
| Archwiliadau a gwblhawyd o fewn chwe mis | 85% | 84% | 85% | 83% | 85% |
| Ymateb cleientiaid yn 'foddhaol' neu well | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Nifer staff (cyfwerth ag amser llawn (FTE)) | 4.0 FTE | 3.3 FTE | 2.8 FTE | 2.8 FTE | 2.8 FTE |
| Yr holl rybuddion twyll a gafodd eu derbyn, eu hystyried a'u dosbarthu | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Canlyniad yr asesiadau mewnol (blynyddol) ac allanol (bob pum mlynedd) o'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cyflawni'n Gyffredinol |

# Monitro a derbyn risgiau

66. Mae GIAS Safon 15.2 'Cadarnhau bod Argymhellion neu Gynlluniau Gweithredu wedi cael eu Rhoi ar Waith' yn nodi bod rhaid i'r prif weithrediaeth archwilio sefydlu proses ar gyfer monitro a sicrhau bod rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r risgiau a godwyd yn effeithiol.

67. Gall blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, cyfyngiadau cyllidebol a ffactorau eraill atal rheolwyr rhag mynd i'r afael â'r rhain o fewn yr amserlen y cytunwyd arni neu fel y cynlluniwyd yn flaenorol i liniaru'r risg.  Fodd bynnag, mae rheolwyr nad ydynt yn mynd i'r afael â materion sy'n codi o waith archwilio mewnol yn peryglu'r sefydliad.  Trwy fonitro, mae hyn yn helpu i'w atal rhag dod yn broblem.

68. Yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol a gytunwyd, byddwn yn monitro'r holl Faterion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n codi a thracio camau gweithredu ar y system tracio mewnol (4action).


69. Byddwn yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn ar y cynnydd a wnaed gan reolwyr o ran cyflawni camau gweithredu.

70. Mae GIAS Safon 11.5 'Cyfathrebu Risgiau sydd wedi'u Derbyn' yn nodi bod rhaid i'r prif weithrediaeth archwilio gyfathrebu lefelau annerbyniol o risg, h.y. pan fydd uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â chymryd camau.

71. Pan fo'r Pennaeth Archwilio a Risg o'r farn bod rheolwyr wedi derbyn risg sydd y tu hwnt i archwaeth risg neu oddefiant risg y Cyngor,  bydd y mater yn cael ei drafod gydag uwch reolwyr ac yn cael ei uwch-gyfeirio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio os yw o'r farn nad yw'r mater wedi cael ei ddatrys.

# Atodiad A – Dadansoddiad aeddfedrwydd archwilio mewnol

## Strwythur




72. Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae mewn cyfnod arall o newid erbyn hyn.  Mae mabwysiadu dull archwilio seiliedig ar risg ac 'archwilio ystwyth' yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gwella'r sicrwydd y mae'r Cyngor yn ei dderbyn.  Mae'r tîm newydd wedi ymateb yn dda; mae staff wedi parhau i addasu eu sgiliau, wedi cynnal archwiliadau mwy cymhleth ac ar lefel strategol, ac wedi rheoli llwyth gwaith uwch.

73. Fodd bynnag, er ei fod wedi gwella'r integreiddio rhwng archwilio mewnol a rheoli risg, nid oedd cyfuno'r tîm Archwilio Mewnol a'r tîm Rheoli Risg yn ôl yn 2017 yr un mor llwyddiannus.  Oherwydd problemau gyda chapasiti'r swyddog, nid oedd ymgorffori prosesau rheoli risg i'r Cyngor yn llawn mor llwyddiannus ag yr oeddem wedi'i ddisgwyl.

74. Mae newidiadau ar waith i fynd i'r afael â hyn, a bydd swyddog yn y Tîm Arweinyddiaeth yn gyfrifol am y gwaith o reoli risg. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn parhau i oruchwylio'r polisi a'r strategaeth rheoli risg ac yn parhau i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## Capasiti

75. Mae gennym un swydd wag ar lefel uwch archwilydd o hyd, ac rydym yn defnyddio'r arbedion cyllidebol i gomisiynu arbenigwyr pwnc i fodloni anghenion sicrwydd technegol a chymhleth rhai o'r risgiau strategol.

76. Yn ogystal â hyn, a gyda lefel cynhyrchiant o 76%, mae gennym oddeutu 549 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau'r gweithgarwch archwilio mewnol sy'n weddill, gan gynnwys ymchwiliadau, er mwyn darparu'r safbwynt sicrwydd blynyddol.

## Hyfforddi a datblygu

77. Mae gallu archwilio mewnol i gynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol a'i flaenoriaethau'n ddibynnol ar ansawdd y tîm archwilio mewnol.

78. Mae gan y tîm brofiad helaeth o archwilio mewnol ac allanol, ynghyd â chymysgedd ragorol o gymwysterau proffesiynol yn cynnwys CIPFA[11], CIIA[12], IRRV[13], ACFS ac ACFTech[14], ynghyd â chymwysterau academaidd ym maes Rheoli Newid, Busnes a Chyfrifeg.


79. Felly, mae parhau i wella gallu archwilio mewnol yn flaenoriaeth ar gyfer gwella ei effaith ac effeithlonrwydd ac i sefydlu tîm medrus tu hwnt a all ddelio'n hyderus ag anghenion sicrwydd newidiol.

[11] Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yw'r corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus.
[12] Y Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol (CIIA) yw'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer archwilwyr mewnol.
13 Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV) yw'r corff proffesiynol ar gyfer trethiant, budd-daliadau a phrisio lleol.
[14] Mae'r ACFS (Accredited Counter Fraud Specialist) ac ACFTech (Accredited Counter Fraud Technician) yn gymwysterau gwrth-dwyll proffesiynol sydd wedi'u hachredu gan y Bwrdd Dyfarniadau Proffesiynol Gwrth-dwyll.

80. Mae heriau'n bodoli o ran sicrhau bod digon o archwilwyr profiadol ar gael i gwblhau gwaith mwy cymhleth yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth i staff amhrofiadol.

81. Felly, bydd y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol ym maes hyfforddi a datblygu er mwyn gwneud yn siŵr bod y tîm yn parhau â'u datblygiad proffesiynol a'u bod yn ymwybodol o'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector. Byddwn hefyd yn cymryd rhan ym mhob hyfforddiant corfforaethol gorfodol, yn ôl y gofyn.

82. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cefnogi'r Uwch Archwilydd sydd yn astudio i ennill cymhwyster proffesiynol y Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol. Ar y cyfan, byddwn yn buddsoddi 50 diwrnod (7%) mewn hyfforddiant a datblygu yn ystod 2025-26, yn cynnwys:



# Atodiad B – Map Sicrwydd (Trydedd Linell)

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 | Yn yr Arfaeth ar gyfer Blwyddyn Archwilio 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM1 | Risg bod gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol | 5:5<br>25 | 4:5<br>20 | 14/05/19<br>12/01/22 | | | Gwytnwch Ariannol (Tachwedd 2022) | | Cadernid amcangyfrifon a digonolrwydd asesiad o gronfeydd wrth gefn (Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) (Gorffennaf 2024) | Rheoli Arian |
| YM2 | Risg bod y Cyngor yn methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu nad yw'r strwythur staffio yn addas | 4:5<br>20 | 4:4<br>16 | 20/06/18<br>12/01/22 | | | Recriwtio a Chadw (Mehefin 2022) | | Recriwtio a Chadw Staff (Rhagfyr 2024) | |
| YM3 | Risg bod methiant TG yn amharu'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau | 5:5<br>25 | 4:4<br>16 | 21/06/18<br>10/09/18<br>12/01/22 | Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Dilyniant) (Mai 2021) | Archwiliad TG - Rheoli Trwyddedau Meddalwedd (Ionawr 2022) | Archwiliad TG - Cyfrifiadura yn y Cwmwl (Mawrth 2023) | Rheoli Mynediad Corfforaethol (Risgiau Allweddol) (Mawrth 2024) | Rheoli Cyflenwyr TG (Gorffennaf 2024) | Seiberddiogelwch mewn Ysgolion |
| | | | | | Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Ebrill 2021) | | Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Dilyniant) (Medi 2022) | | Seiberddiogelwch – Dadansoddiad o'r Bylchau – Parodrwydd ar gyfer yr Asesiad Fframwaith Seiber (CAF) (Tachwedd 2024) | Adfer yn dilyn digwyddiad TG |
| | | | | | | | Rheoli Gwendidau TG (Medi 2022) | | | Rheolaethau amgylcheddol a |

Tudalen 140

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 | Yn yr Arfaeth ar gyfer Blwyddyn Archwilio 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Rheoli Gwendidau TG (Ionawr 2023) | | | ffisegol ar gyfer y ganolfa ddata |
| YM5 | Y risg o fethu â gweithredu newidiadau cenedlaethol i'r system addysg a bodloni'r heriau addysgol yn y dyfodol | 4:5<br>20 | 4:4<br>16 | 20/06/18<br>12/01/22 | | | | Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu (Awst 2023) | | Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu |
| YM7 | Risg nad yw'r Cygnor yn ddigon gwydn i allu darparu gwasanaethau yng ngoleuni newidiadau allanol | 4:4<br>16 | 3:4<br>12 | 20/06/18<br>12/01/22 | Adolygu'r Ymateb Argyfwng i COVID-19 (Ebrill 2020) | Sicrwydd Rheoli Argyfwng COVID-19 (Mai 2021) | | Gwytnwch Sefydliadol (Tachwedd 2023) | | Gwytnwch Sefydliadol |
| YM9 | Risg o ddiffyg tai addas y gall preswylwyr lleol eu fforddio yn eu cymunedau | 4:5<br>20 | 4:5<br>20 | 12/01/22 | | | Trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu tai addas (Mehefin 2022) | | Datblygu Tai (Rhagfyr 2024) | |
| YM10 | Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | 5:4<br>20 | 4:2<br>8 | 20/06/18<br>12/01/22 | Panel Rhiant Corfforaethol (Ionawr 2021) | | | Rheoli Risg Strategol - Diogelu (YM10) (Ionawr 2024) | | Diogelu - Recriwtio Athrawon Llanw |
| YM11 | Risg bod tlodi cynyddol yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor | 4:5<br>20 | 4:5<br>20 | 18/08/20<br>12/01/22 | | | Tlodi (Mawrth 2023) | | | Ymateb y Cyngor i Dlodi Cynyddol |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 | Yn yr Arfaeth ar gyfer Blwyddyn Archwilio 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM13 | Risg bod newid hinsawdd yn effeithio'r Ynys ac nad yw'r Cyngor yn sefydliad net sero erbyn 2030 | 4:4<br>16 | 4:3<br>12 | 12/01/22 | | | Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd (ZM)<br>(Medi 2022) | | Adolygiad Sero Net (Asesiad Allanol)<br>(WIP) | |
| YM14 | Risg nad yw asedau ffisegol yr Ynys yn addas i bwrpas, neu na fyddant yn diwallu anghenion preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr yn y dyfodol | 5:5<br>25 | 4:4<br>16 | 12/01/22 | | Buddsoddi mewn Asedau<br>(Tachwedd 2021) | | | Rheoli Asedau Ffisegol y Cyngor<br>(Mawrth 2025) | |
| YM16 | Risg nad yw'r Cyngor yn gallu rheoli newid yn effeithiol gan gyfyngu ar ei allu i foderneiddio a darparu gwasanaethau cynaliadwy, effeithiol ac effeithlon | 4:5<br>20 | 3:4<br>12 | 11/07/23<br>02/01/24 | | | | | Archwiliad TG - Rheoli Desg Gwasanaeth (gan gynnwys newid prosesau rheoli)<br>(Drafft) | |

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn – Cynllun Archwilio Manwl 2025

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4860A2025



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Ein nodau a’n huchelgeisiau | 5 |
| Gwaith archwilio ariannol | 6 |
| Gwaith archwilio perfformiad | 15 |
| Swyddogaethau archwilio statudol eraill | 18 |
| Ffi archwilio | 18 |
| Tîm archwilio | 21 |
| Ansawdd archwilio | 23 |
| Eich cynorthwyo | 24 |

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd o ran unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o'r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei swyddogaeth unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu anfonwch e-bost at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rwy'n falch o rannu fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2025. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddaf yn cynnal eich archwiliad.

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun yn dilyn proses gynlluniau strwythuredig a seiliedig ar risg, a fydd yn parhau drwy gydol yr archwiliad. Mae fy Nghod Ymarfer Archwilio yn rhoi rhagor o fanylion ar sut y bydd fy archwiliad a swyddogaethau eraill penodol yn cael eu cyflawni gan fy archwilwyr.

Wrth graidd ein holl waith y mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o uniondeb proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd archwilio. Mae ein model tair llinell o sicrwydd (tudalen 23) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau hynny o ansawdd yn cael eu bodloni. Mae ein hadroddiad ansawdd blynyddol diweddaraf, Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024, yn cynnig mwy o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.

Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n adeiladol gyda'ch staff i ddeall y materion sy'n eich wynebu, i sicrhau bod y broses archwilio yn gweithredu mor ddidrafferth â phosibl, ac i ddarparu gwybodaeth werthfawr am unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae fy rhaglen waith, fel yr amlinellir yn y Cynllun hwn, yn bodoli ochr yn ochr â gwaith archwilio cenedlaethol arall a allai gynnwys sylw i'ch sefydliad chi. Gall gwaith archwilio perfformiad lleol hefyd lywio adroddiadau cenedlaethol ehangach.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am eich archwiliad, bydd fy nhîm archwilio yn hapus i'w trafod â chi. Byddant hefyd yn rhoi gwybodaeth reolaidd i chi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

# Ein nodau a'n huchelgeisiau

## Ein diben

- Sic[illegible]hau pobl bod arian c[illegible]dus yn cael ei re[illegible]dda
- E[illegible]io sut mae'r arian [illegible]n cael ei wario
- Y[illegible]doli'r sector c[illegible]dus i wella

## Ein gweledigaeth

- [illegible]sio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder gwybodaeth unigryw
- C[illegible]u ein sefyllfa fel llais awdurdodedig, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad, a'n perthnasedd
- B[illegible]yn sefydliad sy'n esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

## Ein meysydd o bwyslais

- Rhaglen archwilio strategol, ddynamig, ac o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu

Gallwch ddarganfod mwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 ac Ein Strategaeth 2022-27.

# Gwaith archwilio ariannol

## Archwilio datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' a'u paratoad priodol yn unol â gofynion cyfrifyddu a chyfreithiol.

Byddaf hefyd yn adrodd drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fwy manwl yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Yn ogystal â'm cyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor), rwyf hefyd yn gyfrifol am:

- ymateb i gwestiynau am y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os oes angen);
- ardystio nifer o hawliadau a datganiadau grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff ariannu.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Ardystio hawliadau a datganiadau grant

Gofynnwyd i mi hefyd wneud gwaith ardystio ar hawliadau grant Y Cyngor, yr wyf yn rhagweld fydd yn cynnwys budd-daliadau tai, pensiynau athrawon, ardrethi annomestig a datganiadau cyllideb gyfun.

## Perthnasedd datganiadau ariannol

Nid wyf i'n ceisio cael sicrwydd pendant ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig, ond yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol a chywir, hynny yw, y rhai a allai arwain at ddarllenydd y cyfrifon yn cael ei gamarwain. Mae perthnasedd yn berthnasol nid yn unig i gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu a chydymffurfiad â'r fframwaith a'r gyfraith gyfrifyddu berthnasol.

Rwy'n pennu perthnasedd cynllunio a pherfformiad i:

- benderfynu ar lefel y camddatganiad a allai achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- cynorthwyo yn y gwaith o gwmpasu ein dull archwilio a phrofion archwilio canlyniadol;
- penderfynu ar faint samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol; ac
- adrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchben lefel ddibwys, ein trothwy adrodd.

Nodir y lefelau yr wyf i'n barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol arnynt isod.

**Perthnasedd cynllunio**

yn cynrychioli 1% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol a archwiliwyd 2023/24.

**£3.00m**

**Perthnasedd perfformiad**

yn cynrychioli 75% o berthnasedd.

**£2.25m**

**Trothwy adrodd (dibwys)**

yn cynrychioli 5% o berthnasedd.

**£0.15m**

Ceir rhai rhannau o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon, ac rydym wedi gosod lefel berthnasedd is ar gyfer y rhain:

| Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol | Datgeliadau partïon cysylltiedig |
|---|---|
| £1,000 | £10,000 (Unigolion)<br>£3.00m (Cyrff eraill) |

Bydd fy nhîm archwilio yn asesu lefelau perthnasedd drwy gydol yr archwiliad.

## Risgiau datganiadau ariannol sylweddol

Risgiau o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg gynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm o risg gynhenid neu'r rhai y dylid eu trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) eraill yw risgiau sylweddol. Mae'r ISAs yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi mwy o sylw i'r risgiau sylweddol hyn.

### Risg o wrthwneud gan reolwyr

Mae'r risg y bydd rheolaethau yn cael eu gwrthwneud gan reolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.32-33].

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a
- gwerthuso'r rhesymeg sy'n sail i unrhyw drafodiadau sylweddol y tu allan i'r trywydd busnes arferol; ac ychwanegu gweithdrefnau ychwanegol i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau penodol o wrthwneud gan reolwyr na roddir sylw iddynt gan y gwaith gorfodol uchod.

## Meysydd eraill o bwyslais

Rwy’n nodi isod risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a nodwyd ac yr hoffwn dynnu eich sylw atynt, er na ystyrir eu bod yn risgiau sylweddol fel yr uchod.

### Prisio rhwymedigaeth/gwarged net cronfa bensiwn

Mae'r cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a rhwymedigaeth cronfa pensiwn fel yr adlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun gradd uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr rhwymedigaeth ar 31 Mawrth 2024, er enghraifft, roedd y rhwymedigaeth mewn gwirionedd yn warged, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch

Mae yna hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisio'r rhwymedigaeth net.

Mae risg felly bod yr rhwymedigaeth/gwarged yn cael ei gam-ddatgan yn sylweddol.

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan y Cyngor i'r actiwari i amcangyfrif yr atebolrwydd;
- profi cywirdeb rhwymedigaeth a datgeliadau net y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda’r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;
- asesu pa mor rhesymol yw’r tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr

archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac

- asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith berthnasol ar y rhwymedigaeth gyffredinol net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi'i gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

## Prisio tir ac adeiladau

- Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.
- Mae'n ofynnol cadw tir ac adeiladau ar sail prisio sy'n dibynnu ar natur a defnydd yr asedau. Mae'r amcangyfrif hwn yn amodol ar lefel uchel o oddrychedd, yn dibynnu ar y rhagdybiaethau arbenigol a rheoli, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau.
- Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd hefyd newid o flwyddyn i flwyddyn, ac mae risg y gallai gwerth cario asedau a adlewyrchir yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth cyfredol asedau ar 31 Mawrth 2025, yn enwedig yn yr amgylchedd economaidd cyfredol.

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu'r wybodaeth a ddarperir i'r prisiwr i asesu ar gyfer cyflawnrwydd;
- gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;
- profi sampl o asedau a ail-brisiwyd yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, y data a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y broses brisio yn rhesymol, ac mae'r ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; a
- phrofi’r cysoni rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau.

## Gweithredu'r Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IFRS) 16 – Prydlesi

Mae'n ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol fabwysiadu Prydlesi IFRS16 o 1 Ebrill 2024.

Mae hyn yn newid yn sylweddol y driniaeth gyfrifyddu a'r datgeliadau sy'n ofynnol ar gyfer asedau ar brydles ac yn golygu y bydd y rhan fwyaf o brydlesi yn arwain at ased ac atebolrwydd ar fantolenni.

Mae risg nad yw gofynion y Safon Gyfrifyddu Ryngwladol yn cael eu mabwysiadu'n briodol ac o ganlyniad mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cam-ddatgan yn sylweddol.

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu papurau gwaith y Cyngor i sicrhau bod yr holl brydlesi sy'n dod o fewn cwmpas y Safon wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau;
- profi sampl o gyfrifiadau asedau a rhwymedigaethau i sicrhau bod y tybiaethau yn rhesymol, a'r cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir; a
- cadarnhau bod gwerthoedd asedau a rhwymedigaethau wedi'u cyfrif a'u datgelu'n gywir yn y datganiadau ariannol.

## Effaith Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 – Tystysgrifau Diogelwch Trydan

Ym mis Tachwedd 2024, eglurodd yr Uchel Lys ofynion Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a'r rheoliadau cysylltiedig ynghylch rhwymedigaethau landlordiaid sy'n ymwneud â chwblhau arolygiadau ac adroddiadau diogelwch archwiliad trydan.

Mae gan hyn oblygiadau posibl i gyrff a'u datganiadau ariannol ac mae'n debygol o fod yn destun ystyriaethau a heriau cyfreithiol pellach.

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu'r sefyllfa ddiweddaraf cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol;
- sicrhau, os oes effaith ar y datganiadau ariannol, bod hon yn cael ei chydnabod a/neu ei datgelu'n briodol.

## Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng y Cyngor a'r corff/parti arall.

Mae gan y Cyngor lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn bartïon cysylltiedig. Mae llawer ohonynt yn adnabyddus er enghraifft, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cyfansoddol.

Fodd bynnag, lle mae perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynghylch y perthnasoedd hyn. Mae'r trafodiadau hyn o ddiddordeb mawr ac fe'u hystyrir yn berthnasol yn ôl eu natur.

Mae risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu proses y Cyngor ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodiadau a balansau cysylltiedig;
- ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig; a
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

## Porthladd Rhydd Ynys Môn

Cafodd Porthladd Rhydd Ynys Môn ei ymgorffori yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Ar hyn o bryd, Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor yw'r unig gyfarwyddwr yn y swydd, sy'n golygu y gallai perthynas grŵp fodoli rhwng y Cyngor a'r Porthladd Rhydd. Os oes perthynas grŵp, bydd angen i'r Cyngor gynhyrchu cyfrifon grŵp i gynnwys canlyniadau'r Porthladd Rhydd.

**Ein hymateb arfaethedig**

- Adolygu asesiad y Cyngor ynghylch a oes perthynas grŵp yn bodoli er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA.
- Lle bo'n berthnasol, sicrhau bod datgeliadau cyfrifon grŵp yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â Chod Llywodraeth Leol.

## Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Ceir amserlen isod yn dangos camau allweddol yr archwiliad a'n hagweddau allweddol i'w cyflawni yn yr archwiliad y byddwn yn eu darparu i chi.

**Arddangosyn 1: Amserlen Archwilio Datganiadau Ariannol**

| | |
|---|---|
| **Cynllunio**<br>**Ionawr i Ebrill 2025** | Cyfarfod cynllunio<br>Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel<br>Asesiad risg twyll<br>Cynllunio amcangyfrifon cyfrifyddu<br>Asesiad risg amgylchedd TG<br>Ffi archwilio ddangosol<br>Cynllun Archwilio Manwl Drafft |
| **Interim**<br>**Ionawr i Ebrill 2025** | Llifoedd gwybodaeth<br>Gweithdrefnau asesu risg manwl<br>Datblygu strategaeth brofi<br>Profi samplau cynnar |
| **Gwaith maes**<br>**Mehefin i Fedi 2025** | Diweddaru'r asesiad risg<br>Archwilio datganiadau ariannol i gynnwys adroddiad naratif a datganiad llywodraethu blynyddol<br>Adolygiad rheolaethau TG<br>Cwblhau profion archwilio<br>Gwerthuso canfyddiadau archwilio |
| **Adrodd**<br>**Hydref 2025** | Cyfarfod cloi'r archwiliad<br>Adroddiad Archwiliad o Gyfrifon<br>Argymhellion ar gyfer gwella<br>Cyflwyno canfyddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu<br>Ardystiad yr Archwilydd Cyffredinol<br>Crynodeb archwilio blynyddol<br>Dysgu ôl-brosiect |

# Gwaith archwilio perfformiad

## Trefniadau priodol

Fel y nodwyd yn y Cod Ymarfer Archwilio, mae'n rhaid i mi fodloni fy hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ('gwerth am arian'), a dod i gasgliad yn unol â hynny.

Rwy'n gwneud hyn trwy ymgymryd â rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn. Rwy'n seilio fy rhaglen waith ar asesiad o risgiau'r Cyngor a'r ffaith nad oes gan y sector Llywodraeth Leol ehangach yng Nghymru y trefniadau priodol ar waith, â'r gwaith yn canolbwyntio'n nodweddiadol ar y meysydd risg mwyaf.

Wrth ddylunio'r rhaglen, mae'n rhaid bod fy archwilwyr wedi ystyried trefniadau corfforaethol a lefel gwasanaeth, gan gynnwys:

- Cynllunio strategol
- Rheoli asedau
- Cynllunio ariannol
- Gweithio ar y cyd
- Rheoli perfformiad a risg
- Llywodraethu cyffredinol
- Cynllunio'r gweithlu

Bydd fy archwilwyr hefyd wedi cymryd i ystyriaeth gwaith perthnasol sy'n cael ei wneud neu yn yr arfaeth gan gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu eraill yn y Cyngor.

Rwy'n gwneud fy ngwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio safon ISSAI 3000 a ddatblygwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw INTOSAI. Mae'n sefydliad anllywodraethol â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

## Llesiant cenedlaethau’r dyfodol

Mae adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni’r amcanion hynny.

Diffinnir yr **egwyddor datblygu cynaliadwy** fel ymddwyn mewn modd…

…sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

I wneud hyn, mae’n rhaid iddynt ystyried y **‘pum dull o weithio’**.




Mae’n rhaid i mi gynnal yr archwiliadau hyn ym mhob corff cyhoeddus sydd wedi’i gwmpasu gan y Ddeddf o leiaf unwaith yn ystod cyfnod penodedig.

Gallai’r rhain fod yn archwiliadau annibynnol neu’n rhan o’m rhaglen archwilio perfformiad. Fodd bynnag, pa fo’n berthnasol ac yn briodol gwneud hynny, bydd fy archwilwyr yn integreiddio’r gwaith sy’n ofynnol i waith archwilio perfformiad arfaethedig arall ar gyfer y Cyngor. Bydd fy archwilwyr yn parhau i ymgysylltu’n agos â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru i helpu i gydgysylltu ein gweithgareddau priodol.

# Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Rwy'n nodi isod manylion fy ngwaith archwilio perfformiad

## Gwaith Themataidd: Ymateb i bwysau gweithlu mewn llywodraeth leol

Gwaith archwilio lleol ar draws y 22 cyngor prifol a fydd yn edrych ar drefniadau i sicrhau adnoddau priodol a chost-effeithiol ar gyfer eu gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys sut mae cynghorau yn addasu i farchnad gyflogaeth sy'n newid, a ffyrdd o weithio, pan gânt eu cyfuno â chyfyngiadau ariannol.

## Gwaith Rhanbarthol: defnyddio data wrth osod cyllidebau ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu gyrru gan alw

Gwaith archwilio lleol ar draws y 6 cyngor prifol yng Ngogledd Cymru a fydd yn edrych ar drefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol wrth osod cyllidebau. Bydd hyn yn cynnwys sut mae cynghorau yn defnyddio data i lywio'r adnoddau sydd eu hangen.

## Gwaith Lleol: Adolygiad o Reoli Ailgylchu a Gwastraff

Mae cyfraddau ailgylchu'r Cynghorau yn llusgo y tu ôl i dargedau cenedlaethol ac mae'r gwasanaeth yn gymharol ddrud y pen o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn cynyddu'r risg nad yw trefniadau priodol ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu lle.

Bydd y prosiect hwn yn adolygu trefniadau gwasanaeth rheoli ailgylchu a gwastraff y Cyngor, ond mae'r union gwmpas i'w bennu.

# Amseriad Gwaith Archwilio Perfformiad

Bydd fy nhîm yn gweithio gyda swyddogion yn y Cyngor i drefnu amserlenni manwl ar gyfer y prosiectau unigol a byddant yn cael eu cyfathrebu'n rheolaidd drwy ein diweddariad rheolaidd. Nod fy archwilwyr fydd cwblhau'n sylweddol y gwaith archwilio perfformiad a nodir yn y cynllun hwn erbyn diwedd Mehefin 2026.

# Swyddogaethau archwilio statudol eraill

Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiad mewn archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi cynnwys unrhyw ystyriaeth yn y ffi isod. Os byddaf yn derbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

# Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Ffioedd 2025-26 yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyllid y Senedd sy'n rhoi manylion y cynnydd cyfartalog i gyfraddau ffioedd o 1.7%.

Bydd y ffi wirioneddol y mae unrhyw gorff unigol sy'n cael ei archwilio yn ei thalu yn dibynnu nid yn unig ar ein cyfraddau ffioedd ond ar gyfanswm y gwaith a'r gymysgedd sgiliau sy'n ofynnol.

Yn 2022-23, byddwch yn cofio ein bod wedi cyflwyno dull archwilio sylfaenol wahanol ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol, a oedd yn ofynnol o dan safonau archwilio rhyngwladol newydd. Roedd hyn yn gofyn am gymysgedd sgiliau mwy cyfoethog a chostus a adlewyrchwyd gan ffioedd uwch. Rydym bellach wedi adolygu gweithrediad y dull archwilio newydd hwn ac wedi nodi effeithlonrwydd a ganiataodd ddarparu ad-daliad ar gyfer archwiliad 2023-24 a chynnal amcangyfrif ffi is ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2024-25. .

Gweithredwyd y cynnydd cyfartalog i ffioedd fel amcangyfrif i feysydd eraill fy ngwaith archwilio.

**Cyfanswm amcangyfrifedig eich ffi archwilio: £429,745**

Bydd cynllunio yn barhaus, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i'm harchwilwyr eu trafod nhw gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn gyntaf. Mae **Arddangosyn 2** yn cynnig dadansoddiad pellach o'ch ffi archwilio amcangyfrifedig.

**Rwy'n seilio fy ffi archwilio ar y tybiaethau canlynol:**

- Mae'r agweddau i'w cyflawni o'r archwiliad y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac i gynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Mae gofynion archwilio fy mhrosiectau archwilio perfformiad unigol yn cael eu bodloni gan y corff sy'n cael ei archwilio, neu rhoddir trefniadau eraill addas ar waith sy'n diwallu anghenion fy nhîm archwilio.
- Ni nodir unrhyw faterion o arwyddocâd, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu crynhoi yn y cynllun hwn, yn ystod yr archwiliad.

## Arddangosyn 2: dadansoddiad o'm ffi archwilio amcangyfrifedig ar gyfer 2025 (a 2024 fel cymhariaeth)

### Ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2025 (£)[1]

| Archwiliad o ddatganiadau ariannol[2] | Gwaith archwilio perfformiad[3] | Gwaith ardystio grantiau[4] |
|---|---|---|
| £236,026 | £117,444 | £76,275 |

**Cyfanswm y ffi: £429,745**

### Ffi wirioneddol ar gyfer 2024 (£)

| Audit o ddatganiadau ariannol | Gwaith Archwilio perfformiad | Gwaith ardystio grantiau |
|---|---|---|
| £234,354 | £97,481[5] | £75,000[6] |

**Cyfanswm y ffi: £406,835**

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW.

[2] Taliadwy Tachwedd 2024 i Hydref 2025

[3] Taliadwy Ebrill 2025 i Fawrth 2026.

[4] Taliadwy wrth i'r gwaith gael wi wneud.

[5] Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac felly dyma'r amcangyfrif diweddaraf sydd ar gael, y ffi wreiddiol oedd £115,481.

[6] Mae'r ffi ardystio grantiau yn parhau i fod yn amcangyfrif wrth i'r archwiliad o Gymhorthdal Budd-dal Tai 2023-24 fynd rhagddo.

# Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond bydd rhywfaint o waith archwilio ar safle yn ailgychwyn/parhau lle mae'n briodol gwneud hynny.

Yn wir, roedd fy nhîm archwilio a oedd ar y safle yn ystod gwaith archwilio cyfrifon y llynedd o'r farn bod yr agosrwydd at swyddogion yn ffordd fwy effeithlon o weithio, ac mae swyddogion wedi cynnig adborth cadarnhaol ar eu profiadau.

Mae gan gorff sy'n cael eu harchwilio gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru pan fyddant ar eich safle.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

**Arddangosyn 3: fy nhîm archwilio lleol**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddwr Ymgysylltu** | Matthew Edwards<br>matthew.edwards@archwilio.cymru | |
| | **Archwilio Ariannol** | **Archwilio Perfformiad** |
| **Arweinydd Ymgysylltu** | Matthew Edwards<br>matthew.edwards@archwilio.cymru | Gary Emery<br>gary.Emery@archwilio.cymru |
| **Rheolwr Archwilio** | Rachel Freitag<br>rachel.freitag@archwilio.cymru | Carwyn Rees<br>carwyn.rees@archwilio.cymru |
| **Arweinydd Archwilio** | David Tomalin<br>david.tomalin@archwilio.cymru | Alan Hughes<br>alan.hughes@archwilio.cymru |

Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm i gyd yn annibynnol ar Y Cyngor a'ch swyddogion. Hefyd, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau y mae angen i mi dynnu eich sylw atynt.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn llwyr. Rydym o'r farn bod ansawdd archwilio yn golygu cael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Rydym yn gwneud ein gwaith yn destun craffu annibynnol gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae ein Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. Os hoffech ragor o wybodaeth, gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024.

**Ein Pobl**

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir**

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

**Sicrwydd annibynnol**

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Eich cynorthwyo

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o adnoddau i gynorthwyo'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

## Ewch i'n gwefan i ddarganfod:

Ein cyhoeddiadau sy'n trafod ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar y gorwel a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data a ffeithluniau i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwario cyhoeddus yn well.

Manylion ein gwaith Arfer Da a digwyddiadau gan gynnwys rhannu arferion a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 26 Mehefin 2025 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2025-26 f2 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2025-26 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae blaen raglen waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen ddatblygu yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2025-26 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

## Atodiad A – Blaen Raglen Waith 2025-26 f2

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2) | | | | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1)<br><br>Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5) |
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2024-25 (3.4.8.3.1/2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 (3.4.8.3.2) | | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2024-25 (3.4.8.4.4) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2024-25 | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) | | | |

[1] Cyfarfod arbennig os oes angen

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (3.4.8.4.1/2/3)<br>(3.4.8.6.1/2/3)<br>(3.4.8.8.2) | | (3.4.8.8.2) | | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2024-25 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2026-27) (3.4.8.5.1/3/4) | |
| Gwerth am arian (3.4.8.6) | *Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25 (3.4.8.10.6/7/8/9/ 12/14/15) (3.4.8.6.3)* | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Drafft 2024-25 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)* | | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Terfynol 2024-25 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | | *Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3) | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3) | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn Ysgolion 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh | | |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3) | | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | Diweddariad Rheoli Risgiau Newid Hinsawdd a Dod yn Sero Net (3.4.8.8.3) | | |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | *Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2024-25 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)* | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2024-25 (3.4.8.9.4/5/6)<br><br>Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2024-26 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6) | | | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25 (3.4.8.10.5/6/7/8/11/14/15) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (3.4.8.6.3)<br><br>Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2024-25 (3.4.8.10.1/8/11/13)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2025-26 (3.4.8.10.1/2/4/5)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12) | Dadansoddiad o fylchau o gydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU (3.4.8.10.1/2/8/11/13) | Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) | | | | Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | Cynllun Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.1/3) | | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch1 2025) (3.4.8.11.2/3) | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch2 2025) (3.4.8.11.2/3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch3 2025) (3.4.8.11.2/3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4 2025) (3.4.8.11.2/3) |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3) | |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2024-25 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2024-25 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | | Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.11.3) (3.4.8.13.1) | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2024-25 (3.4.8.14.1/2) | | | Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25 (3.4.8.14.1) | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | | Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3) | | | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Asesiad Perfformiad Panel (3.4.8.16)[2] | | Themâu i'w hystyried gan Asesiad Perfformiad y Panel (3.4.8.16.1) | | | | | |
| 3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol[3] | | | | | | | |



[2] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

[3] Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# Atodiad B – Rhaglen Ddatblygu (3.4.8.2.10)

## Hyfforddiant i'r pwyllgor

| Maes | Dyddiad a ddarparwyd ddiwethaf | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risg | Amherthnasol | Sesiwn Briffio | Mathew Henshaw, Prif Swyddog Digidol | 11/02/25 | |
| Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr | Mehefin 2023<br>Awst 2023 | | | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5.2) | Medi 2023 | | | | |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Hydref 2023 | | | | |
| Atal Twyll a Llygredd | Rhagfyr 2023 | | | | |
| Rheoli Risg | Mawrth 2024 | | | | |

Tudalen 176

## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |

### Cyfarwyddiadau i'r pwyllgor

| Teitl | Arwynebedd | Canolig | Darparwr | Dyddiad Darparwyd |
|---|---|---|---|---|
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 40: Safonau Archwilio Mewnol Newydd | Newidiadau sydd ar ddod i'r safonau archwilio mewnol a sut y bydd hynny'n effeithio ar aelodau'r pwyllgor archwilio. | Nodyn Briffio | CIPFA | 24/12/24 |
| Cylchlythyr CIPFA Llywodraethu Gwell | Gwybodaeth i bwyllgorau archwilio ynghylch cyhoeddi Cod Ymarfer CIPFA i gefnogi awdurdodau i sefydlu a chynnal eu trefniadau archwilio mewnol, ynghyd â gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar yr Atodiad i Fframwaith Llywodraethu 2016 sy'n cwmpasu'r adolygiad blynyddol o lywodraethu a'r datganiad llywodraethu blynyddol. | Cylchlythyr | CIPFA | 07/02/25 |
| Archwilio Cymru - Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol a chanllawiau poced ar effaith gadarnhaol | Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canllaw poced sy'n crynhoi arferion effeithiol ar gyfer pwyllgorau archwilio. | Canllaw poced | Archwilio Cymru | 25/02/25 |
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 42: Llywodraethu Archwilio Mewnol | Y Cod Ymarfer newydd ar Lywodraethu Archwilio Mewnol sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2025. | Nodyn Briffio | CIPFA | 17/04/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus CIPFA – Gallai mabwysiadu AI 'arbed £8bn y flwyddyn i gynghorau Cymru a Lloegr' | Erthygl sy'n amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr arbed £8bn bob blwyddyn trwy integreiddio deallusrwydd artiffisial yn eu gweithrediadau. | Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/05/25 |
| CIPFA / Solace Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Cyhoeddi Atodiad | Cyhoeddi canllawiau newydd ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethu a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol (AGS) sy'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. | Cyhoeddiad | CIPFA | 20/05/25 |

Tudalen 177

This page is intentionally left blank